Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

## Adroddiad ar effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD



# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| **1. RHAGAIR A CHYFLWYNIAD** | **2** |
| **2. TROSOLWG O'R GWASANAETHAU PLANT** | **6** |
| **3. PONTIO I FOD YN OEDOLYN** | **24** |
| **4. TROSOLWG O'R GWASANAETHAU OEDOLION** | **26** |
| **5. BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023/24** | **42** |
| **6. CANLYNIADAU AROLYGON** | **44** |
| **7. SUT MAE POBL YN LLUNIO EIN GWASANAETHAU?** | **46** |
| **8. HYRWYDDO A GWELLA LLES Y BOBL YR YDYM YN EU HELPU:** | **54** |
| **Safonau Ansawdd:** | |
| • Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl eisiau eu cyflawni | 54 |
| • Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol | 59 |
| • Rhoi camau ar waith i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed | 63<br>67 |
| • Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas | |
| • Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel | 71 |
| • Gweithio gyda phobl, a'u cefnogi i wella eu lles economaidd, cymdeithasu'n rheolaidd a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion | 75 |
| **9. EIN DULLIAU** | **78** |
| Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol | 80 |
| Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol | 83 |

# 1 RHAGAIR A CHYFLWYNIAD

## Neges gan Aelodau Arweiniol

I ddechrau, hoffem ddweud cymaint yr ydym wedi mwynhau ein blwyddyn gyntaf fel yr Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol sy'n cwmpasu'r portffolios Oedolion a Phlant yng Nghaerdydd. Mae wedi bod yn bleser i ni archwilio, dysgu am a chefnogi'r gwasanaethau hyn. Mae ein hymweliadau â thimau wedi rhoi cipolwg i ni ar waith y timau o ddydd i ddydd, yr heriau sy'n eu hwynebu, a'r llwyddiannau y maent yn eu cyflawni. Rydym yn diolch yn ddiffuant i holl staff y Cyngor sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi'r bobl a'r teuluoedd sy'n derbyn ein gwasanaethau - mae eich ymdrechion, o ddydd i ddydd, yn cael eu gwerthfawrogi. Rydym hefyd am gydnabod rôl allweddol ein partneriaid – gwirfoddolwyr, y trydydd sector, darparwyr gofal, a statudol – i'n helpu i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai yn ein dinas sydd angen ein help fwyaf.


Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyflawniadau gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghaerdydd yn ystod blwyddyn anodd arall. Mae'r angen i gwrdd a rheoli'r lefel uchel barhaus o alw am wasanaethau wrth ymdrechu i ddarparu cyllideb gytbwys a sicrhau gwerth am arian yn fwyfwy heriol. Rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i adolygu sut y darperir gwasanaethau ac ystyried yr angen am addasiadau radical i ateb y galw a diogelu gwasanaethau gofal cymdeithasol at y dyfodol yng Nghaerdydd.

O fewn yr adroddiad, rydym yn disgrifio'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn – megis gweithredu'r Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth Mewn Gwasanaethau Plant newydd a pharhau i weithredu'r Strategaeth Heneiddio'n Dda yn y Gwasanaethau Oedolion. Rydym hefyd yn tynnu sylw at rai ystadegau allweddol – megis y Gwasanaethau Plant yn ymateb i 45,264 o gysylltiadau a Thîm Pwynt Cyswllt Cyntaf y Gwasanaethau Oedolion yn rheoli 36,757 o gysylltiadau cwsmeriaid.

Mae symud cydbwysedd gofal yn parhau i fod yn ffocws allweddol ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Mae pwysigrwydd hyn yn dod yn fwyfwy amlwg wrth i ni brofi effaith tymor hwy COVID-19 ar y galw am wasanaethau, a'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis cwblhau'r cwrs gradd gwaith cymdeithasol – gostyngiad o 42% yn nifer y ceisiadau i'r radd Gwaith Cymdeithasol. Mewn ymateb i hyn, rydym yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod y gwasanaethau cywir yn cael eu darparu gan y bobl gywir ar yr adeg gywir, a bod gennym yr adnoddau a'r capasiti cywir i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

Mae llawer i'w wneud o hyd a byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i ddarparu'r arweinyddiaeth sydd ei hangen i gefnogi ein gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae blaenoriaethau'r flwyddyn i ddod yn cael eu dangos yn yr adroddiad hwn ar gyfer y Gwasanaethau Plant, Oedolion a Chymdeithasol yn eu cyfanrwydd, a gweithio mewn partneriaeth a chydgynhyrchu yw ein hegwyddorion allweddol sylfaenol. Mae manylion sut y bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu gweithredu wedi'u nodi yng Nghynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Bydd cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau yn cael ei fonitro drwy system adrodd gorfforaethol y Cyngor - gyda diweddariadau rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgorau Craffu.

Y llynedd gwnaethom ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i amlygu a dathlu gwaith staff ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, a gobeithiwn fod ein gweithlu gofal cymdeithasol wedi gweld ein bod wedi manteisio ar bob cyfle - yn bersonol, yn ysgrifenedig a thrwy'r cyfryngau - i wneud yn union hynny. Ni fyddem yn gallu cyflawni popeth a wnawn heb ein staff - felly diolch.



**Y Cynghorydd Norma Mackie,**
*Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion)*



**Y Cynghorydd Ash Lister,**
*Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant)*



## Neges gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol



**Sarah McGill,**
*Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol*

Mae’r adroddiad hwn yn manylu ar gyflawniadau Gwasanaethau Plant ac Oedolion Caerdydd, mewn partneriaeth â Chyfarwyddiaethau eraill y Cyngor a phartneriaid allanol, yng nghyd-destun y galw uchel parhaus am wasanaethau a’r ystod amrywiol o wasanaethau a ddarperir.  Rydym wedi parhau i ymateb i sgil-effeithiau’r pandemig COVID-19 a chyflwyno cynlluniau adfer ar gyfer ein gwasanaethau hanfodol. Mae’r ffaith bod ein gweithlu wedi parhau i ymateb a chyflawni ar y gyfradd hon yn dyst i’w hymroddiad a’u gwydnwch, ac rwy’n hynod falch o’n holl staff a’n cydweithwyr.

Isod, ceir rhai ffigurau allweddol i ddangos swm y gwaith a wnaed o ddydd i ddydd yn ystod y flwyddyn:

### GWASANAETHAU PLANT

**45,264** o gysylltiadau wedi’u derbyn (gan gynnwys y Porth Teuluoedd) y daeth **4,072** ohonynt yn atgyfeiriadau

**2,353** o asesiadau lles wedi’u cwblhau

**17,448** o ymweliadau wyneb-yn-wyneb wedi’u cynnal â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant sy’n derbyn gofal

**922** o ymweliadau rhithwir gyda phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant sy’n derbyn gofal

**93** o blant sy’n derbyn gofal wedi symud i leoliad byw’n annibynnol

**32** o blant wedi’u mabwysiadu

**4,623** o achosion wedi’u cau, ac roeddent yn dal ar gau ar 31 Mawrth

## GWASANAETHAU OEDOLION

**1,686** o ymholiadau Diogelu Oedolion wedi'u cychwyn

**36,757** o gysylltiadau cwsmeriaid wedi'u rheoli gan y tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf (PCC)

**4,196** o bobl wedi derbyn gofal cartref yn ystod y flwyddyn *(drwy bob gwasanaeth, gan gynnwys Byw â Chymorth)*

**147** o atgyfeiriadau wedi'u derbyn trwy Swyddogion Lles Hybiau

**610** o Asesiadau Lles Gofalwyr wedi'u cynnal

**6,879** o Gynlluniau Cymorth a Gofal a **2,831** o adolygiadau wedi'u cwblhau

**2,788** o asesiadau wedi'u cwblhau gan y Tîm Byw'n Annibynnol

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Academi Gofalwyr Caerdydd / Cardiff Cares Academy

Mae cyfanswm o **753** o bobl wedi cofrestru gydag Academi Gofalwyr Caerdydd ers i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Hydref 2021.

Cyflawnwyd **135** o ganlyniadau gwaith yn 2022/23

**423** o aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant Trin â Llaw

**520** o geisiadau ar y dydd/diwrnod gwaith nesaf wedi'u derbyn gan y gan y Cyd-Wasanaeth Offer

**97,116** o brydau bwyd wedi'u dosbarthu gan Pryd ar Glud trwy gydol y flwyddyn

Rwyf wedi crynhoi fy asesiad o'r datblygiadau a'r heriau allweddol yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion isod:

# 2 TROSOLWG GWASANAETHAU PLANT

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu ein Strategaeth Gwasanaethau Plant. Mae Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth Mewn Gwasanaethau Plant 2023-26 yn nodi ein cyfeiriad ac yn crynhoi'r gwaith allweddol sydd ei angen i sicrhau newid blaengar i symud cydbwysedd gofal i blant yng Nghaerdydd. Ein nod yw sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir, gan y person cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir ac ar y lefel ddiogel isaf o ymyrraeth.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar 3 maes allweddol:

- Sicrhau bod ystod o gefnogaeth yn y gymuned a bod amrywiaeth o gartrefi i blant ar gael yng Nghaerdydd - **lle**.
- Cefnogi gweithlu parhaol - **pobl**.
- Datblygu ein **hymarfer** a gweithdrefnau.

Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Plant gyffredinol wedi'i hategu gan ein Strategaeth Gweithlu, ein Strategaeth Llety a'n Strategaeth Comisiynu. Ynghyd â'n Fframwaith Perfformiad newydd, mae'r rhain yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth. Ymhlith y strategaethau eraill sy'n cefnogi'r ffordd y darperir ein gwasanaethau mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol, y Strategaeth Seiliedig ar Drawma, y Strategaeth ar gyfer Plant ag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Strategaeth Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

Mae nifer y cysylltiadau a'r cyfeiriadau at y Gwasanaethau Plant, er yn is na'r llynedd, yn parhau i fod yn uchel ac mae'r pwysau ar y gwasanaeth yn parhau. Rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau ein bod yn gallu rheoli ac ymateb i'r galw am wasanaethau fel bod ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaethau strategol i symud cydbwysedd gofal yn parhau i'r perwyl hwn.

Ceir isod drosolwg o'r cynnydd yn y galw yn ystod taith y plentyn:


| Cysylltiadau | Atgyfeiriadau | Asesiadau lles | Trafodaethau strategaeth |
|---|---|---|---|
| **45,264** | **4,072** | **2,353** | **4,743** |
| ▼ **5%** | ▼ **20%** | ▼ **6%** | ▼ **11%** |
| 47,424 (2021/22) | 5,108 (2021/22) | 2,509 (2021/22) | 5,338 (2021/22) |
| **Ymholiadau Adran 47** | **Cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol** | **Ychwanegwyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Wedi dechrau derbyn gofal** |
| **3,851** | **577** | **532** | **265** |
| ▼ **8%** | ▼ **16%** | ▼ **13%** | ▼ **13%** |
| 4,171 (2021/22) | 689 (2021/22) | 612 (2021/22) | 306 (2021/22) |

Mae'r lefel uchel o alw a chymhlethdod parhaus wedi bod yn broblem i'r Gwasanaethau Plant ers nifer o flynyddoedd ac mae effaith hirdymor COVID-19 wedi gwaethygu hyn.  Yn dilyn yr ymateb cychwynnol i'r argyfwng, gwnaethom fabwysiadu dull adfer ar ôl pandemig COVID-19, a buom yn gweithio tuag at ailsefydlu'r modelau gweithredu a welwyd cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg ein bod yn byw ac yn gweithio mewn amgylchedd hollol wahanol. Rydym yn rhagweld y bydd y lefel uwch o gymhlethdod yr ydym yn ei brofi yn parhau am amser sylweddol. Mae hyn yn wir ar draws y system gyfan, ac mae'n rhaid i ni fod yn arloesol yn ein meddylfryd a'n dull gweithredu - gan ddatblygu mentrau newydd i'n galluogi i reoli'r galw a diwallu'r angen.

Er bod niferoedd wedi dechrau gostwng, mae'r "norm newydd" o ran lefelau galw a chymhlethdod wedi effeithio ar ein perfformiad yn erbyn targedau allweddol (er enghraifft, mewn perthynas ag amseroldeb ymweliadau a chwblhau cynlluniau ar gyfer plant).  Rydym yn parhau i fonitro'n perfformiad yn ofalus i lywio ein gwaith cynllunio prosiectau a gweithredu'r ffrydiau gwaith gwella sy'n cael eu disgrifio drwy gydol yr adroddiad hwn. Rydym yn ymgorffori diwylliant perfformio sy'n gweithio o'r pen i lawr ac o'r gwaelod i fyny – gan ddefnyddio Power BI fel y prif offeryn i gefnogi ein dull o reoli perfformiad. Mae timau'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos i adolygu'r data diweddaraf, cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer yr wythnos a monitro cynnydd.  Mae'r manylion am sut rydym yn gwneud hyn wedi'u nodi yn ein Fframwaith Perfformiad newydd ac rydym yn rhagweld y bydd hyn yn ein galluogi i ddangos perfformiad gwell yn erbyn dangosyddion allweddol yn y flwyddyn i ddod. Mae proses newydd ar gyfer cofnodi ac adrodd goruchwyliaeth wedi'i datblygu a'i gweithredu, gan wella gallu rheolwyr i fonitro bod goruchwyliaeth yn digwydd a bod achosion yn cael eu trafod yn rheolaidd yn ôl yr angen.

## Newid y Cydbwysedd - Lle

*Cafodd un o'n cartrefi preswyl mewnol ymweliad dirybudd - ond i'w groesawu - gan aelod o'r cyhoedd a oedd wedi derbyn gofal yno 30 mlynedd yn ôl. Mae un o'r aelodau staff yr oedden nhw'n ei gofio yn rheolwr erbyn hyn, ac fel mae lwc yn bod, roedd ar shifft adeg yr ymweliad. Rhannodd yr ymwelydd ei atgofion melys o'i amser yn tyfu i fyny yno gyda hi ac roedd yn hyfryd iddi glywed ei fod wedi symud dramor a chael gyrfa lwyddiannus yn Awstralia.*



Mae diffyg lleoliadau a llety i blant sy'n derbyn gofal wedi bod yn broblem sylweddol yng Nghaerdydd (ac yn genedlaethol) ers dechrau 2022. Achoswyd hyn drwy gyfuniad o ffactorau gan gynnwys - gostyngiad mewn lleoliadau maethu annibynnol, cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal (yn enwedig gwrywod hŷn), cymhlethdod cynyddol o ran yr angen a bregusrwydd yn y farchnad breswyl sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae yna hefyd brinder darpariaeth tai (a thai â chymorth) sy'n effeithio ar ddatblygu cynlluniau i bobl ifanc symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Mae'r problemau hyn wedi effeithio ar ein gallu i reoli'r farchnad ac wedi hynny wedi effeithio ar ein gallu i reoli o fewn ein cyllideb a ddyrannwyd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau cost uchel a chartrefi sy'n gweithredu heb gofrestriad. Mae hyd y lleoliadau hyn hefyd wedi cynyddu ond mae'r canlyniadau i blant wedi bod yn gadarnhaol ac wedi eu galluogi i gamu i lawr i drefniadau llai dwys. Mae penderfyniadau i osod pobl ifanc yn y trefniadau hyn bob amser yn cael eu gwneud er budd pennaf y plentyn sydd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Dylid nodi bod gan y trefniadau hyn oblygiadau sylweddol o ran adnoddau ar gyfer y gwasanaeth gan gynnwys sicrhau goruchwyliaeth gadarn o'r holl leoliadau unigol a gofynion adrodd i Arolygiaeth Gofal Cymru.

I fynd i'r afael â hyn, rydym yn chwilio am atebion arloesol ac yn datblygu ystod o wasanaethau cymorth i sicrhau y gall plant aros gartref gyda'u teuluoedd pan fydd hynny er eu lles gorau. Nodir cynnydd allweddol yn ystod y flwyddyn isod.

Fel rhan o'r adolygiad o'n Strategaeth Gwasanaethau Plant, rydym hefyd wedi datblygu Strategaeth Llety sy'n nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni nodau ein strategaeth. Mae wedi'i chysylltu'n agos â'n gwaith i weithredu'r model Y Lle Cywir yng Nghaerdydd ac mae'n cynnwys ein cynlluniau uchelgeisiol i gynyddu'r ddarpariaeth gofal preswyl i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd gan 38 o welyau yn ystod y 3 blynedd nesaf. Mae'n ystyried y cyd-destun cenedlaethol - gan gynnwys archwilio diwygio radical ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a pholisi Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'n pwysau lleol - gan gynnwys yr angen am ddarpariaeth llety iechyd meddwl arbenigol i gefnogi cam-i-lawr o'r ysbyty a gofynion seibiant byr ar gyfer plant ag anableddau ac anghenion cymhleth. Mae 5 llinyn allweddol ein Strategaeth Llety wedi'u nodi isod ac maent yn ychwanegol at ein gwaith i:

- Gefnogi plant y mae angen eu gosod y tu allan i'r ardal.
- Cynyddu llety Porth i Bobl Ifanc.
- Cyflwyno'r model Tŷ yn Gyntaf.
- Datblygu maethu mewnol (gweler isod).
- Newid cydbwysedd gofal i atal yr angen i blant ddechrau derbyn gofal.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth newydd a nodir yn ein Strategaeth Llety, rydym hefyd yn cyflwyno 2 gerbyty i'n ffrwd yn fuan a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer lleoliadau unigol gyda'r bwriadu o'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn y dyfodol.

## Prif Ddiweddariadau:

**Darpariaeth Breswyl i Blant**
*2 eiddo yn cael eu hadnewyddu i'w cofrestru yn 2023/24*
*2 gerbyty wedi'u nodi*


**Iechyd Meddwl Arbenigol a Chamu-i-Lawr o'r Ysbyty**
*Eiddo wedi'i nodi - pryniant yn mynd rhagddo*

**Plant ag Anableddau**
*Ail-ddylunio'n mynd rhagddo*
*Nifer yr arosiadau dros nos yn cynyddu*

**Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches**
*Gweithio gyda darparwyr i ddatblygu darpariaeth*

**Llety Rhieni a Babanod**
*Partner i'w gomisiynu i gyflawni'r ddarpariaeth hon*

**Cyn**



**Yn ystod**



**Ar ôl**



Mae datblygiadau eraill mewn perthynas ag elfen Lle y Strategaeth Gwasanaethau Plant yn cynnwys:

- Rydym yn parhau i weithredu'r **Fframwaith Ailuno** i gefnogi plant i ddychwelyd adref at eu teuluoedd lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny. Cynhaliwyd sesiwn saib a myfyrio gychwynnol ac mae disgwyl i sesiwn arall gael ei chynnal yn gynnar yn 2023/24 i edrych ar y Fframwaith Ailuno a gwerthuso beth sydd / sydd ddim yn gweithio'n dda a phenderfynu pa welliannau sydd eu hangen. Er enghraifft, mae angen i ni sicrhau bod anghenion hyfforddi staff yn cael eu diwallu. Mae angen i ni hefyd ystyried sut y bydd y gwaith hwn a'n gwaith cynllunio sefydlogrwydd ehangach yn cael eu rheoli yn y model gweithredu newydd yr ydym yn ei ddatblygu. Mae gwaith wedi'i wneud i ystyried y rhwystrau i deuluoedd gymryd rhan yn y broses ailuno ac mae'r canlynol wedi'u nodi:
    - Anghysondeb mewn cysylltiad.
    - Problemau cam-drin domestig.
    - Problemau camddefnyddio sylweddau.
    - Dymuniadau a dealltwriaeth rhieni a phlant o'r broses.
- Rydym yn parhau i weld nifer sylweddol o blant mewn **lleoliadau perthynas** - 204 ar 31 Mawrth 2023.

- Mae prosiect wedi'i lansio i ehangu'r **gwasanaeth maethu mewnol** – gyda'r nod o gynyddu nifer y gofalwyr mewnol a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r plant sy'n cael eu lleoli gyda nhw orau. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynyddu nifer y plant sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr mewnol gan 9% - o 119 ar 31 Mawrth 2022 i 130 ar 31 Mawrth 2023. Rydym wedi datblygu 2 leoliad Cynllun Arddegau a 2 leoliad rhiant a babi. Mae'r olaf wedi gweld 1 rhiant a babi yn symud ymlaen yn llwyddiannus i fyw â chymorth ac ail riant a babi ar leoliad ar adeg ysgrifennu. Rydym yn parhau â'n hymgyrchoedd recriwtio â ffocws i'n cefnogi i barhau i dyfu ein gwasanaeth maethu mewnol ac roedd gennym 12 asesiad llawn o bobl a hoffai ddod yn ofalwyr maeth yn mynd rhagddynt ar 31 Mawrth 2023. Yn dilyn trosglwyddo'r drws ffrynt maethu yn ôl i'r Gwasanaethau Plant, penodwyd Swyddog Recriwtio Maethu pwrpasol, a bydd penodiad pellach yn cael ei wneud gan ddefnyddio cyllid gan Maethu Cymru. Mae'r broses recriwtio Maethu wedi'i hailgynllunio- mae targedau wedi'u gosod ar gyfer gwahanol gamau o'r broses recriwtio er mwyn gwella amseroldeb. Rydym hefyd yn gwella ein mecanweithiau cofnodi a fydd, yn ei dro, yn gwella ein hadroddiadau er mwyn cefnogi ein monitro yn well wrth symud ymlaen.

- Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm peilot **Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC)** wedi cefnogi 9 teulu (15 rhiant ac 11 o blant) o Gaerdydd. Mae 6 set o achosion wedi dod i ben gyda 2 o blant yn dychwelyd i ofal eu rhieni o dan Orchmynion Goruchwylio a 3 phlentyn yn cael eu lleoli gyda theulu ehangach o dan Orchymyn Gofal gyda chynllun ar gyfer cais Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig. Rhoddwyd Gorchmynion Gofal mewn achosion eraill i 2 blentyn gael eu lleoli mewn gofal maeth tymor hir. Mae Achosion Gofal ar gyfer tri theulu yn parhau. Mae adborth gan rieni, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn parhau i gael ei gasglu ac yn gadarnhaol ar y cyfan o ran eu profiadau o fewn FDAC. Mae disgwyl i'r cyllid ar gyfer y peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) ddod i ben tua diwedd y flwyddyn galendr hon - mae angen cysylltu â Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r sefyllfa ariannu fel ein bod yn gwybod ar ba bwynt y mae angen i ni roi'r gorau i gymryd atgyfeiriadau newydd os yw'r peilot am ddod i ben.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith canlynol yn cael ei wneud, felly ni sydd yn y sefyllfa orau i barhau gyda'r peilot os cytunir ar yr arian:

- o Bydd problemau trothwy yn cael eu hystyried - er mwyn sicrhau bod cymhwysedd ar gyfer y peilot FDAC yn gydnaws â phroses Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus newydd.
- o Bydd data'n cael ei adolygu a chamu-i-fyny / camu-i-lawr yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'n cynlluniau i ddatblygu arferion a modelau gweithredu newydd.
  - O ran camu-i-fyny - bydd gwaith yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygu'r arferion a'r modelau gweithredu newydd i sicrhau bod sgyrsiau ar sail cryfderau yn digwydd cyn gynted â phosibl.
  - O ran camu-i-lawr - mae angen i hyn fod drwy ein Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) i sicrhau bod lefelau digonol o gymorth yn cael eu darparu, felly mae angen i ni ystyried cydnawsedd modelau gwasanaeth - gyda'r FDAC yn seiliedig ar ymatal a TICD yn seiliedig ar leihau niwe

- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i weithredu ein **Cynllun Gwella Gwaith Llysoedd**. Mae'r Tîm Cymorth Llysoedd sy'n ymgymryd â gwaith golygu ar gyfer datgeliadau Llys wedi trosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant ac wedi setlo'n dda - gan sefydlu cysylltiadau cryf ar draws y Gyfarwyddiaeth a chyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol. Rydym hefyd wedi cyflwyno traciwr i'n cefnogi i fonitro achosion cyfreithiol a sicrhau bod terfynau amser y Llys yn cael eu bodloni. Mae hwn yn cymryd peth amser i sefydlu, ac rydym ar hyn o bryd yn ystyried pa gamau y mae angen i ni eu cymryd i sefydlu'r traciwr fel 'busnes fel arfer'.

- Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth **Mabwysiadu** Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (FCCh) i ddatblygu a gwella'r broses fabwysiadu a sicrhau sefydlogrwydd i blant nad ydynt yn gallu aros gartref gyda'u teulu biolegol. Cyflwynwyd Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru ac yn ystod y flwyddyn mae set o fabwysiadwyr o Gaerdydd wedi dod y cyntaf i gael eu cymeradwyo fel gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru. Cefnogodd Cydweithfa Fabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd y cwpl i gael eu cymeradwyo fel darpar rieni mabwysiadol a gofalwyr maeth addas. Cafodd y teulu eu paru'n llwyddiannus â phlentyn 12 wythnos oed - arweiniodd hyn at weld y cwpl yn rhoi gofal i'r plentyn ar sail maethu tra bod yr achos llys angenrheidiol yn penderfynu ar fudd gorau'r plentyn yn y tymor hir. Daeth yr achos i'r casgliad bod angen mabwysiadu a chafodd y plentyn ei baru â'r teulu a oedd eisoes yn gofalu amdano. Gwnaeth hyn atal unrhyw symudiadau pellach ac mae'r plentyn wir yn ffynnu. Ers hynny, mae'r cwpl wedi bod yn hael iawn wrth rannu eu profiadau gydag eraill sy'n ystyried sefydlogrwydd cynnar a bydd cyfweliad fideo ar gael i'w rannu'n fwy eang â'r rhai sy'n ystyried y posibilrwydd o archwilio sefydlogrwydd cynnar.

Vale, Valleys and Cardiff Adoption | Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

Mae nifer o blant ag anghenion cymhleth wedi cael eu gosod yn llwyddiannus i'w mabwysiadu - darperir enghraifft yn yr astudiaeth achos isod:

*Cafodd Plentyn O enedigaeth drawmatig iawn ac ar un adeg nid oedd sicrwydd y byddai'n goroesi. Diolch byth, gwelwyd gwellhad cyson, a chafodd ei ddisgrifio gan ei feddyg ymgynghorol fel 'gwyrth o fabi'. Roedd ei drawma adeg ei eni yn sylweddol ac roedd ei oblygiadau hirdymor yn ei roi mewn perygl o oedi datblygiadol difrifol a nam gwybyddol yn ogystal â diagnosis o Barlys yr Ymennydd. Mae gan O hanes teuluol cymhleth hefyd, yn ogystal â risg enetig o anawsterau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl. Oherwydd cymhlethdod ei anghenion a'r ansicrwydd enfawr am ei ddatblygiad, roedd y broses o ddod o hyd i deulu yn hir iddo, ochr yn ochr ag effaith y pandemig a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd am ddigwyddiadau arbenigol i ddod o hyd i deulu. Nodwyd mabwysiadwyr mewnol a oedd wedi'u cymeradwyo gan FCCh ar ei gyfer a datblygodd hyn trwy'r broses baru at leoliad.*

*Roedd hon yn broses raddol ofalus iawn gyda chynllun pontio pwrpasol ar waith a oedd yn cydnabod ei anghenion penodol a hyd ei leoliad gyda'i ofalwyr maeth. Roedd y gallu i ddod o hyd i fabwysiadwyr FCCh iddo yn hynod fanteisiol i'r broses hon oherwydd gallai ei fabwysiadwyr fod yn hyblyg ac roeddent ar gael am gyfarfodydd rheolaidd cyn y broses gyflwyniadau ddwysach. Gwnaeth hefyd alluogi lefel uchel o gyswllt â'i ofalwyr maeth ar ôl y lleoliad a galluogi cymorth da i gael ei ddarparu ymhell ar ôl y lleoliad. Mae O wedi ffynnu yng ngofal ei fabwysiadwyr ac mae'n gwneud cynnydd anhygoel - sicrhawyd ei sefydlogrwydd o fewn ei uned deuluol gyda Gorchymyn Mabwysiadu tua diwedd 2022/23.*

- Mae'r **Ganolfan Ymyriadau** wedi cael ei gweithredu a'i gwreiddio'n llawn yn y Gwasanaethau Plant. Mae elfen Cymorth i Deuluoedd y Ganolfan Ymyriadau yn ei chael hi'n anodd ateb y galw (yn ystod y flwyddyn maent wedi cynnal dros 9,000 o ymweliadau) - cytunwyd ar adnodd ychwanegol i reoli'r galw hwn ac mae'n cael ei drefnu. Cafodd 70% (378) o'r achosion a gaewyd eu cau o ganlyniad i ymyrraeth lwyddiannus. Ymysg y rhesymau eraill dros gau achosion mae teuluoedd yn datgysylltu, anghenion parhaus yn cael eu diwallu ac atgyfeiriadau at wasanaeth arall / panel anghenion uwch. Mae ymgynghoriad â gweithwyr cymdeithasol yn ystyried a all y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) ddarparu'r gefnogaeth ofynnol. Yn ystod y flwyddyn cytunwyd y bydd darpariaeth y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd yn cael ei hehangu i ddarparu cymorth y tu allan i oriau. Mae gwaith yn parhau i greu a hysbysebu'r swyddi hyn.

Ceir enghraifft o'r gwaith gwych a wnaed gan y Ganolfan Ymyriadau yn ystod y flwyddyn isod:

*Cynigiwyd cymorth rhianta cynenedigol i rieni E ac C drwy'r rhaglen rhianta cynenedigol "Croeso i'r Byd." Doedd merch hŷn Mam ddim yn ei gofal oherwydd pryderon difrifol am ei gallu i'w diogelu a diwallu ei hanghenion - cafodd y plentyn ei cham-drin yn rhywiol gan aelod arall o'r teulu tra yng ngofal ei mam a daethpwyd i'r casgliad yn ystod yr achos gofal fod Mam wedi methu ag amddiffyn ei merch.*

*Hwn oedd ail blentyn Dad, ond roedd yn y carchar pan gafodd ei blentyn cyntaf ei eni, ac nid oedd wedi cael unrhyw brofiadau gofalu. Roedd pryderon ynghylch Dad mewn perthynas â dosbarthu cyffuriau dosbarth A a defnydd cyffuriau ar y pryd.*

*Roedd gan y ddau riant hanes o drais domestig gyda phartneriaid blaenorol. Dim ond am gyfnod byr iawn roedden nhw wedi bod mewn perthynas cyn dod yn feichiog. Dechreuodd y Gwasanaethau Plant y broses Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus (AGG) gyda'r dybiaeth y byddai angen gwahanu'r babi adeg ei eni er mwyn ei ddiogelu.*

*Cyflwynwyd y rhaglen rhianta cynenedigol "Croeso i'r Byd" i'r ddau riant ar sail un i un. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys wyth sesiwn: mae'r pynciau'n cynnwys cydymdeimlad a sylw cariadus; datblygiad ymennydd babanod; dewisiadau iach; rheoli straen; hybu hunan-barch a hyder a chyfathrebu effeithiol. Nod y rhaglen yw gwella ymgyfarwyddo a bondio, gwella lles rhieni a gwella gwybodaeth a sgiliau o ran gofal ymarferol babanod.*

*Ymgysylltodd y ddau riant yn llawn ag ymyrraeth y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd Cynenedigol a chwblhau'r rhaglen "Croeso i'r Byd" ynghyd â gwaith dwys gan y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD). Cyfrannodd yr ymgysylltiad cadarnhaol hwn yn fawr at yr asesiad risg cynenedigol gan arwain at ganlyniad cadarnhaol i'r rhieni gan iddynt gael eu rhoi mewn lleoliad preswyl gyda'u merch tra bod asesiadau pellach yn cael eu cwblhau.*

*Dychwelon nhw adref ar ôl pasio'r asesiad preswyl ac mae'r rhieni'n mwynhau cael eu merch yn eu gofal.*


***Adborth gan rieni:***

*"Ers cwrdd ag L o'r rhaglen Croeso i'r Byd, er ei fod dan amgylchiadau a oedd yn teimlo'n anodd, gwnaeth hi i ni deimlo mor gyfforddus. Nid yn unig roedd hi'n deall yr hyn roedden ni'n mynd drwyddo, cymerodd yr amser i wir wrando arnon ni, hyd yn oed os oedden ni'n llosgi ei chlustiau, roedd hi'n dal i roi ei hamser a'i hamynedd i ni.*

*Rydyn ni mor ddiolchgar am ei holl waith caled a'i hymdrech ac fe ddysgon ni gymaint o'r rhaglen Croeso i'r Byd".*

- Mae'r gwaith o weithredu'r **Ganolfan Adolygu** yn parhau - ar adeg ysgrifennu, mae dros 850 o adolygiadau cychwynnol wedi eu cynnal ac mae dros 500 o blant wedi cael ail adolygiad. Mae dros 200 o blant a phobl ifanc wedi cael eu camu-i-lawr gan gau achosion neu ddarparu gwasanaethau Cymorth Cynnar. Mae'r adroddiad Power BI yn parhau i gael ei ddatblygu i gefnogi'r adolygiad o ganlyniadau'r prosiect a pherfformiad y ganolfan. Mae adborth gan weithwyr proffesiynol a theuluoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn dweud bod yr adolygiadau'n drylwyr. Mae goruchwyliaeth cynlluniau a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella o ganlyniad i weithredu'r Ganolfan Adolygu. Mae'r Ganolfan Adolygu hefyd yn cael cyfarfodydd wedi'u targedu gyda Rheolwyr Gweithredol ardal leol yn wythnosol i adolygu a gwella perfformiad mewn perthynas â phlant â Chynllun Gofal a Chymorth – gan gynnwys cydymffurfiaeth o ran cwblhau cynlluniau, cofnodi ymweliadau a thrafod achosion mewn goruchwyliaeth.

Mae'r siartiau isod yn dangos y newid yng nghydbwysedd y gofal rydym wedi'i gyflawni er gwaethaf y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal - o 644 ar 31 Mawrth 2016 i 1,057 ar 31 Mawrth 2023. Mae'r twf yng nghyfran y plant sy'n cael eu lleoli gyda rhieni ar Orchymyn Gofal neu drefniadau perthynas gydag aelodau o'r teulu yn amlwg - o 17% yn 2016 i 39% yn 2023. Mae'r cynnydd hwn yn cyfrif am 73% o'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal (301 / 413).




## Newid y Cydbwysedd – Pobl / Gweithlu

*Yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol #WSWD2023, gwnaethom ddathlu ein holl staff gwaith cymdeithasol am eu hymdrechion diflino i gefnogi pobl sy'n agored i niwed yn y ddinas.*

*Mae J yn Gynorthwyydd Gwaith Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant ac esboniodd pam mae'n gwneud y rôl …*

*"Rydw i wedi eisiau bod yn weithiwr cymdeithasol o oedran ifanc iawn. Fy nod i oedd - a bydd hyn wastad yn wir - gwneud gwahaniaeth.*
*Fel plentyn fu'n derbyn gofal yng Nghaerdydd yn y gorffennol, rwy'n credu bod fy mhrofiadau i, ynghyd â'm gwerthoedd personol a'm moesau yn fy ngalluogi i gydymdeimlo â phlant o fewn y gwasanaeth ar lefel fwy personol. Rydw i wedi adeiladu perthynas waith wych gyda fy mhobl ifanc a'u teuluoedd, ac mae'n rhoi balchder mawr i mi fod yn rhan o'u teithiau.*
*Fel dyn du ifanc, rwy'n falch iawn o gynrychioli nodweddion yn y byd gwaith cymdeithasol sy'n cael eu tangynrychioli'n aml ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn annog / ysbrydoli eraill â nodweddion tebyg i gyflawni eu nodau.*
*Rwy'n edrych ymlaen at weld lle bydd fy ngyrfa mewn #gwaithcymdeithasol yn mynd â fi, ac rwy'n parhau i atgoffa fy hun pam y dewisais i'r yrfa hon - 'i fod y person yr oedd ei angen arna i pan o'n i'n ifanc'."*



Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu ein Strategaeth Gweithlu gyffredinol a Chynllun Gweithredu Gweithlu manylach sy'n nodi'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i weithredu elfen **Pobl** ein Strategaeth Gwasanaethau Plant. Er bod recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol newydd-gymhwyso a phrofiadol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, rydym yn gwneud hynny ochr yn ochr â datblygu ein gweithlu presennol a gweithredu model gweithredu newydd. Mae'r model gweithredu newydd yn adlewyrchu ein pwyslais ar waith cymdeithasol darbodus - lle mae gweithwyr cymdeithasol ond yn gwneud yr hyn na all neb ond gweithwyr cymdeithasol ei wneud - gyda chefnogaeth briodol gan staff heb gymhwyso. Am fwy o wybodaeth, gweler tudalen 15.

**Mae'r prif feysydd cynnydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**

- Ymgyrch recriwtio barhaus a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Gwaith Cymdeithasol Caerdydd.
- Denodd ein presenoldeb mewn **ffair recriwtio** gwaith cymdeithasol yn Birmingham ddiddordeb sylweddol gyda 34 o bobl yn mynegi diddordeb mewn ymuno â Chaerdydd. Mae cyfweliadau wrthi'n cael eu trefnu ac mae presenoldeb mewn digwyddiadau tebyg yn cael ei gynllunio, gan gynnwys digwyddiad yn Llundain yn ddiweddarach eleni.
- **Recriwtio** gweithwyr cymdeithasol parhaus gyda 13 o fyfyrwyr i ddechrau maes o law a fydd yn cymhwyso yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Parhau i weithio i "dyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain" – hyrwyddo **secondiadau** i brifysgolion lleol a'r Brifysgol Agored.
- Mae recriwtio i **Uned Hyfforddi Gwasanaethau Plant** bwrpasol yn parhau.
- Parhau i ddefnyddio **Cynorthwywyr Adnoddau** i roi cefnogaeth i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr.
- **Dathlwyd Wythnos Gwaith Cymdeithasol** ym mis Mawrth a roddodd gyfle i ni ddathlu arfer da, adeiladu morâl a chynnal sesiynau dysgu i staff. Mae hyn wedi rhoi llwyfan da i ni adeiladu arno wrth symud ymlaen.
- Mae'r rôl **Arweinydd Ymarfer** yn datblygu'n dda - cynhaliwyd nifer o weithdai ar gyfer gweithwyr newydd-gymhwyso a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol ac mae calendr o ddigwyddiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi'i ddatblygu.
- Mae adolygiad o **gymorth busnes** wedi dechrau – i ddiogelu'r gwasanaeth yn y dyfodol, datblygu cymorth busnes fel gyrfa a sicrhau bod y model yn cefnogi'r model gweithredu newydd orau.
- Datblygu cysylltiadau rhwng timau gwaith cymdeithasol **ardal leol** a phartneriaid yn barhaus.
- Gweithio gyda chydweithwyr ledled Cymru drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGC) Cymru i ddatblygu **dull Cymru Gyfan o ddefnyddio gweithwyr asiantaeth mewn Gwasanaethau Plant.** Bydd Addewid Cymru Gyfan yn dod i rym o 1 Mai 2023 a fydd yn golygu bod Caerdydd yn cytuno i nifer o ymrwymiadau sydd â'r bwriad o gynyddu sefydlogrwydd yn y farchnad recriwtio. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Mabwysiadu cyfraddau cyflog a gytunir yn genedlaethol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol asiantaeth.
  - Peidio â chynnig contractau i weithwyr asiantaeth sydd wedi ymddiswyddo o gyflogaeth barhaol tan o leiaf chwe mis ar ôl eu dyddiad cyflogaeth diwethaf.
  - Peidio â chyflogi gweithwyr cymdeithasol asiantaeth sydd â llai na thair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso.

Er gwaethaf yr uchod, mae cyfradd ein swyddi gwag wedi cynyddu o 23.9% ym mis Mawrth 2022 i 27.3% ym mis Mawrth 2023, er bod hyn yng nghyd-destun gostyngiad cyffredinol o uchafbwynt o 38.7% ym mis Mehefin 2020. Rydym yn parhau i ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol asiantaeth i sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu cwmpasu tra bod prosesau recriwtio parhaol yn cael eu cynnal. Yng nghyd-destun prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol a gostyngiad mewn ceisiadau i gyrsiau gradd gwaith cymdeithasol,

gwyddom fod angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol – a dyma'r prif sbardun i'n cynlluniau i gyflwyno **model gweithredu newydd.** Fel y soniwyd uchod, ein cynllun yw diogelu'r gwasanaeth at y dyfodol drwy sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol ond yn gwneud yr hyn na all neb ond gweithwyr cymdeithasol ei wneud. Mae cynsail yr ailgynllunio wedi'i adeiladu ar yr egwyddor allweddol y dylai teuluoedd gael un gweithiwr cyson drwy gydol eu hymwneud â'r Gwasanaethau Plant lle bynnag y bo modd. Byddai swyddi ymarferwyr gofal cymdeithasol yn cael eu creu i ymgymryd â rôl debyg i weithiwr allweddol gyda'r cyfle i adeiladu perthynas llawn ffydd. Byddai pob teulu yn cael gweithiwr ar ddiwedd yr asesiad cychwynnol lle penderfynwyd bod angen ymyriad gwaith cymdeithasol. Byddai'r gweithiwr yn dal yr achos drwy gydol y cyfnod lle mae angen mewnbwn ar y teulu gan y Gwasanaethau Plant, a byddai hyn yn cael ei bennu drwy'r adolygiadau statudol a gynhelir gan y Ganolfan Adolygu a goruchwyliaeth ffurfiol. Byddai'r gofyniad am fewnbwn gan weithiwr cymdeithasol hefyd yn cael ei bennu drwy oruchwyliaeth ffurfiol, adolygiadau statudol, ac unrhyw bwyntiau uwchgyfeirio allweddol eraill gan gynnwys amddiffyn plant, mynd at y Llys am Orchymyn Gofal neu waith achos cyn y llys.

Byddai'r gweithiwr cymdeithasol yn cael ei ystyried fel yr ymarferydd arbenigol a fyddai'n dal achosion cymhleth, gan gynnwys pob achos amddiffyn plant. Byddent yn gweithio ar y cyd â'r gweithiwr yn ôl yr angen i ddarparu arbenigedd ac i fodloni canllawiau / gofynion statudol a byddent yn ymgymryd â thasgau byrdymor penodol yn ôl yr angen. Y bwriad yw y bydd y model gweithredu newydd hwn yn lliniaru'r problemau gyda recriwtio gweithwyr cymdeithasol, yn gwella ein gweithlu parhaol ac yn lleihau ein dibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth. Mae tîm prosiect yn ei le ac mae cynllun peilot yn cael ei gynllunio - wedi'i lywio gan ganlyniad yr ymgynghoriad gyda staff a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn un o'n blaenoriaethau allweddol yn 2023/24.

Mae cyfraddau salwch yn y Gwasanaethau Plant wedi gostwng yn ystod y flwyddyn i gyfradd cyfwerth ag amser llawn (CALl) o 12.9 diwrnod a gollwyd, o 15 yn 2021/22. Roedd hyn yn is na'r targed o 14.1, felly cafodd y targed ei fwrw.



## Newid y Cydbwysedd - Ymarfer

*Roedd Plentyn A yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant o'r blaen ond gwnaeth y teulu ffoi o'r DU gan fod yr Awdurdod Lleol yn cychwyn achos gofal. Dychwelodd A i'r DU fel plentyn digwmni ac fe'i rhoddwyd mewn gofal maeth. Credid bod A wedi cael ei masnachu'n ôl i'r DU i'w hecsbloetio'n rhywiol. Ar ôl cyfnod byr, torrodd y lleoliad maeth i lawr gan fod y gofalwr maeth wedi dod yn ymwybodol bod dynion sy'n oedolion, y credwyd eu bod wedi ecsbloetio A yn rhywiol, wedi bod yn y cyfeiriad. Cafodd A ei symud i leoliad preswyl.*

*Dirywiodd iechyd meddwl a lles emosiynol A o ganlyniad i ecsbloetiaeth rywiol barhaus, cyfnodau rheolaidd o fod ar goll, a chamddefnydd o sylweddau. Gofynnwyd am Asesiad Iechyd Meddwl a chafodd A ei chadw dan A3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) am 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth gweithiwr cymdeithasol A gadw mewn cysylltiad rheolaidd ag A gan sicrhau bod A yn gwybod ei bod yno i'w helpu a'i chefnogi a gweithredu er ei budd gorau. Roedd A yn ddrwgdybus o bob gweithiwr proffesiynol a geisiai ei chefnogi, gan dybio eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i achosi niwed iddi.*


*Roedd gweithiwr cymdeithasol A yn agored ac yn onest gydag A hyd yn oed pan roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei rhannu yn annymunol. Sicrhawyd cyswllt rheolaidd â theulu A hefyd, er bod hyn yn heriol ar adegau gan fod aelodau'r teulu yn byw mewn gwahanol wledydd gyda dealltwriaeth gyfyngedig o Saesneg. Gweithiodd gweithiwr cymdeithasol A gyda'r teulu a'r dehonglwyr i ddangos dealltwriaeth o wahaniaethau diwylliannol tra'n sicrhau bod A yn cael ei diogelu.*

*Yn dilyn yr asesiad, penderfynwyd gwneud cais i'r Llys am Orchymyn Diogelu - rhoddwyd un, a daethpwyd o hyd i leoliad diogel. Roedd hwn yn gyfnod trawmatig i A gan ei bod hi'n ofni cael ei 'chloi i fyny'. Roedd gweithiwr cymdeithasol A mewn cysylltiad yn rheolaidd ac yn raddol enillodd ymddiriedaeth A a'i theulu.*

*Tra'i bod yn ddiogel, derbyniodd A becyn helaeth o gefnogaeth a dechreuodd wneud cynnydd rhagorol - gan fynychu addysg lawn-amser a derbyn cefnogaeth therapiwtig reolaidd. Daeth cerddoriaeth yn rhan fawr o'i bywyd ac roedd hi'n mwynhau creu cerddoriaeth.*

*Pan roedd A yn barod i drosglwyddo i leoliad preswyl, gwnaed cais i'r Uchel Lys am Orchymyn Awdurdodaeth Hanfodol oherwydd teimlwyd bod angen cyfyngu ar rai o hawliau A neu ei hamddifadu ohonynt i'w chadw'n ddiogel. Cymeradwywyd hwn ac arhosodd mewn lle am oddeutu 3 mis, nes bod A wedi gwneud cynnydd sylweddol a chafodd y Gorchymyn ei ryddhau.*

*Roedd gan A ran enfawr i'w chwarae wrth ddewis y lleoliad preswyl y symudodd ymlaen iddo ac mae'n parhau yno hyd yma. Mae A yn parhau i wneud cynnydd rhagorol - mae ei phresenoldeb yn yr ysgol yn 100% ac mae hi'n gorffen yr ysgol eleni gyda rhagfynegiad o 11 TGAU neu opsiynau amgen. Mae A yn blentyn hyderus a hapus ac mae'n dal i fod mewn cysylltiad rheolaidd â'i gweithiwr cymdeithasol. Mae ei chariad at gerddoriaeth yn parhau a daeth ei gweithiwr cymdeithasol o hyd i grant o £1,000 am offer cerdd i'w galluogi i greu ei cherddoriaeth ei hun. Mae A wedi gwneud sawl trac da iawn, a fydd ar gael i'w lawrlwytho a'u ffrydio cyn bo hir - mae hi'n gyffrous i bobl glywed y rhain.*
*Mae A eisiau mynd i'r coleg a'r brifysgol i ddilyn gradd mewn naill ai busnes neu waith cymdeithasol, ond hoffai hefyd fod yn gerddor enwog. Mae disgwyl i A symud ymlaen i fyw'n rhannol-annibynnol ac mae'n teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i wneud hynny.*




Yn ystod y flwyddyn rydym wedi diweddaru a chyhoeddi ein Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth Mewn Gwasanaethau Plant 2023-26. Mae hyn yn nodi'r hyn rydym am ei gyflawni fel Cyfarwyddiaeth dros y 3 blynedd nesaf. Mae manylion yr hyn y byddwn yn ei wneud wedi'i nodi yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2023/24.

Rydym yn parhau i weithio i ddatblygu ein hymarfer drwy gydol taith y plentyn drwy ein gwasanaeth, o Gymorth Cynnar i Adael Gofal. Nodir cynnydd allweddol yn ystod y flwyddyn isod.




Mae **Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd (CChDC)** yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghaerdydd a nhw yw'r pwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer unrhyw weithiwr proffesiynol, rhiant, plentyn neu berson ifanc yng Nghaerdydd lle nad oes unrhyw bryderon diogelu. Erbyn 31 Mawrth 2023 roedd swyddogion cyswllt y Porth Teuluoedd wedi cynnig gwybodaeth, cyngor neu gymorth i 10,849 o bobl a gysylltodd â'r Porth yn ystod y flwyddyn ac roedd y timau Cymorth i Deuluoedd a Chymorth i Deuluoedd (Anabledd) wedi cynnig cymorth wedi'i deilwra i 2,728 o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Yn ystod y flwyddyn mae tîm Cymorth i Deuluoedd CChDC wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad y model Pwynt Mynediad Sengl, Tîm Amlddisgyblaethol ar gyfer cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc, sydd wedi symud ymlaen heibio'r pwynt peilot i gael ei weithredu fel rhan o ymarfer rheolaidd. Mae hyn wedi cryfhau'r dull Dim Drws Anghywir ac wedi rhoi mynediad mwy uniongyrchol i deuluoedd at gymorth. Mae hefyd wedi lleihau'r angen i deuluoedd ailadrodd eu straeon i nifer o weithwyr proffesiynol drwy sicrhau bod gwybodaeth briodol a pherthnasol yn cael ei rhannu a'i thrafod fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r dull hwn wedi arwain at fwy o ymgysylltiad gan deuluoedd a chanlyniadau gwell.

Mae datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys y canlynol:

- Mae'r timau Cymorth i Deuluoedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu pecyn cymorth hunanladdiad a hunan-niweidio. Nod hyn yw codi ymwybyddiaeth o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dod â dull cyson gan ymarferwyr i ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Ymgorffori'r protocol pontio yn llawn i mewn i ymarfer, sydd wedi rhoi eglurder i deuluoedd ac ymarferwyr o ran y disgwyliadau pan fydd person ifanc yn agosáu at oedran pontio. Mae wedi hwyluso dull rhagweithiol rhwng gwasanaethau i sicrhau cefnogaeth barhaus i'r person ifanc a'i deulu.
- Cyflwyno Gwe-sgwrsio fel offeryn arall i blant, pobl ifanc, teuluoedd ac ymarferwyr ei ddefnyddio i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth.

Mae'r tîm **Cymorth i Deuluoedd (CiD)** yn gweithio'n dda ac yn ystod y flwyddyn mae wedi gweithio gyda 1,864 o blant a oedd islaw'r trothwy ar gyfer gwasanaethau statudol. Rhoddir enghraifft o'r math o gefnogaeth a ddarperir isod:

*Mae mam sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl wedi gweld ei hiechyd meddwl yn dirywio ymhellach oherwydd trawma difrifol a pharhaus yn sgil ymddygiad gwrthgymdeithasol, bygythiadau, honiadau ffug a chymydog bygythiol - wedi'u hanelu ati hi a'i merch dros gyfnod o 18 mis. Dechreuodd amodau'r cartref ddirywio, ac roedd Mam yn argyhoeddedig eu bod yn cael eu gwylio a'u targedu'n fwriadol. Roedd hyn yn effeithio'n andwyol ar y plentyn (K) yn y cartref, a oedd hefyd yn cael ei thargedu gan blant y cymydog a'u ffrindiau. Roedd K wedi mynd yn ynysig ac yn ofni gadael y tŷ ac roedd wedi dod yn ofalwr ifanc i'w mam. Helpodd y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd (GCiD) Mam i weld bod ei gorbryder, ei hymddygiad a'i pharanoia yn rhan o'i hiechyd meddwl gwael ac yn ei hatal rhag gallu symud ymlaen. Cytunodd Mam i hunangyfeirio at Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC), felly cwblhawyd atgyfeiriad ac asesiad, a chafodd Mam ei derbyn yn ôl i'r gwasanaeth.*

*Roedd Mam wedi methu apwyntiadau gyda Credyd Cynhwysol ac yn cael ei sancsiynu felly gwnaeth CiD ei chefnogi gyda chyllidebu a chreu cynllun i dacluso a gwella amodau'r cartref a rhoi calendr i Mam gofnodi apwyntiadau yn y dyfodol.*

*Cefnogwyd y teulu gyda thalebau banc bwyd a thalebau nwy a mynychodd y GCiD apwyntiad yn y swyddfa Credyd Cynhwysol gyda Mam i'w chefnogi 'nôl ar y trywydd iawn. Cafodd sancsiynau eu codi a dechreuodd dderbyn ei holl fudd-daliadau eto.*

*Cefnogodd y GCiD Mam hefyd mewn cyfarfodydd gyda thîm ymddygiad gwrthgymdeithasol yr Awdurdod Lleol, yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Dechreuwyd achos yn erbyn y cymydog a chwblhawyd cais am dŷ, ynghyd â llythyr ategol i bwysleisio'r brys. Cafodd y teulu dŷ fel argyfwng oherwydd pryderon diogelwch.*

*Roedd ysgol K yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn gefnogol iawn. Gwnaethant ganiatáu sesiynau 1-1 gyda'i GCiD yn yr ysgol a hefyd hwyluso sesiynau lles emosiynol yn yr ysgol iddi.*

*Gwnaeth y GCiD gais am Gyllid Cymorth Dewisol am arian a nwyddau i'w helpu i ymgartrefu yn eu cartref newydd gan eu bod wedi gorfod ffoi oherwydd bygythiadau ar y diwrnod symud a gadael llawer o'u heiddo ar ôl.*

*Mae Mam bellach yn amlwg yn hapusach ac yn cyflawni pethau ar ei phen ei hun. Mae K yn gwneud yn dda iawn yn emosiynol ac yn gallu mynd allan ar ei phen ei hun i gerdded y ci i'r parc ac yn ôl am y tro cyntaf mewn 2 flynedd, heb ofni ymosodiadau. Mae Mam yn parhau i gael cefnogaeth iechyd meddwl er ei bod hi'n teimlo'n well, er mwyn atal teimladau o baranoia rhag dychwelyd. Mae Mam yn benderfynol o wneud newidiadau positif a bydd angen help gan TIMC i aros ar y llwybr at adferiad. Mae Cymorth i Deuluoedd wedi dod â'u cysylltiad â'r teulu i ben yn llwyddiannus.*

- Mae'r **Model Diogelu Pobl Ifanc rhag Ecsploetiaeth (SAFE)** yn ddull amlasiantaethol o fynd i'r afael â chamfanteisio troseddol a rhywiol ar bobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud gwaith â ffocws gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r ymagwedd hon at ecsbloetiaeth a'r ymyriadau sydd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad wyneb-yn-wyneb a oedd yn gyfle da i rwydweithio a datblygu perthnasoedd. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ac yn cael ei weithredu ac mae gwaith wedi'i blethu i mewn i gyfarfodydd y Grŵp Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol (dan arweiniad yr Heddlu) i osgoi dyblygu a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn perthynas ag ecsploetiaeth. Penodwyd Cydlynydd Unigolion Coll (MISPER) ac mae'n gweithio gyda'r Heddlu i sicrhau dull cyson o ymdrin â phobl ifanc sydd ar goll - gan ganolbwyntio ar gynlluniau diogelwch ar gyfer yr unigolion ifanc coll sydd ar restr 10 Uchaf Caerdydd. Mae'r gwaith o ddiweddaru'r polisi MISPER wedi dechrau.

- Mae gwaith gyda chydweithwyr ym maes Iechyd yn cael ei symud ymlaen o dan y Bartneriaeth Dechrau'n Dda i ddarparu dull integredig o ran **cefnogaeth iechyd meddwl a lles emosiynol i blant a phobl ifanc.** Mae tair prif ffrwd waith wedi'u nodi gydag amcanion byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Crynhoir crynodeb o gynnydd allweddol yn erbyn yr amcanion hyn yn ystod y flwyddyn isod:
    - **Byrdymor -** llunio cynlluniau rhyddhau ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ysbyty. Mae cyfarfodydd amlasiantaethol wythnosol ar waith i drafod plant unigol sydd mewn trallod emosiynol. Mae hyfforddiant arbenigol wedi'i ddarparu i gynorthwyo staff i ddeall ymddygiad a sut i ddiwallu anghenion plant sydd mewn trallod emosiynol. Mae protocol hunan-niweidio a hunanladdiad yn cael ei ddatblygu.
    - **Tymor canolig -** gweithio gyda darparwyr i ddarparu cymorth cofleidiol i atal derbyniadau i'r ysbyty a chyflymu'r broses ryddhau. Mae'r gwaith yn parhau i ddarparu lleoliadau addas i blant a phobl ifanc hyd nes y bydd ateb llety hirdymor wedi'i gwblhau. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm clinigol bellach yn eu swyddi ac mae llety staff wedi'i ganfod ac yn cael ei ddefnyddio gan y tîm.
    - **Hirdymor -** comisiynu datrysiad llety gyda chymorth cofleidiol. Mae eiddo wedi'i nodi ar gyfer y datrysiad llety ac mae wrthi'n cael ei brynu. Mae ymgysylltiad rhanbarthol â'r farchnad wedi cael ei gynnal i gael adborth gan ddarparwyr ar y gwasanaeth rydym yn edrych i'w ddarparu - roedd darparwyr yn gadarnhaol iawn, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at ymateb gan y farchnad pan fydd tendrau'n cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

- Fel y nodir ar dudalen 44, yn ystod y flwyddyn, cafodd y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI)** archwiliad dilynol a arweiniodd at ddileu'r statws blaenoriaeth. Dyma grynodeb o rai o gyflawniadau allweddol y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn:
    - Lansiwyd Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid ddiwygiedig - cynllun gweithredu y cytunwyd arno gan HMIP ac sy'n cael ei weithredu.
    - Gwaith ailstrwythuro rheolwyr wedi'i gwblhau a thîm rheoli newydd wedi'i sefydlu.
    - Cytunwyd ar broses Tramgwydd ac Anogaeth newydd - gan sicrhau bod proses gadarn ar waith i fynd i'r afael â phroblemau pan nad yw person ifanc yn cydymffurfio â'i Orchymyn.
    - Swydd Therapydd Lleferydd ac Iaith newydd wedi'i chreu a'i llenwi - mae hon yn rôl newydd, felly mae sesiwn friffio yn cael ei pharatoi ar gyfer staff ynglŷn â'r rôl a'r hyn y mae'n ei gynnig.
    - Cyllid trosiannol wedi'i sicrhau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd hyn yn ein galluogi i ehangu ein cynnig atal i bobl ifanc nad oeddent yn gymwys o'r blaen, fel pobl ifanc a ryddhawyd ar fechnïaeth yr heddlu neu sydd dan ymchwiliad. Mae'r gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen o dan yr enw – Croesffyrdd – a ddewiswyd gan bobl ifanc.
    - Mae enghraifft o waith partneriaeth cadarnhaol rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid wedi'i chynnwys isod:


*Atgyfeiriwyd D at raglen allgymorth ieuenctid Kicks. Mae'r rhaglen hon yn cael ei rhedeg gan Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a'i nod yw creu cymunedau diogel, mwy cynhwysol a lleihau troseddu. Trwy eu mentora 1-1, gwnaethant ddefnyddio pŵer Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i gadw diddordeb D, cefnogi ei lesiant, ac ennill ei ymddiriedaeth. O ganlyniad, bu'n bosibl iddynt weithio gyda D i ddod o hyd i wahanol dechnegau i reoli ei ymddygiad gelyniaethus, meithrin perthnasoedd cadarnhaol a delweddu ei ddyfodol.*

*Wedi darganfod ei gariad at chwaraeon, daeth i'r amlwg bod eu rhaglen addysg ôl-16, Llwybrau'r Dyfodol, yn cynnig y cyfuniad perffaith o weithgareddau theori ac ymarferol i D. Mae D bellach yn astudio ar eu BTEC Lefel Dau mewn Chwaraeon ac mae ar y trywydd cywir i symud ymlaen i'w BTEC Diploma Estynedig Lefel Tri mewn Chwaraeon y flwyddyn nesaf. Mae D wedi gwneud grŵp newydd o ffrindiau ac wedi ymrwymo i newid ei fywyd er gwell.*

*Mae cynnydd D wedi bod yn rhyfeddol, fel yr amlinellwyd gan ei Weithiwr Ieuenctid:*

*"Mae wedi bod mor braf gweld cynnydd D - mae wedi dangos cryfder mewnol i gymryd cam tuag at ddyfodol disglair.  Mae D bellach yn gweithio tuag at freuddwydion ei blentyndod o fwynhau chwaraeon ac mae wedi bod yn awyddus iawn i gymryd rhan gyda Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.  Mae'r gwaith sesiynol 1-1 wedi atgyfnerthu'r ymddiriedaeth a'r hyder y mae D yn eu meithrin a bydd yn siŵr o barhau i ffynnu trwy gefnogaeth barhaus a chael ei amgylchynu gan fodelau rôl cadarnhaol."*

- Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith i gefnogi plant ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac anableddau** wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu ein **darpariaeth seibiant byr**. Cytunwyd ar y cam cyntaf o ailddylunio Tŷ Storrie felly mae gwaith ar ddyluniad cam 2 wedi dechrau. Yn y cyfamser, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar recriwtio i swyddi gwag - mae hyn wedi bod yn anodd, ond mae cynnydd da wedi'i wneud ac wedi arwain at gyfraddau meddiannaeth gwell - cynyddodd arosiadau dros nos o 46 ym mis Awst i 65 ym mis Mawrth.




Mae cynllun ar waith i barhau â'r cynnydd hwn a chyflawni 4 o arosiadau fesul noson ar gyfartaledd yn ystod haf 2023.

- Fel y nodir yn ein **Strategaeth Llety**, rydym yn chwilio am eiddo ychwanegol i'n galluogi i ymestyn ein darpariaeth seibiant byr i blant ag anghenion llai cymhleth – o bosib o fyngalo mawr a allai ddarparu ar gyfer hyd at 4 o blant ar y tro. Mae eiddo posibl wedi'i nodi ac yn cael ei ystyried. Mae cynnydd arall yn cynnwys datblygu meini prawf atgyfeirio - sydd wedi'u drafftio ac yn cael eu profi'n ymarferol cyn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol. Mae enghraifft o gefnogaeth i blant ag anableddau wedi'i chynnwys isod:

*Gwnaeth plant sy'n cael eu cefnogi gan y tîm Iechyd ac Anableddau Plant fwynhau taith wych i'r Storey Arms (Canolfan Addysg Awyr Agored Cyngor Caerdydd). Cynhaliwyd y teithiau dydd dros 2 ddiwrnod a chawsant eu mwynhau gan blant ag ystod o anghenion ychwanegol. Yn ystod y teithiau cafodd y plant a'r bobl ifanc gefnogaeth gan staff y Gwasanaethau Plant gyda'r opsiwn o rieni a gofalwyr yn ymuno hefyd. Mwynhaodd y plant a'r bobl ifanc ystod o weithgareddau gan gynnwys mynydda gan ddefnyddio mapiau llywio a symbolau cwmpawd trwy goedwigoedd hardd Bannau Brycheiniog, dringo creigiau gan ddefnyddio'r wal ddringo arbenigol a chanŵio trwy'r camlesi cyn stopio am bicnic awyr agored blasus mewn cefn gwlad godidog.*
*Cafodd y plant, y rhieni, y gofalwyr a'r staff i gyd amser gwych a gwnaethant fwynhau eu hunain yn fawr. Roedd y daith yn gyfle i'r plant a'r bobl ifanc gwrdd â ffrindiau newydd, gweithio fel tîm, magu hyder mewn gweithgareddau awyr agored ac adeiladu sgiliau newydd – roedd pawb yn wên o glust i glust drwy gydol y teithiau ac rydym yn gobeithio gwneud hwn yn gyfle blynyddol.*

- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu a diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer **Taliadau Uniongyrchol**, a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y Polisi Taliadau Uniongyrchol wedi'i ddiweddaru sydd i'w gymeradwyo'n gynnar yn 2023/24. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol y tu hwnt i blant ag anableddau, ond nodir y bydd angen ystyried gallu teuluoedd mewn argyfwng i reoli Taliadau Uniongyrchol. Bydd cynnydd i ffioedd Cynorthwywyr Personol ar gyfer y Gwasanaethau Plant yn cael ei weithredu yn y flwyddyn ariannol newydd.

- Mae **Fframwaith Cyfranogiad** yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â phlant a theuluoedd. Bydd hwn yn dwyn ynghyd yr holl waith a wnawn i gynnwys plant a theuluoedd yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, a hefyd cynlluniau gwasanaeth. Mae enghreifftiau da o gyfranogiad yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys ar dudalen 46.

- Yn ystod y flwyddyn, mae strwythur newydd ar gyfer y Tîm **Comisiynu** wedi'i gytuno ac mae'r gwaith o recriwtio i'r tîm yn parhau. Mae'r tîm yn cynnal adolygiad o gontractau ac yn rhoi cynllun rhagweithiol ar waith ar gyfer adnewyddu / aildendro amserol pan ddaw contractau i ben. Yn anffodus, mae recriwtio'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl, felly nid yw hyn wedi'i gwblhau mor gyflym ag yr hoffem, ond mae'n mynd yn ei flaen. Mae'r tîm yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a monitro ansawdd gofal yn y sector gofal annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm wedi bod yn cefnogi'r prosiect ar gyfer pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol (gweler tudalen 20). Maent hefyd wedi ysgwyddo'r rôl o ddod o hyd i ddarparwyr ar gyfer staff cymorth asiantaeth ar gyfer lleoliadau pwrpasol a chefnogi darparwyr pan fyddant wedi dechrau gweithio.

- Yn dilyn yr Adolygiad Systemau a gynhaliwyd y llynedd, mae adolygiad o'n **trefniadau drws ffrynt** yn parhau. Bydd hyn yn ystyried yr adolygiad cenedlaethol o drefniadau diogelu amlasiantaethol a gynhelir gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC) Cymru. Bydd hefyd yn ystyried argymhellion adolygiadau diogelu cenedlaethol diweddar eraill yn dilyn marwolaethau trasig plant lle amheuwyd camdriniaeth neu esgeulustod.

- I gefnogi'r model gweithredu newydd rydym yn ei ddatblygu (gweler tudalen 15), rydym hefyd yn gweithio tuag at weithredu **model ymarfer newydd.** Bydd hyn yn cynnwys adolygu ein dull gweithredu presennol sy'n seiliedig ar gryfderau ac ystyried sut y gellir gwella hyn gydag **ymarfer seiliedig ar drawma** a'r defnydd o gyfweld ysgogiadol. Bydd hyn yn un o'n blaenoriaethau allweddol yn 2023/24.

- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithredu proses newydd ar gyfer ymateb i **Adolygiadau Ymarfer Plant.** Mae dysgu o'r adolygiadau hyn yn cael ei driongli i mewn i'n mecanweithiau Sicrwydd Ansawdd ehangach i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhannu ac yn bwydo i'n cylch parhaus o ddysgu a gwella ymarfer.



# 3 PONTIO I FOD YN OEDOLYN

Mae'r Protocol **Pontio** Rhanbarthol newydd i blant ag anableddau, 'Cynllunio ar gyfer Fy Nyfodol', wedi'i lansio ac mae'n cael ei ddefnyddio mewn ysgolion. Bellach mae gennym 5 gweithiwr pontio yn eu swyddi ac mae'r gweithwyr arbenigol a medrus hyn yn ein helpu i wella'r profiad o bontio i bobl ifanc. Mae atgyfeiriadau i'r Grŵp Rhyngwyneb Adolygiad Pontio (GRhAP) amlasiantaethol yn cael eu gwneud yn gynharach i sicrhau cydweithio clir gyda'r Gwasanaethau Oedolion i baratoi ar gyfer pontio. Rydym yn ymwybodol bod bwlch yn y farchnad ar gyfer gofal cartref i blant ag anableddau – er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn rydym wedi cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r farchnad
i nodi unrhyw ddarparwyr sy'n gweithio ar hyn o bryd gydag oedolion ag anableddau dysgu sydd ag awydd i ehangu a datblygu gwasanaethau i bobl ifanc o oedran pontio. Mae cyfarfodydd dilynol yn cael eu trefnu gyda darparwyr a fynegodd ddiddordeb, a bydd hwn yn ddarn allweddol o waith wrth symud ymlaen - mewn cysylltiad agos â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Oedolion.

Mae Panel Diogelu Pontio amlddisgyblaethol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed ag anghenion cymhleth wedi'i sefydlu. Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol, Diogelu Oedolion a Thai / Digartrefedd yn cyfarfod yn wythnosol i ystyried atgyfeiriadau ac adolygu pa wasanaethau y gellir eu cynnig. Mae hwn wedi bod yn adnodd gwerthfawr i'n helpu i reoli risg i rai o'n pobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth na fyddent fel arall yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Fodd bynnag, mae pwysau yn y Porth Pobl Ifanc sydd, ynghyd â chymhlethdod yr anghenion, wedi arwain at ohirio rhai achosion o bontio. Mae rheolwyr o bob rhan o'r Cyfarwyddiaethau yn gweithio'n agos i oresgyn y problemau hyn. Mae trafodaethau rheolaidd gyda Thai ac Addysg wedi'u sefydlu i edrych ar gyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal symud yn ôl i Gaerdydd i hwyluso pontio lleol i oedolaeth. Mae'r trafodaethau hyn yn bwydo i mewn i'r adolygiadau rheolaidd y mae pobl ifanc 16/17 oed yn eu derbyn fel rhan o'u cam pontio cynlluniedig.

**Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymhleth**

Mae tîm pontio Tŷ'r Bont y Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymhleth, sydd wedi'i leoli yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, wedi parhau i weithio gyda phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol, gan gyd-gynhyrchu cynllun cymorth gyda'r person ifanc sy'n cyfleu beth sy'n bwysig i'r person ifanc ac ar gyfer y person ifanc, a sut olwg sydd ar fywyd da mewn oedolaeth o safbwynt y person ifanc. Mae'r gwaith hwn yn helpu i bontio'n esmwyth o'r ysgol i fywyd fel oedolyn. Mynychodd 2 berson ifanc gwrs coleg rhan-amser "Tuag at Annibyniaeth" Coleg Caerdydd a'r Fro gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymhleth yn 2022/23 ac maent wedi mwynhau eu hamser yn y coleg yn fawr

**Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol**

Yn 2022/23, datblygwyd cynigion i alinio'r Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol â'r Gyfarwyddiaeth Oedolion, Tai a Chymunedau dan reolaeth y Gwasanaeth Cynghori. Mae'r Timau Cynghori presennol, gan gynnwys Cyngor Ariannol, y Gwasanaeth i Mewn i Waith a Datrysiadau Tai a'r Gwasanaethau Atal, yn gallu darparu cymorth cofleidiol i'r person ifanc a'i Ymgynghorydd Personol, gan eu rhoi wrth wraidd y cymorth trwy ddarparu cyngor arbenigol. Bydd y symudiad hwn yn sicrhau gweithio agosach gyda'r Porth Llety a Chymorth Pobl Ifanc ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, gan roi gwell dealltwriaeth o'u hanghenion tai. Bydd aliniad y timau hefyd yn darparu cyswllt i wasanaethau cymorth a fydd yn parhau i gefnogi'r bobl ifanc i mewn i oedolaeth ar ôl i'r ddyletswydd Ymgynghorydd Personol ddod i ben, gan ganiatáu mwy o annibyniaeth.

**Peilot Tîm Amlddisgyblaethol Pobl Ifanc**
Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol Pobl Ifanc yn darparu cymorth allgymorth pendant wedi'i dargedu ar gyfer 'pobl ifanc anodd eu cyrraedd' gan ddefnyddio dull therapiwtig a thriniaeth. Mae'r tîm yn cynnwys ymarferwyr proffesiynol a chlinigwyr o Gyngor Caerdydd, y Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) ac ystod o sefydliadau trydydd sector, ac mae'n cynnwys gweithwyr allweddol, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr camddefnyddio sylweddau arbenigol a chwnselwyr. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar bobl ifanc ag anghenion cymhleth a lluosog, yn aml oherwydd trawma, ac sy'n dangos ymddygiadau sy'n gwneud mynediad at wasanaethau yn anodd. Mae'r tîm yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhai sy'n dod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd. Nod y prosiect yw gwella canlyniadau i bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth a helpu i greu llwybrau i wasanaethau prif ffrwd.

Mae lefelau ymgysylltu â phobl ifanc a'r Tîm Amlddisgyblaethol wedi bod yn gadarnhaol yn ystod 2022/23. Mae pobl ifanc yn gallu meithrin perthnasoedd dibynadwy, llawn parch dros gyfnod o amser i bennu beth sy'n bwysig iddyn nhw a pha gymorth y gellir ei gynnig. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gweithio gyda thua 40 o bobl ifanc.

Bydd cefnogi pobl ifanc sy'n dangos risg uchel iddyn nhw eu hunain ac eraill, sy'n agored i ecsbloetiaeth ac sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.



4

# TROSOLWG GWASANAETHAU OEDOLION



## Cynnydd y Gwasanaethau Oedolion

Roedd 2022/23 yn flwyddyn heriol arall i'r Gwasanaethau Oedolion gyda lefelau uchel o alw a phroblemau recriwtio a chadw staff, ar gyfer ein gwasanaethau mewnol a hefyd ar gyfer ein gwasanaethau a'n partneriaid a gomisiynwyd. Mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys a therapyddion galwedigaethol yn parhau i fod yn her, yn ogystal â chymhlethdod cynyddol anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o oedi mewn asesiadau gwaith cymdeithasol, yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Mae achosion yn cael eu blaenoriaethu'n ofalus i sicrhau bod yr anghenion uchaf yn cael eu diwallu.

Gwelwyd gwelliant gyda'r problemau yn y sector gofal yn ystod y flwyddyn, ac mae argaeledd gofal cartref a gofal preswyl cyffredinol ill dau wedi gwella. O ganlyniad, nid yw argaeledd gofal yn bryder yng Nghaerdydd yn gyffredinol, er bod argaeledd darpariaeth gofal preswyl amserol i'r rhai ag anghenion lefel uwch, o ran dementia ac anableddau dysgu, yn parhau i fod yn broblem. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr gofal i fonitro'r farchnad a deall eu pwysau a'u pryderon.

Er gwaethaf y cyd-destun heriol hwn, gwnaed cynnydd sylweddol ar ein meysydd blaenoriaeth allweddol yn ystod y flwyddyn, gyda datblygiad pellach mewn gwaith traws-gyfarwyddiaeth i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr.

| Asesiadau lles gofalwyr | Nifer yr unigolion sydd â chynllun gofal a chymorth ar waith ddiwedd y flwyddyn | Adolygiadau o gynlluniau gofal wedi'u cwblhau |
|---|---|---|
| **610** ▲ **21%** 503 (2021/22) | **4,675** ▲ **6%** 4,429 (2021/22) | **2,831** ▲ **3%** 2,762 (2021/22) |
| **Nifer y bobl mewn cartrefi gofal (i gyd) ar ddiwedd y flwyddyn** | **Nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref (ac eithrio byw â chymorth) ar ddiwedd y flwyddyn** | **Pecynnau gofal cartref a frocerwyd i ddarparwyr a gomisiynir** |
| **919** ▲ **5%** 872 (2021/22) | **2,722** ▲ **9%** 2,509 (2021/22) | **2,473** ▲ **8%** 2,283 (2021/22) |
| **Ymholiadau diogelu a gychwynnwyd** | **Nifer y diwrnodau a gynigiwyd drwy Wasanaethau Dydd Anghenion Cymhleth Anabledd Dysgu** | **Nifer cyfartalog y dinasyddion a gefnogir gan Dŷ Canna fesul mis** |
| **1,686** ▼ **0.4%** 1,693 (2021/22) | **12,062** ▲ **335%** 2,772 (2021/22) | **930** ▲ **3%** 906 (2021/22) |


### Caerdydd fel Dinas sy’n Dda i Bobl Hŷn

Rydym wedi parhau â’n hymrwymiad i ddod yn Ddinas sy’n Dda i Bobl Hŷn, gan ddod â gwaith ystod eang o sefydliadau ynghyd drwy gynllun gweithredu Caerdydd sy’n Dda i Bobl Hŷn cynhwysfawr. Mae gwefan Caerdydd sy’n Dda i Bobl Hŷn wrthi’n cael ei datblygu i hyrwyddo’r holl waith da sy’n digwydd.

Mae Cyngor Caerdydd hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais i gael ei gydnabod fel Cyflogwr sy’n Dda i Bobl Hŷn mewn cydweithrediad â’r Centre for Ageing Better. Rydym bellach yn gweithio i annog busnesau a sefydliadau eraill yn y ddinas i wneud yr addewid ac ymrwymo i weithredoedd cyflogaeth oed-gyfeillgar.

## Caerdydd fel Dinas sy’n Deall Dementia

Mae ein gwaith i gefnogi Caerdydd i ddod yn Ddinas sy’n Deall Dementia wedi cael ei adnewyddu yn ystod 2022/23. Mae Swyddog Cymunedol Deall Dementia wedi’i recriwtio a lansiwyd Rhaglen Gwirfoddolwyr sy’n Deall Dementia ar Ddiwrnod Clefyd Alzheimer y Byd. Bydd y llysgenhadon gwirfoddol hyn yn cefnogi siopau a busnesau lleol i weithio i Ddeall Dementia ac i ennill cydnabyddiaeth swyddogol gan y Gymdeithas Alzheimer’s. Gwnaeth 79 o sefydliadau addo dod i Ddeall Dementia yn ystod y flwyddyn ac ymwelwyd â gwefan Caerdydd sy’n Deall Dementia 7,215 o weithiau. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2023/24.



## Cadw'n Heini ac yn Gysylltiedig

Mae cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig â'u cymuned yn rhan allweddol o'n Strategaeth Heneiddio'n Dda.  Rydym wedi parhau i adeiladu ar y cymorth sydd ar gael i helpu pobl hŷn i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol i atal ynysu cymdeithasol ac i hyrwyddo lles corfforol a meddyliol trwy ein Hybiau Cymunedol a'n Gwasanaeth Cymorth Lles. Mae ein Gwasanaethau Dydd wedi cefnogi'r rhai sydd â lefelau uwch o anghenion i aros yn gysylltiedig.

Yn ystod 2022/23 estynnodd ein Hybiau Cymunedol yr ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar gael ledled y ddinas. Cynhaliwyd 1,247 o ddigwyddiadau i gefnogi pobl i aros yn gysylltiedig a chymdeithasol, gyda 13,459 o bobl yn cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn. Cynhaliwyd cyfanswm o 463 o ddigwyddiadau i gefnogi pobl i gadw'n heini a symudol, gyda 7,483 o bobl yn cymryd rhan.

Mae'r digwyddiadau wedi cynnwys clybiau garddio, Goldies Cymru (sesiynau canu), Caffis Dementia, Caffis Gofalwyr, gweithgareddau pontio'r cenedlaethau, chwaraeon cerdded, Tai Chi, sesiynau dawnsio, a Gwau a Sgwrsio. Mae gwaith partneriaeth helaeth hefyd wedi'i wneud i ddefnyddio'r Hybiau Cymunedol fel lleoliadau ar gyfer gweithgareddau lles partneriaid i ehangu ymhellach y cyfleoedd sydd ar gael i bobl gadw'n heini a chysylltiedig.



*Mae Clybiau Garddio yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth aros yn gysylltiedig a chymdeithasol wrth fwynhau'r awyr agored.*



*Mae teithiau dydd yn cefnogi pobl i gadw'n heini ac yn gysylltiedig â'u cymuned.*

Rydym yn cydnabod faint y gall gwirfoddoli ei gynnig i'r gymuned leol a hefyd y manteision i'r gwirfoddolwyr eu hunain, gan eu helpu i fod yn weithgar yn gymdeithasol ac yn ymgysylltiedig. Dyna pam y gwnaethom sefydlu ein **prosiect Gwirfoddoli Cymunedol** yn 2022/23 drwy recriwtio Cydlynydd Gwirfoddoli. Gwnaeth y gwirfoddolwr cyntaf a recriwtiwyd ddarparu sesiynau Tai Chi yn Hyb STAR ar gyfer y gymuned. Mae'r sesiwn hon wedi bod yn boblogaidd iawn gyda 20-25 o bobl yn mynychu'n rheolaidd.  Mae'r rhai sydd wedi mynychu'r sesiynau wedi dweud eu bod wedi newid eu bywydau. Ers hynny mae 42 o bobl eraill wedi dod yn Wirfoddolwyr Cymunedol, yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, o gefnogi ein Mannau Cynnes i arwain sesiynau Cadw'n Heini. Mae 32 o wirfoddolwyr yn darparu gwasanaethau i'w cymuned yn gyson o ganlyniad i'r prosiect hyd yn hyn.  Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwirfoddoli yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r prosiect **Gyda'n Gilydd dros Gaerdydd | Caerdydd yn Gofalu** yn annog pobl i wirfoddoli i gefnogi pobl hŷn a allai fod yn ynysig yn gymdeithasol neu nad oes ganddynt unrhyw gefnogaeth gan deulu a ffrindiau. Mae'r prosiect yn paru gwirfoddolwyr â phobl sydd angen help gyda thasgau syml fel casglu presgripsiynau, gan ymweld â phobl yn eu cartrefi, cael sgwrs neu baned, neu, yn syml, siarad â nhw dros y ffôn, i helpu pobl i deimlo'n llai ynysig ac unig. Mae'r tîm wedi adeiladu rhwydwaith partneriaeth cryf i godi ymwybyddiaeth ac i gyfeirio pobl i'r gefnogaeth a ddarperir; mae'r partneriaid yn cynnwys Age Connects, Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn, y Groes Goch Brydeinig, Thrive United Welsh, Stafell Fyw – Capel Tredelerch, C3SC i enwi ond rhai. Yn ystod y flwyddyn, ymgysylltodd 299 o wirfoddolwyr â'r prosiect i gefnogi pobl hŷn yn y gymuned, gan roi dros 2,000 awr o wirfoddoli.

Mae **cynhwysiant digidol** yn allweddol i aros yn gysylltiedig ac mae ein Tîm Cymorth Digidol wedi parhau i weithio i chwalu rhwystrau a darparu'r offer a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i deimlo'n gyfforddus â thechnoleg fodern. Mae'r tîm wedi helpu pobl i gael gafael ar offer digidol ac, i gyd, cefnogwyd 644 o bobl i gael mynediad at ddyfeisiau tabled drwy'r Cynllun Rhoi Tabledi.

Mae gwaith ar **gefnogi pobl dros 50 oed i mewn i waith** hefyd wedi symud ymlaen yn ystod y flwyddyn. Mae gan lawer o bobl hŷn lawer i'w roi o hyd i fyd cyflogaeth. Yn ystod 2022/23 bu ein Tîm i Mewn i Waith a'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ceiswyr gwaith dros 50 oed i adeiladu eu sgiliau, creu CV, gwneud cais am swyddi gwag addas, a mynychu cyfweliadau. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae'r **Tîm Cyfleoedd Dydd** yn helpu pobl hŷn sydd angen mwy o gymorth unigol i ailgysylltu â'u cymuned. Nod y gwasanaeth yw grymuso unigolion i gymryd rhan lawn yn eu cymuned, gan eu cefnogi i wneud cysylltiadau, darganfod diddordebau ac adeiladu eu rhwydwaith cymdeithasol eu hunain. Darperir cymorth unigol wedi'i deilwra yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn ystod 2022/23, cafodd 280 o unigolion eu cefnogi yn y gymuned, gyda dim ond 15% yn gorfod cael eu hatgyfeirio am gymorth ychwanegol. Dywedodd 89% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hailgysylltu â'u cymuned trwy ymyriadau uniongyrchol a digidol gan y tîm.

**Hybiau Gofal i Bobl Hŷn**

Ail-lansiwyd ein Canolfannau Dydd i bobl hŷn yn 2022/23 a chawsant eu hail-frandio fel Hybiau Gofal. Darparwyd 1,569 o sesiynau yn yr Hybiau Gofal yn ystod y flwyddyn, gan arwain at ddarparu 9,424 awr o ofal.




*Mae Hybiau Gofal yn atal ynysu cymdeithasol ymhlith defnyddwyr gwasanaeth, gydag amrywiaeth o weithgareddau ar gael.*





Mae'r Hybiau Gofal bellach wedi'u cysylltu â'n Hybiau Cymunedol i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn well i barhau i ymgysylltu â'u cymunedau ac fel y gallant fwynhau'r llu o ddigwyddiadau amrywiol oed-gyfeillgar sydd ar gael. Yn y flwyddyn i ddod, rydym yn bwriadu datblygu dull gweithredu "Hybiau i Bawb," gan ymestyn cyrhaeddiad ein gwasanaethau dydd i fwy o unigolion ac mewn mwy o leoliadau. Maent hefyd bellach yn chwarae mwy o ran wrth gefnogi gofalwyr di-dâl y defnyddwyr gwasanaeth sy'n mynychu'r Hybiau.

Mae llawer o ddefnyddwyr yr Hybiau Gofal yn byw gyda dementia ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod. Felly, mae darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r rhai sydd â dementia yn bwysig iawn i'r Tîm Hybiau Gofal ac yn ystod y flwyddyn maent wedi bod yn gweithio gyda - a dysgu gan - nifer o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i helpu pobl i fyw'n dda gyda dementia. Rydym wedi buddsoddi mewn technoleg newydd fel y Tovertafel, sy'n creu animeiddiadau rhyngweithiol sy'n annog cyfranogiad, ymgysylltu a hybu gweithgarwch corfforol a chymdeithasol.  Rydym hefyd wedi integreiddio Gweithgareddau Therapi Atgofion Rhyngweithiol (RITA) i mewn i wasanaethau. Mae RITA yn system ddigidol arloesol, wedi'i seilio ar dystiolaeth, sy'n cynnig therapi atgofion digidol.  Mae RITA yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i gofio a rhannu digwyddiadau o'u gorffennol trwy wrando ar gerddoriaeth, gwylio adroddiadau newyddion, chwarae gemau a gwylio ffilmiau. Mae'r ddau ddatblygiad newydd hyn yn helpu'r rhai sy'n byw gyda dementia i ymgysylltu, cysylltu a mwynhau eu hamser yn yr Hybiau Gofal.





**Atal a Chefnogi Annibyniaeth**
Mae cefnogi pobl i aros yn annibynnol gartref yn rhan allweddol o'n Strategaeth Heneiddio'n Dda. Mae ein **Gwasanaethau Byw'n Annibynnol** yn darparu ystod eang o gymorth i helpu pobl i aros mor annibynnol â phosibl, gan weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r sector gofal i gefnogi pobl hŷn i aros gartref cyhyd ag y bo modd. Yn ystod 2022/23 gwnaethom barhau i adeiladu ar ein gwasanaethau i gefnogi'r dull gweithredu hwn.

Yn ystod 2022/23, deliodd ein tîm **Pwynt Cyswllt Cyntaf** â bron i 16,000 o alwadau gan ddarparu cyngor a chymorth. Dywedodd 96% o gleientiaid eu bod yn teimlo eu bod yn gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi yn dilyn cefnogaeth gan y **tîm Cymunedol Byw'n Annibynnol** yn 2022/23. Mae'r tîm wedi parhau i rymuso pobl i aros yn annibynnol gartref a lleihau'r ddibyniaeth ar ymyriadau dwys.

Mae'r galw am **wasanaethau Therapi Galwedigaethol** hefyd yn parhau i fod yn uchel. Derbyniodd y tîm 4,816 o atgyfeiriadau yn 2022/23 a phresgripsiynwyd offer i 1,320 o ddinasyddion i gefnogi byw'n annibynnol. Mae ein Therapyddion Galwedigaethol bellach yn aseswyr dibynadwy ac yn presgripsiynu gofal lefel isel ochr yn ochr ag offer i gefnogi pobl gartref.

Yn 2022/23 gwnaethom recriwtio **Arbenigwr Gofal a Alluogir gan Dechnoleg (GAD)** i wella ein Gwasanaeth Byw'n Annibynnol. Mae'r rôl newydd hon yn darparu cefnogaeth arbenigol i gydweithwyr, dinasyddion, gofalwyr a theuluoedd drwy nodi ymyriadau a all hyrwyddo annibyniaeth, iechyd, lles a diogelwch. Mae grŵp o bencampwyr GAD hefyd wedi'i sefydlu o fewn gwahanol dimau ar draws y Gwasanaethau Oedolion. Bydd y staff hyn yn gweithio gyda'u cydweithwyr ac yn eu cefnogi i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o ofal a alluogir gan dechnoleg i wella canlyniadau i'n dinasyddion.

Mae ein **Cyd-Wasanaeth Offer** (CWO) yn gweithio ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg gan ddarparu offer meddygol i gefnogi annibyniaeth a gofal cartref ac i alluogi rhyddhau cyflym. Yn 2022/23 cafodd 31,521 eitem o offer, fel gwelyau, peiriannau codi a chynhyrchion ymataliaeth, eu dosbarthu. Cafodd 481 o welyau ysbyty eu dosbarthu ar yr un diwrnod gwaith neu ar y diwrnod gwaith nesaf i gefnogi prosesau i ryddhau pobl ar frys, ac arbedwyd £220,532 trwy ailgylchu offer. Mae Tîm Therapi Galwedigaethol pwrpasol yn eistedd o fewn CWO yn cynghori ar y defnydd gorau o offer. Cafodd y tîm ei ehangu'n ddiweddar gyda Thechnegydd Therapi Galwedigaethol ychwanegol i adeiladu ar lwyddiant y gwasanaeth hwn.

Mae **AskSara** yn offeryn hunanasesu ar-lein sydd ar gael drwy wefan Cyngor Caerdydd. Mae AskSara ar gael 24/7 ac mae'n offeryn cyflym a syml sy'n darparu gwybodaeth am offer y gall pobl ei brynu eu hunain neu'n eu cyfeirio at wasanaethau priodol. Lansiwyd AskSara ym mis Mai 2022, ers hynny, mae'r wefan wedi helpu dros 800 o ddefnyddwyr newydd i gwblhau hunanasesiadau i'w cefnogi i fyw'n annibynnol.

Mae **Addasiadau i'r Anabl** yn allweddol i gefnogi pobl i aros yn annibynnol gartref. Yn 2022/23 darparodd ein Gwasanaeth Cyfleusterau i'r Anabl 989 o addasiadau cartref i oedolion, yn amrywio o rampiau modiwlaidd, cawodydd a lifftiau grisiau i, fel y bo'n briodol, ymestyniadau i eiddo. Rydym wedi dileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau cymwys, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn yr amser cyfartalog y mae'n rhaid i ymgeiswyr aros am gymeradwyaeth grant. Mae'r amser cyfartalog i brosesu cais grant wedi gostwng gan 7 wythnos dros y flwyddyn, o 19 wythnos i 12 wythnos.

**Cefnogi Rhyddhau o'r Ysbyty**
Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran gwella'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ganolfan Ryddhau Integredig (CRI) wedi'i chryfhau yn ystod y flwyddyn. Mae'r CRI yn bwynt mynediad sengl i gefnogi'r broses o bontio o'r ysbyty i'r cartref ac mae'n rhan o'r broses o wneud penderfyniad ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r CRI yn defnyddio dull tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir, gan fabwysiadu egwyddorion 'gartref gyntaf', gan osgoi oedi yn y llwybr gofal wrth sicrhau bod gan gleifion lais a rheolaeth trwy gydol eu taith ryddhau.



Mae'r tîm Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf, a elwir hefyd y Fyddin Binc, bellach wedi'i integreiddio i'r gwasanaeth CRI, gan sicrhau bod yr un dull ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio gan ein Gwasanaeth Byw'n Annibynnol ac yn yr ysbyty. Derbyniodd timau Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf 2,118 o atgyfeiriadau am gymorth lefel isel gyda chleifion yn cael eu rhyddhau yn 2022/23 a chyflawnwyd 807 o ganlyniadau. Amcangyfrifir bod 1,033 o ddiwrnodau gwely wedi cael eu hosgoi drwy gydol y flwyddyn.

Mae nifer o lwybrau peilot 'tu allan i'r ysbyty' newydd wedi cael eu datblygu, gan gynnwys:

- **Rhyddhau i Adfer ac Asesu –** gwasanaeth gofal cartref ymateb cyflym i helpu pobl i ddychwelyd adref a chael asesiad o'u hanghenion parhaus mewn lleoliad mwy priodol na'r ysbyty.
- **Rhyddhau i Asesu –** mynediad cyflym i leoliad gofal preswyl neu nyrsio dros dro i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â lefel uwch o angen, tra bod eu gofynion yn y dyfodol yn cael eu hasesu'n llawn.

Er bod pwysau ar dîm gwaith cymdeithasol yr ysbyty yn parhau, ar gyfartaledd mae 45 o'r bobl sy'n cael eu rhyddhau gyda gofal bob wythnos yn dod o leoliadau ysbyty cyffredinol.

**Cefnogi Iechyd Cymunedol**
Mae ein Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn rhan o'r **Grŵp Datblygu Traws-Glwstwr,** yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd sylfaenol a gwasanaethau eraill i gymryd ymagwedd amlddisgyblaethol tuag at hybu iechyd a lles, cefnogi annibyniaeth ac atal derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae ein Swyddogion Byw'n Annibynnol yn rhan o Dimau Amlddisgyblaethol clystyrau sy'n cwmpasu De-orllewin, Gogledd, De-ddwyrain a Dwyrain Caerdydd, ac maent yn mynychu pob cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol yn yr ardaloedd hyn. Y bwriad yw ehangu'r rhaglen hon ymhellach a chyflwyno Timau Amlddisgyblaethol clwstwr ychwanegol ledled y ddinas. Mae ein Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn chwarae rhan weithredol yn y datblygiad pellach hwn.

**Cefnogi Iechyd Meddwl a Lles**
2022/23 oedd blwyddyn lawn gyntaf ein **Gwasanaeth Mentoriaid Lles**, sy'n cefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl lefel isel. Roedd cleientiaid yn defnyddio'r gwasanaeth yn bennaf am gymorth gydag allgáu cymdeithasol, straen a gorbryder a chymorth iechyd meddwl cyffredinol. Mae'r mentoriaid wedi cefnogi pobl i gael mynediad i grwpiau cymunedol o ddiddordeb, hwyluso mynediad at gyngor arbenigol, darparu pecynnau cymorth ar gyfer lleihau straen a gorbryder a helpu i fagu hyder. Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf, cefnogwyd 170 o gleientiaid i wella eu lles.  Mae gwerthusiad cychwynnol wedi nodi bod 93 % o'r ymatebwyr wedi nodi bod eu hanghenion wedi'u diwallu.



*Dadorchuddiwyd gardd a murlun coffa yn Nhŷ Canna i gofio am yr unigolion a gollwyd yn ystod y pandemig COVID-19.*

Lansiwyd **trefniant partneriaeth peilot newydd gyda MIND** yn 2022/23. Bellach, mae cleientiaid y Gwasanaeth Cymorth Lles yn gallu manteisio ar lwybr uniongyrchol at gwnsela a hunangymorth â chefnogaeth drwy'r elusen. Mae hyn wedi golygu y gall y mentoriaid fynd i'r afael â materion ymarferol gyda'r cleientiaid, wrth iddynt dderbyn cefnogaeth arbenigol gan MIND, gan sicrhau bod achosion sylfaenol lles gwael yn cael sylw.

**Parhaodd Tŷ Canna, ein Gwasanaeth Dydd Iechyd Meddwl** i ddarparu cefnogaeth i unigolion ag anghenion iechyd meddwl drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys lansio Cwrs Gwrando Creadigol 12 wythnos mewn partneriaeth â CBC Breathe Creative. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i helpu mynychwyr, y mae gan lawer ohonynt heriau iechyd meddwl sylweddol, i wella eu sgiliau gwrando, a fydd yn ei dro yn gwella eu hyder a'u perthnasoedd ag eraill. Addysgir y sgiliau trwy gelf, gweithgareddau creadigol, ac ymwybyddiaeth ofalgar.

Mae'r gwasanaeth yn ffodus iawn o gael 30 o unigolion sydd â phrofiad byw o iechyd meddwl yn gweithio fel gwirfoddolwyr - dyma'r CREW (Cardiff Recover Enabling Well-being). Yn 2022/23, enillodd CREW Grŵp Gwirfoddolwyr y Flwyddyn yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr Caerdydd C3SC.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi parhau i **gefnogi'r BIP i ddatblygu Noddfa iechyd meddwl i ategu'r llinell gymorth Iechyd Meddwl a lansiwyd yn ddiweddar,** sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy ffonio GIG 111 Cymru a dewis opsiwn 2.

Mae'r contract ar gyfer y Noddfa wedi'i ddyfarnu i Platform sydd wrthi'n gweithio i wneud y gwasanaeth yn gwbl weithredol erbyn mis Medi 2023. Bydd y Noddfa'n darparu gwasanaeth y tu allan i oriau i oedolion (18+) 7 noson yr wythnos. Bydd y Noddfa'n lle diogel a chroesawgar lle gall pobl fynd y tu allan i oriau gwaith arferol, yn hytrach na'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu wasanaethau brys eraill. Y cynnig yw cymorth anghlinigol i bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl personol, emosiynol neu gyfnod cynnar yn y gymuned.

**Cefnogi Gofalwyr Di-dâl**

Mae'r Strategaeth Heneiddio'n Dda yn cydnabod y gwaith gwerthfawr y mae gofalwyr anffurfiol neu ddi-dâl yn ei wneud i gefnogi'r bobl y maent yn gofalu amdanynt i aros gartref. Dechreuodd rhaglen yn 2022/23 i ddeall anghenion gofalwyr a darparu cymorth ychwanegol. Cytunwyd ar y **Siarter Gofalwyr Rhanbarthol** gan Gabinet Caerdydd ym mis Hydref 2022 yn nodi fframwaith ar gyfer gwasanaethau i ofalwyr di-dâl. Cynhaliwyd arolwg Gofalwyr Di-dâl gyda gofalwyr Caerdydd a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, er mwyn deall anghenion gofalwyr a'u profiad o wasanaethau cyfredol yn well. Derbyniwyd 656 o ymatebion ac mae canlyniadau'r arolwg hwn yn llywio ein gwaith wrth symud ymlaen.

Mae platfform newydd, 'Dinas Gofal', wedi'i lansio, gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth a chyngor i ofalwyr di-dâl. Lansiwyd cylchlythyrau Dinas Gofal chwarterol ym mis Mawrth 2023 yn cynnwys newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddefnyddiol. Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol am y dull gweithredu gan ofalwyr di-dâl a phartneriaid allanol, gan gynnwys hyrwyddwyr gofalwyr sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol.

Cynhaliwyd **610 o Asesiadau Gofalwyr** yn 2022/23, ac er bod hyn yn gynnydd o 503 yn 2021/22, rydym yn dal i fod eisiau gwneud yn well trwy hyrwyddo'r gefnogaeth hon yn well a sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio arni. Er y gwnaed cynnydd yn 2022/23 mae llawer mwy y gallwn ei wneud o hyd i gefnogi gofalwyr di-dâl yn eu gwaith. Mae Cynllun Gweithredu Gofalwyr manwl wedi'i ddrafftio i symud y gwaith hwn ymlaen i mewn i 2023/24.


**Anableddau Dysgu – Darparu Cymorth yn Nes at y Cartref**
Un o'n prif amcanion yw cefnogi pobl ag anabledd dysgu i barhau i fyw yn eu cymuned.

Mae ein **tîm Cynllunio Cymorth** yn gweithio ochr yn ochr â'r timau gwaith cymdeithasol anableddau dysgu, gan gynnig arbenigedd wrth ddod o hyd i gyfleoedd gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gwaith yn canolbwyntio ar gyfleoedd lleol sy'n galluogi unigolion i fod yn rhan o'u cymuned a datblygu rhwydweithiau ehangach. Mae staff yn cefnogi pobl i roi cynnig ar gyfleoedd a datblygu'r sgiliau i fynychu'n annibynnol pan fo hynny'n bosibl. Mae'r cynlluniau'n seiliedig ar ganlyniadau ac yn cyd-fynd â dymuniadau ac anghenion pobl. Gweithiodd y cynllunwyr gyda dros 127 o bobl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ymatebion gan y rhai y mae'r cynllunwyr yn gweithio gyda nhw yn gadarnhaol iawn. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael mwy o ddewis a rheolaeth.

Mae'r **Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymhleth** yn darparu rhan hanfodol o'n cynnig lleol gan gefnogi a galluogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth i aros yn lleol. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau dydd yn cefnogi 69 o unigolion sydd ag anableddau dysgu cymhleth, anghenion iechyd ac ymddygiad sy'n peri pryder ar sail 1:1 a 2:1.

Darparodd y Gwasanaeth Dydd 12,062 o ddiwrnodau o gymorth yn 2022/23. Mae'r cymorth hwn yn darparu seibiant hanfodol yn ystod y dydd i ofalwyr di-dâl i'w galluogi i barhau yn eu rôl ofalu, gan ganiatáu i'w hanwyliaid aros yng nghartref y teulu. Yn ogystal â gweithio mewn lleoliadau pwrpasol, mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl i gael mynediad i'r gymuned, gan gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd o ansawdd uchel gan gynnwys gwirfoddoli, dosbarthiadau addysg gymunedol, datblygu sgiliau byw'n annibynnol, datblygu sgiliau cymdeithasol, a chefnogi pobl i ddilyn hobïau a diddordebau, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at hyrwyddo iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol pobl.

Yn 2022/23 cefnogwyd 12 o bobl gan y Gwasanaeth Dydd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli gan gynnwys prosiectau cadwraeth, prosiectau gardd gymunedol, cerdded cŵn yn ogystal â chefnogi nifer o fentrau a phrosiectau cymunedol.



*Mae'r Gwasanaeth Dydd yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli i ddefnyddwyr gwasanaeth gyda Chartref Cŵn Caerdydd.*



*Mae'r Gwasanaeth Dydd yn cefnogi pobl i gael mynediad i'r gymuned a dilyn eu hobïau a'u diddordebau.*

## Darparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

### Datblygu'r Farchnad Gofal

Yn 2022/23 gwelodd Caerdydd adferiad sylweddol yn y farchnad gofal a gwelliant yn argaeledd gofal ac ar y cyfan; nid yw'r ddarpariaeth gofal bellach yn broblem. Mae pryder yn parhau mewn rhai meysydd, fodd bynnag, gan fod oedi'n parhau wrth ddod o hyd i leoliadau mwy arbenigol, fel ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ag anableddau dysgu cymhleth, a gall gofal dementia preswyl a seibiant, er ei fod ar gael, fod yn gostus.

Cymeradwywyd yr **Adroddiad rhanbarthol ar Sefydlogrwydd y Farchnad** gan y Cyngor ym mis Hydref 2022. Mae'r adroddiad yn asesu a all y farchnad gofal a chymorth ranbarthol ddiwallu anghenion pobl y rhanbarth a'r meysydd lle mae angen gwaith i sicrhau bod anghenion y dyfodol yn cael eu bodloni. Nodwyd nifer o feysydd lle byddai angen gwaith ychwanegol i gefnogi'r farchnad, gan gynnwys yr angen i reoli'r farchnad i ffwrdd o ofal preswyl cyffredinol tuag at ddiwallu lefelau uwch o angen, gan gynnwys gofal dementia. Mae gwaith i ymateb i'r canfyddiadau hyn wedi dechrau a bydd yn cael ei ddatblygu yn ystod 2023/24.

### Darpariaeth Ansawdd mewn Gofal

Yn ystod y flwyddyn gwnaed gwelliannau i'r **Gweithdrefnau Uwchgyfeirio Pryderon** ac mae dull llawer mwy rhagweithiol bellach ar waith i ymateb i broblemau sy'n codi o fewn y sector gofal. Mae model clir wedi'i ddatblygu ar gyfer rheoli darparwyr gofal yn cau, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ymagwedd broffesiynol at gau nifer o gartrefi gofal yn ystod y cyfnod. Mae ansawdd yr ymagwedd hon wedi'i gydnabod gan bartneriaid yn Arolygiaeth Gofal Cymru a'n darparwyr gofal.

### Gwella Ein Gofal Dementia

Fel dinas sy'n deall dementia, rydym am ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl sy'n byw gyda dementia, gan weithio gyda nhw i ddiwallu eu hanghenion a'u dymuniadau, beth bynnag fo lefel eu hanghenion.

### Cefnogaeth i aros gartref – Stori J

*Cysylltodd nith J â'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol (GBA) drwy'r gwasanaeth ar-lein, gyda phryderon am ei modryb. Roedd hi'n pryderu bod ei modryb yn byw ar ei phen ei hun ac nad oedd ganddi unrhyw gefnogaeth yn lleol. Yn ogystal, roedd hi'n teimlo ei bod hi'n arddangos arwyddion cynnar dementia. Roedd J yn anghofio pethau, yn gadael y drws ar agor ac wedi ei chanfod yn crwydro'r stryd. Roedd pryder fod J ddim yn bwyta nac yfed ac roedd hi'n ymddangos yn ddryslyd iawn.*

*Trefnwyd lleoliad seibiant ar unwaith mewn cartref gofal tra bod asesiad yn cael ei gynnal. Y diwrnod canlynol aeth gweithiwr cymdeithasol i'r cartref gofal i siarad â J. Siaradodd hefyd â nith J, cymydog a staff y cartref gofal i gwblhau ei hasesiad.*

*Er i J ddangos rhywfaint o ddryswch ynghylch amser a dyddiadau a lle roedd hi'n byw, roedd hi'n deall yn iawn ble roedd hi ac nad oedd ei chof "cystal ag yr arferai fod" ac nad yw hi'n ymdopi ar ei phen ei hun. Roedd J yn mwynhau derbyn gofal ond ei chanlyniad dewisol oedd bod yn ôl yn ei chartref ei hun. Cytunodd J i gefnogaeth gyda'i gofal personol, cymorth amseru gyda'i meddyginiaeth a'i goruchwyliaeth a chymorth amseru gyda phrydau a diodydd. Cytunodd hefyd i gael Teleofal wedi'i osod rhag ofn y bydd hi'n cwympo neu fod angen cymorth brys arni gartref.*

*Trefnwyd pecyn gofal a llwyddodd J i ddychwelyd adref yn ddiogel ac mae wedi bod yn ymgysylltu'n dda â'r gefnogaeth y mae hi bellach yn ei derbyn.*

**Hyrwyddo ansawdd mewn gofal dementia**
Ein nod yw gwella ein gwasanaethau'n barhaus a meincnodi ein hunain yn erbyn arferion a gwasanaethau llwyddiannus mewn mannau eraill. Er mwyn cyflawni hyn mae ein Tîm Dementia ac Ansawdd Gofal wedi bod yn adolygu'r farchnad gofal a gallu ein darparwyr lleol i ddarparu gwasanaethau o safon i'r rhai sy'n byw gyda dementia neu nam gwybyddol. Drwy ganfod arfer da lleol mewn cartrefi preswyl a gofal, mae'r tîm yn dechrau diffinio darlun clir o sut beth yw gofal da, gan lywio ein trefniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol a darparu cymorth ymarferol i'n cartrefi gofal lleol.

Mae gofal a chefnogaeth ein dinasyddion wrth wraidd sut mae'r tîm yn gweithio, gan edrych ar eu cryfderau a'u rhwydweithiau presennol a dod o hyd i'r gwasanaeth gorau i gefnogi eu dymuniadau a'u teimladau.

## Dod o hyd i'r gofal preswyl cywir - Stori C

*Mae C yn ŵr 63 oed gyda nam gwybyddol, ac aseswyd nad oedd ganddo alluedd i wneud rhai penderfyniadau, er ei fod yn gallu mynegi rhai dymuniadau personol. Yn anffodus, oherwydd y bwriad i gau ei gartref presennol, roedd angen i C symud i leoliad newydd. Roedd pryderon y gallai'r newid hwn achosi pryder mawr i C ac effeithio'n negyddol ar ei les.*

*Gweithiodd y Tîm Dementia ac Ansawdd Gofal gyda C i ddysgu beth oedd yn bwysig iddo ef, gan hefyd ddefnyddio eu gwybodaeth am ddarparwyr gofal ledled Caerdydd i nodi'r lleoliadau a fyddai'n diwallu anghenion a dymuniadau C orau.*

*Yn ystod trafodaethau gyda C am y symudiad arfaethedig, llwyddodd i gyfleu ei feddyliau a'i farn yn llawn. Trafodwyd opsiynau amgen a allai ddiwallu anghenion C gydag ef. Rhoddodd C ganiatâd i gysylltu â lleoliad preswyl newydd - gwnaeth gyfarfod â'r rheolwr a chytunwyd ar ddyddiad symud.*

*Mae C wedi dweud ei fod yn hapus gyda'r lle newydd ac yn teimlo ei fod wedi setlo ar ei ddiwrnod cyntaf - dywedodd ei fod yn teimlo mai ffawd oedd hyn! Dywedodd C ei fod eisoes wedi datblygu perthynas dda gyda'r staff a'i fod wedi bod yn mynd lawr am frecwast - 'maen nhw'n gwneud tost trwchus gyda lot o fenyn a chymaint o goffi ag ydw i eisiau. Mae'n dda iawn yma.'*

*Mae gwaith parhaus y Tîm Dementia ac Ansawdd Gofal gyda darparwyr gofal ledled y ddinas wedi bod o fudd mawr i C a bu'n bosibl iddynt leihau ei bryder a dod o hyd i'r cartref newydd gorau iddo.*
*Dyma un enghraifft yn unig o'r gwaith a wnaed gan y tîm sy'n dangos sut y gellir cyflawni canlyniadau personol yn llwyddiannus gyda gwybodaeth a dealltwriaeth o'r unigolyn a'n darparwyr gofal lleol.*

**Cymryd Rhan mewn Ymchwil**
Yn 2022/23 mae'r Tîm Dementia ac Ansawdd Gofal hefyd wedi cymryd rhan mewn ymchwil PhD gyda myfyriwr o Brifysgol Caerdydd sy'n ymchwilio i 'sut mae hil ac ethnigrwydd yn cael eu hystyried yng nghyd-destun Dementia'.

Mae hyn wedi cynnwys sgyrsiau gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithdy grŵp yn dilyn sawl astudiaeth achos. Mae nifer o asesiadau dienw unigolion o dreftadaeth Affricanaidd neu Garibïaidd wedi'u rhannu gyda'r myfyriwr ymchwil. Bydd canfyddiadau'r ymchwil ar gael yn 2023/24 a byddant yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau pellach yn y maes hwn.

**Dull Partner Dibynadwy**
Yn ystod 2022/23, daeth model "Partner Dibynadwy," sy'n galluogi darparwyr a gomisiynir i addasu gofal i ddiwallu anghenion unigol, yn weithredol ar draws y sector gofal, er enghraifft i addasu lefel y gofal a ddarperir cyn asesiad gwaith cymdeithasol. Bydd y newid hwn yn cael ei fonitro, a bydd y canlyniad yn llywio trefniadau comisiynu yn y dyfodol. .

## Cefnogi Llais a Rheolaeth Unigol

**Cyflwyno Ymarfer Seiliedig ar Gryfderau**
Rydym wedi ymrwymo i Ymagwedd Seiliedig ar Gryfderau o ran y ffordd rydym yn gweithio. Mae Ymarfer Seiliedig ar Gryfderau'n canolbwyntio ar gryfderau unigolyn (gan gynnwys cryfderau personol, a rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol) ac nid eu diffygion. Mae'n gweithio gyda'r unigolyn i hybu ei les ac mae'n cael ei arwain gan y canlyniadau a ddewisir gan ddefnyddwyr gwasanaeth. 'Cyfathrebu Cydweithredol' yw'r dull a ddefnyddiwn i sicrhau bod Ymarfer Seiliedig ar Gryfderau yn cael ei gymhwyso ym mhob sgwrs neu ryngweithiad â'n dinasyddion a hefyd rhwng gweithwyr proffesiynol. Yn 2022/23 recriwtiwyd Swyddog Hyfforddi Seiliedig ar Gryfderau i arwain ar weithredu Cyfathrebu Cydweithredol. Bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei adolygu'n llawn yn ystod 2023 ar draws yr holl grwpiau staff. Hefyd, mewn ymateb i'r adborth gan ymarferwyr, mae ffurflen adolygu cynlluniau gofal a chymorth Seiliedig ar Gryfderau newydd wedi'i chynllunio gan roi'r dinesydd wrth wraidd eu gofal a'u cymorth. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw, eu cryfderau, a'r canlyniadau y maent am eu cyflawni, gan alinio'n llawn â'r dull gweithredu Seiliedig ar Gryfderau.

**Gwelliannau i Daliadau Uniongyrchol**
Dros y flwyddyn mae'r nifer sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wedi bod yn gymharol isel. Mae adolygiad wedi dangos bod hyn oherwydd diffyg argaeledd Cynorthwywyr Personol a chymhlethdod y broses taliadau uniongyrchol. Mae prosiect wedi dechrau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rydym wedi ymrwymo i bartneriaeth gyda Catalyddion Cymunedol i ddatblygu microfentrau i lenwi'r bwlch mewn argaeledd Cynorthwywyr Personol ac i symleiddio'r defnydd o daliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r broses weinyddol gyda'r nod o symleiddio a chyflymu'r broses. Rydym yn rhagweld y bydd y broses hon yn cynyddu dewis a rheolaeth i'n defnyddwyr gwasanaeth ac y bydd o gymorth penodol i ddefnyddwyr gwasanaeth o gefndir BAME wrth ddod o hyd i ofal sy'n diwallu eu hanghenion.

**Deddfwriaeth Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**
Er bod oedi wedi bod ar weithredu'r ddeddfwriaeth Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, mae gwaith wedi parhau i baratoi ar gyfer hyn. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu sy'n cynnwys partneriaid o bob rhan o'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Mae hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol wedi'i gyflwyno ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac asiantaethau partner i sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'i gweithrediad yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Hefyd, mae cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi ein helpu i leihau nifer yr asesiadau agored o dan y ddeddfwriaeth Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid bresennol yn sylweddol. Ein ffocws wrth baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd yw sicrhau bod hawliau ein defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnal, a'u bod yn cadw cymaint o reolaeth â phosibl dros eu gofal yn ystod y broses.

## Cynyddu'r ystod o opsiynau llety a chymorth lleol

**Datblygu Opsiynau Llety Newydd ar gyfer Pobl Hŷn**

Cyhoeddwyd Strategaeth Tai Pobl Hŷn Caerdydd yn 2019 ac mae'n nodi gweledigaeth uchelgeisiol i'r Cyngor a'i bartneriaid 'gyflawni'r canlyniadau tai gorau i bob person hŷn yng Nghaerdydd.' Parhaodd gwaith i foderneiddio a gwella cynlluniau Byw yn y Gymuned presennol y Cyngor yn 2022/23 gyda gwaith uwchraddio ar systemau canfod tân, system galwadau lles ddigidol a gwelliannau i fannau cymunedol i fodloni safonau I Weld yn Well y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) gydag arwyddion dementia yn helpu i gefnogi byw'n annibynnol trwy lety addasadwy a hygyrch.

Mae cynlluniau wedi'u llunio i ddatblygu nifer o gynlluniau tai pobl hŷn "modern" newydd ar draws y ddinas. Y mwyaf datblygedig o'r rhain yw Cynllun Byw yn y Gymuned Tŷ Addison, lle mae gwaith adeiladu ar y gweill. Bydd hyn yn darparu 45 o fflatiau gofal barod. Bydd y rhain yn ddigon hyblyg i'w haddasu i anghenion newidiol pobl hŷn, gyda rhai yn gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn.  Bydd y fflatiau yn fawr gyda chynllun agored ac mae ganddynt falconïau preifat mawr i greu man golau ac awyrog. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i Safonau Platinwm y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB). Bydd y cynllun hefyd yn cynnig cyfleusterau cymunedol fel teras to a lolfa, pwyntiau gwefru ceir trydan a chyfleusterau ar gyfer storio a gwefru sgwteri symudedd. Mae cynlluniau eraill yn mynd rhagddynt drwy'r prosesau cynllunio a chaffael ar hyn o bryd, gyda gwaith i ddechrau'n raddol ar y safle dros y 3 blynedd nesaf.



*Argraff artist o Dŷ Addison, sydd i fod i agor yn ddiweddarach eleni*

**Datblygu Llety â Chymorth i'r rhai sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl**
Mae gwaith ar y cyd rhwng Gwasanaethau Llety Arbenigol a'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Iechyd Meddwl wedi arwain at ddatblygu cynllun byw â chymorth newydd i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan ganiatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth gamu i lawr o ofal preswyl i lefel uwch o annibyniaeth. Datblygwyd 11 uned o lety â chymorth mewn fflatiau cymdeithas dai newydd sbon gan leihau cost gofal a chynyddu annibyniaeth.



Mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi datblygu ystod eang o opsiynau llety â chymorth gyda darparwyr cymorth lleol arbenigol ac yn gweithio'n galed i gefnogi pobl i symud i'r tai sy'n gywir iddyn nhw. Yn 2022/23 mae mwy na 320 o bobl wedi cael eu cefnogi yn eu tenantiaethau eu hunain gyda 38 yn symud i mewn yn ystod y flwyddyn.

Datblygwyd tri chynllun byw â chymorth newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn ystod y flwyddyn gan gynnig 9 uned llety. Datblygwyd y cynlluniau newydd hyn mewn partneriaeth â chymdeithasau tai a'n darparwyr cymorth trydydd sector.

Mae gwaith yn hen fynd rhagddo mewn partneriaeth â thîm Datblygu Tai y Cyngor i nodi cyfleoedd i ddatblygu llety lleol ychwanegol i oedolion ag anghenion cymhleth. Bydd cynllun datblygu llawn yn cael ei lunio yn y flwyddyn i ddod i ddatblygu'r gwaith hwn.

**Diogelu Oedolion**
Dechreuwyd 1,686 o atgyfeiriadau diogelu oedolion yn 2022/23. Mae hyn yn ostyngiad bach ers 2021/22. Cwblhawyd 93% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn 7 diwrnod. Er bod hyn yn is na'n targed oherwydd cyfnodau recriwtio a hyfforddiant o fewn y gwasanaeth, mae'n dal i gymharu â chyfartaledd perfformiad cenedlaethol o 84%. Y ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau oedd asiantaethau darparu, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynwyd, sy'n dangos llwyddiant y gwasanaeth o ran hyrwyddo diogelu ymhlith y sector gofal.

Mae'r mathau o gamdriniaeth a adroddwyd yn 2022/23 yn weddol gyson â'r tair blynedd diwethaf gyda chamdriniaeth ac esgeulustod emosiynol a chorfforol y mwyaf cyffredin, heb lawer o wahaniaeth rhyngddynt.

Yn ystod y flwyddyn, unwyd y Tîm Diogelu Oedolion a'r Uned Cynhwysiant Cymdeithasol Tai. Mae hyn wedi arwain at un dull o reoli diogelwch a risg cymunedol. Mae cydreoli'r timau hyn yn galluogi ymatebion cydlynol a mwy o rannu gwybodaeth ar draws y gwasanaethau. Gwnaed cynnydd da hefyd wrth ddatblygu ymatebion i hunan-esgeulustod. Mae gwaith gan y Tîm Diogelu Oedolion wedi arwain at brosiect amlasiantaethol i gefnogi unigolion ag ymddygiadau celcio (neu gasglu) ac mae'r tîm hefyd wedi bod yn ganolog i ddatblygu gwasanaethau i bobl ifanc ag ymddygiadau cymhleth a risg uchel.

## Datblygu'r Gweithlu

Mae **recriwtio a chadw staff cymwys** wedi parhau i fod yn her yn ystod 2022/23 gyda phrinder ymgeiswyr neu ddim ymgeiswyr o gwbl ar gyfer rhai swyddi gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol. Cyflwynwyd Taliad Atodol ar Sail y Farchnad ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Oedolion ym mis Ebrill 2022, a chytunwyd i gynyddu hwn ymhellach o fis Ebrill 2023. Mae mentrau eraill hefyd wedi'u cynnal i wella recriwtio gan gynnwys lansio brand Gweithiwr Cymdeithasol Caerdydd newydd ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a ffilm fer yn hyrwyddo'r manteision o weithio i Gaerdydd.

Ar ddiwedd 2022/23 roedd 13.7 o swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol oedolion, sy'n cyfateb i 9.9%. Er bod hyn yn ostyngiad o 12.9% ar ddechrau'r flwyddyn, mae hwn yn parhau i fod yn faes allweddol o bryder. Mae gwaith wedi dechrau ar Strategaeth Datblygu'r Gweithlu gynhwysfawr ar gyfer y gwasanaeth, a bydd hyn yn cael ei gwblhau yn ystod 2023.

Mae nifer o fentrau hefyd wedi'u gwneud i ddileu gwaith diangen gan ein staff cymwys ac i wneud y defnydd gorau o'u hamser. Mae cynllun peilot a gyflwynodd **Gynorthwywyr Adnoddau Gwaith Cymdeithasol** i ymgymryd â thasgau gweinyddol wedi bod yn llwyddiannus, yn yr un modd â'r gwaith i symleiddio ein ffurflen asesu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2023/24.

Mae prosiect i gyflwyno **dull gweithredu Asesydd Dibynadwy** wedi dechrau gyda'n tîm Therapi Galwedigaethol, sydd bellach yn gallu presgripsiynu gofal, a bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel fwyaf priodol ac i osgoi dyblygu gwaith. Mae **Uned Hyfforddi Gwasanaethau Oedolion newydd** wedi cael ei datblygu i gefnogi'r gweithlu gofal mewnol ac ehangach yn well. Mae'r uned newydd yn cynnwys hyfforddwyr pwrpasol ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion gan gynnwys swydd sy'n canolbwyntio ar ddulliau Seiliedig ar Gryfderau. Mae'r uned yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r dull gweithredu Asesydd Dibynadwy ac yn gwella'r broses o sefydlu staff newydd i'r gwasanaeth.

Mae **cefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach** hefyd yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Datblygwyd Siarter Gweithlu Rhanbarthol sy'n nodi'r ymrwymiad hwn. Mae Caerdydd wrth gwrs wedi cefnogi cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal i gefnogi recriwtio a chadw yn y sector. Mae'r Uned Hyfforddi newydd yn cynnwys mwy o gapasiti i gefnogi darparwyr rheoleiddiedig mewnol ac allanol gyda chofrestru a chymwysterau'r gweithlu, a chrëwyd rôl **Swyddog Cymorth Cofrestru a Chymwysterau newydd.**



*Digwyddiad recriwtio Gwaith Cymdeithasol Caerdydd*



*Deunydd recriwtio Gwaith Cymdeithasol Caerdydd*

Mae **Academi Gofalwyr Caerdydd,** partneriaeth rhwng y Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaethau i Mewn i Waith a darparwyr gofal mewnol ac allanol, yn cefnogi recriwtio i'r sector. Mae mentoriaid ymroddedig yn cefnogi unigolion, gyda'r nod o chwalu'r rhwystrau i gyflogaeth. Mae pob unigolyn yn cyflawni pecyn hyfforddi sy'n canolbwyntio ar y sgiliau allweddol i weithio yn y sector, gan gynnwys ymwybyddiaeth o ddiogelu, cymorth cyntaf brys yn y gwaith a chodi a chario. Mae sawl cymhelliant ar gael i wneud yr yrfa werth chweil hon hyd yn oed yn fwy deniadol.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwersi gyrru am ddim, os oes angen
- Profion theori a gyrru am ddim
- Gwiriadau GDG am ddim
- Cymorth gyda chostau teithio cychwynnol

Mae'r Academi wedi gwneud cyfraniad allweddol at hyrwyddo gofal cymdeithasol fel dewis gyrfa cadarnhaol, gan ddod â gweithwyr gofal newydd i sector gofal cymdeithasol Caerdydd. Cyflawnwyd 135 o ganlyniadau swydd gofalwr yn ystod 2022/23.

**Cynllun Beiciau Trydan**
Gyda'r argyfwng costau byw yn parhau i fod yn amlwg yn 2022/23, cydnabuwyd bod cost tanwydd yn her sylweddol i ddarparwyr gofal cartref, gan effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal.

Er mwyn helpu i leddfu rhywfaint ar y straen ariannol, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, gwahoddodd y Cyngor ddarparwyr gofal ledled y ddinas i wneud cais am grantiau i brynu beiciau trydan i staff deithio rhwng cartrefi cleientiaid. Dyfarnwyd cyfanswm o £41,000 i 14 darparwr gofal cartref yn y ddinas i brynu 41 o feiciau i'w staff.  Mae'r fenter yn ceisio gwella capasiti gwasanaeth cymorth gofal cartref y ddinas trwy hybu iechyd a lles rhai o weithwyr mwyaf hanfodol y ddinas, yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.  Bydd trydydd cynllun yn cael ei lansio yn 2023/24.

I'r gweithwyr gofal hynny a hoffai yrru ond sy'n methu fforddio'r gwersi, datblygwyd cynllun gwersi gyrru hefyd, gan gefnogi gweithwyr gofal i ddysgu i yrru, hyd at werth o £570.

Er gwaethaf yr heriau eleni, cynhaliwyd ystod sylweddol o weithgareddau i wella ein gwasanaethau a'r canlyniadau i ddinasyddion.



**Sarah McGill,**
*Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol*

# 5 BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023/24

## Y 5 Blaenoriaeth Gorfforaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflawni blaenoriaethau strategol i'n galluogi i reoli ac ymateb i'r lefel uchel barhaus o **alw am wasanaethau cymdeithasol,** cymhlethdod y problemau a brofir gan ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a'r **pwysau cyllidebol** cysylltiedig. |
| 2 | Datblygu **modelau gweithio'n lleol** a gweithio gyda phartneriaid i ymgorffori gwasanaethau mewn cymunedau a manteisio i'r eithaf ar adnoddau cymunedol. |
| 3 | Gweithredu **Fframweithiau Sicrwydd Ansawdd** ac ymarfer Seiliedig ar Gryfderau yn barhaus. |
| 4 | Gweithredu **cynlluniau gweithredu sy'n deillio o arolygiadau, archwiliadau ac adolygiadau rheoleiddiol.** |
| 5 | Gweithredu'r **system Eclipse** i gymryd lle'r system cofnodion cleientiaid CareFirst bresennol a chynnal adolygiad cysylltiedig o ymarfer a phrosesau. |

## Y 5 Blaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant

| | |
|---|---|
| 1 | Gweithredu Strategaeth Gwasanaethau Plant ar gyfer 2023-26 gyda ffocws parhaus ar newid y cydbwysedd mewn perthynas â:<br>a. **Lle** - Gweithredu'r Strategaeth Llety i fynd i'r afael â phroblemau o ran digonolrwydd lleoliadau.<br>b. **Pobl** - Gweithredu Cynllun Gweithredu'r Gweithlu i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw, gan gynnwys datblygu model gweithredu newydd.<br>c. **Ymarfer** - Gweithredu model ymarfer newydd i gefnogi gwaith cymdeithasol darbodus – gan sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol ond yn gwneud yr hyn na all neb arall ei wneud. |
| 2 | Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu llwybrau a model ar y cyd o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant sydd â **phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol difrifol.** |
| 3 | Gweithredu'r model **Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE)** ar draws y Gyfarwyddiaeth a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r cynnydd diweddar mewn trais ieuenctid difrifol. |
| 4 | Datblygu'r **Gwasanaeth Maethu mewnol** i ateb y galw am leoliadau a sicrhau bod gan ofalwyr maeth y sgiliau angenrheidiol i ofalu am blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. |
| 5 | Ymateb i'r niferoedd cynyddol o blant ag ystod o anghenion gan gynnwys **niwroamrywiaeth / anabledd dysgu / iechyd meddwl / ymddygiadau sy'n herio** a phrinder gwasanaethau priodol. |

## Y 5 Blaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion

| | |
|---|---|
| 1 | **Parhau i weithredu'r Strategaeth Heneiddio'n Dda** ar draws y gwasanaethau Pobl Hŷn, gan gynnwys ymgorffori gwasanaethau ataliol a gwaith Seiliedig ar Gryfderau ymhellach; gwella'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai; datblygu'r defnydd o dechnoleg ac offer; gwella'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr anffurfiol; ac adolygu ein gwasanaethau i'r rhai sydd â dementia. |
| 2 | Parhau i weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal a'r trydydd sector i **sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu'n gynaliadwy**, gan weithredu dull partner dibynadwy a cheisio llunio'r farchnad gofal o ddifri i ddiwallu anghenion nawr ac yn y dyfodol. |
| 3 | **Cefnogi llais a rheolaeth unigol** drwy wella mynediad at eiriolaeth a thaliadau uniongyrchol a chyflwyno hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol ar draws y gwasanaeth i sicrhau bod gwybodaeth ac egwyddorion yn cael eu hymgorffori'n ymarferol. |
| 4 | **Cynyddu'r ystod o opsiynau llety a chymorth lleol** gan gynnwys darparu mwy o wasanaethau lleol i bobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth, mwy o opsiynau llety i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl er mwyn caniatáu camu i lawr o ofal preswyl a datblygu prosiectau byw yn y gymuned i bobl hŷn sy'n cefnogi'r rhai sydd ag anghenion lefel uwch. |
| 5 | Gweithredu ein Strategaeth Gweithlu i sicrhau bod gennym **weithlu sy'n derbyn cymorth, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu priodol** i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth, gwella recriwtio a'n helpu i gadw staff. |



# 6 CANLYNIADAU AROLYGON

**Arolygiad o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid –** Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi (HMIP) arolygiad dilynol llawn o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2022. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2022 ochr yn ochr â Strategaeth Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ddiwygiedig, "Adeiladu dyfodol mwy diogel gyda'n gilydd", a chynllun gwella. O ganlyniad i'r arolygiad, nid yw Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd bellach yn cael ei ystyried yn wasanaeth statws blaenoriaeth. Mae'r gostyngiad lefel cyflawn hwn yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn dangos yr hyder sydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn y rheolwyr gweithredol ac uwch arweinwyr yng Nghaerdydd i barhau i ddarparu gwelliannau a chanlyniadau cadarnhaol i blant.

**Tŷ Storrie –** arolygwyd ein darpariaeth seibiant byr dros nos ar gyfer plant ag anableddau yn ystod y flwyddyn. Nododd adroddiad yr arolygiad fod *"Staff gofal yn gynnes a sylwgar, maen nhw'n hyrwyddo arosiadau hwyl i'r plant. Mae ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd gan rieni yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth a ddarperir i'w plant a mwynhad eu plant o'u seibiant byr yn y cartref."* Roedd yr adroddiad yn cydnabod ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd i'r gwasanaeth gyda'r rheolwr ac unigolyn cyfrifol yn newid, a chydag absenoldebau a swyddi gwag ymysg staff gofal. Rydym yn ceisio recriwtio i swyddi gwag, er nad yw hyn yn digwydd mor gyflym ag yr hoffem. Nododd yr adroddiad 5 maes gwella sy'n cael sylw fel mater o frys. Ni chyhoeddwyd unrhyw Hysbysiadau Gweithredu ar Flaenoriaeth o ganlyniad i'r arolygiad. Mae rhagor o wybodaeth am Tŷ Storrie ar gael ar dudalen 21.

**Falconwood –** mae'r datganiad o ddiben a gweithrediadau gwasanaeth ar gyfer Falconwood wedi newid yn ystod y flwyddyn ac mae bellach yn darparu gofal tymor canolig i hir i blant. Nododd adroddiad yr arolygiad fod *"gan y cartref awyrgylch croesawgar ac mae'n addas i'w bwrpas newydd. Mae staff gofal yn gynnes, yn sylwgar ac yn cymryd amser i gyfathrebu ac ymgysylltu â phlant ac annog cyfranogiad mewn gweithgareddau yn y cartref, yn y gymuned ac mewn addysg. Mae plant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud cynnydd a sicrhau canlyniadau cadarnhaol."* Roedd yr adroddiad yn cydnabod ei bod wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol ac er bod cynnydd wedi'i wneud ar rai meysydd a nodwyd ar gyfer gweithredu a gwella blaenoriaethol yn yr arolygiad diwethaf, ni chafodd rhai eu bodloni, a nodwyd 3 maes pellach i'w gwella. Mae'r rhain i gyd yn cael sylw ar frys. Ni chyhoeddwyd unrhyw Hysbysiadau Gweithredu ar Flaenoriaeth newydd o ganlyniad i'r arolygiad. Adolygwyd 4 Hysbysiad Gweithredu ar Flaenoriaeth o'r arolygiad blaenorol - cyflawnwyd 3 ac roedd 1 yn yr arfaeth (ac mae bellach wedi'i ddatrys).

**Arolygu gwasanaethau gofal cartref Adnoddau Cymunedol a Byw â Chymorth Mewnol –**
Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o'n Gwasanaethau Cartref: Adnoddau Cymunedol a Byw â Chymorth Mewnol ym mis Mehefin 2022. Roedd yr arolygiad yn cynnwys adolygiad o gynlluniau gofal defnyddwyr gwasanaeth, arolygon adborth a ddarparwyd gan staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth, trafodaethau dros y ffôn ac ymweliadau wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaeth, archwilio cydymffurfiaeth yn erbyn rheoliadau a darparu gwasanaethau gofal cartref yn ddiogel.
Canfu'r adroddiad arolygu fod cydymffurfiaeth reoleiddiol gyffredinol yn dda. Er i'r arolygiad nodi rhai meysydd y mae angen eu gwella, roedd y rhain yn feysydd lle roedd cynlluniau ar gyfer newid eisoes

ar waith. Canfu'r adroddiad fod trefniadau trefnu a llywodraethu cadarn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth ac yn darparu gofal a chymorth o ansawdd da gyda ffocws cryf ar ddatblygu a gwella. Yn bwysicaf oll, dangosodd yr adroddiad fod pobl yn ymddangos yn hapus gyda'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn, a bod eu hanghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol yn cael eu cydnabod a'u cefnogi. Canfu'r arolygiad fod gwasanaethau'n dangos ymrwymiad i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'w defnyddwyr gwasanaeth. Disgrifiodd yr Arolygydd y rhyngweithio rhwng pobl a staff fel cynnes a chadarnhaol, ac roedd yn cydnabod bod staff yn gyfarwydd ag anghenion a hoffterau'r unigolion y maent yn eu cefnogi.

**Llythyr Perfformiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol –** rydym yn rhagweld derbyn y llythyr perfformiad blynyddol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ôl y cyfarfod adolygu blynyddol yn ddiweddarach eleni.



7

# SUT MAE POBL YN LLUNIO EIN GWASANAETHAU?

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgysylltu **effeithiol** ac **ystyrlon** â phobl wrth wraidd ein gweithgarwch datblygu ac adolygu gwasanaethau. Drwy gynnig **amrywiaeth o wahanol weithgareddau ymgysylltu a chyfranogi** byddwn yn sicrhau bod unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt a'r rhai sy'n gofalu am bobl sy'n derbyn gwasanaethau yn cael cyfle gwirioneddol i gymryd rhan mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.

Mae enghreifftiau o sut mae pobl wedi cymryd rhan mewn gwaith i ddatblygu'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

## Gwasanaethau Plant

- Mae'r gwaith o ddatblygu **Fframwaith Cyfranogiad** - gyda mewnbwn gan grwpiau ymgynghori plant a rhieni - yn mynd rhagddo. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy benodi Gweithiwr Cyfranogiad pwrpasol llawn-amser.

- Rhoddwyd arolygon i rieni i gasglu eu barn yn dilyn cynadleddau amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ymateb yn isel a bydd **cyfranogiad rhieni** yn faes o ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn ystyried datblygu caffis rhieni ac yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â rhieni ar gyfer datblygu'r Fframwaith Cyfranogiad. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn ddatblygu **eiriolaeth rhieni** a'r defnydd o **gyfoedion rhieni.**

- Rhoddodd pobl ifanc adborth i lywio'r gwaith o ddatblygu'r **Strategaeth Gwasanaethau Plant ddiwygiedig.** Roedd yr adborth a ddarparwyd yn canolbwyntio ar beth oedd wedi gweithio'n dda, beth nad oedd wedi gweithio'n dda a beth oedd plant a phobl ifanc yn teimlo bod angen ei wella ar gyfer y dyfodol.

- Rydym yn parhau i weithredu'r **ap Mind of My Own** i gefnogi plant i gyfathrebu â ni, rhannu eu profiad byw a'n galluogi i gasglu eu barn yn y broses cynllunio gofal. Fel ar 31 Mawrth, mae 228 o blant a phobl ifanc wedi cofrestru ar gyfer yr ap Mind of My Own ac mae 245 o gyfrifon ymarferwyr wedi'u creu hefyd. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi derbyn 284 o ddatganiadau gan blant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn gweithio tuag at weithredu elfen Xchange Mind of My Own i ehangu ei ddefnydd i gynnwys pobl ifanc sy'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

- Ar gyfer Wythnos Gofalwyr 2022, cyfarfu'r YMCA (ein darparwr gwasanaeth ar gyfer gofalwyr ifanc) â'n **gofalwyr ifanc** i ddysgu beth roedden nhw eisiau ei wneud yn y prosiect dros y misoedd nesaf. Roedd y syniadau'n amrywio o weithgareddau teuluol i glwb ieuenctid a llawer o gyfleoedd seibiant, ac roedd yr wythnos yn llwyddiant mawr.

- Derbyniodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod y flwyddyn i ddarparu rhaglen 3 blynedd sy'n ceisio gwella canlyniadau ac atal troseddu i blant sydd ar drothwy'r system cyfiawnder ieuenctid ac nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cymorth statudol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen o dan yr enw **"Croesffyrdd",** a ddewiswyd gan bobl ifanc.

- **Grŵp Bright Sparks -** mae gwaith yn parhau gyda'r grŵp sefydledig hwn o blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal, sy'n parhau i gymryd rhan mewn datblygiadau gwasanaeth a pholisi gyda chymorth ein darparwr eiriolaeth, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). Mae enghreifftiau o ymgysylltu â'r grŵp hwn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:
  - o Cynllunio'r seremoni **Gwobrau Bright Sparks** flynyddol – wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers cyn y pandemig COVID-19. Roedd y seremoni'n cynnwys perfformiadau gan ein pobl ifanc ac roedd yn llwyddiant mawr.
  - o Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Gwerthuso **Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd** ar gyfer menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF. Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, gwnaethant rannu eu harbenigedd gydag arbenigwyr Hawliau Plant eraill a gwerthuso ble mae Caerdydd ar ei thaith i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant.
  - o Rhoi adborth ar gyfer ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar **elw mewn gofal cymdeithasol,** sy'n cynnwys cynnig sydd ond yn caniatáu i ddarparwyr dielw gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu.
  - o Hwylusodd ein cynrychiolaeth yn Voices from Care Cymru **Uwchgynhadledd Profiad Gofal.** Rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle i fynychwyr ddisgrifio eu profiadau'n uniongyrchol i Brif Weinidog Cymru a Gweinidogion eraill gan gynnwys y Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Gweithiodd y plant a'r bobl ifanc gyda'i gilydd i ddatblygu Datganiad yn nodi sut olwg fyddai ar system gofal ddiwygiedig. Cyhoeddir hyn yn ddiweddarach yn 2023.
  - o Datblygu a chynllunio r**haglen "Haf o Hwyl"** a oedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, bwyd a gemau i helpu i greu atgofion gwerthfawr i'n pobl ifanc. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys mynediad i brif safle'r ŵyl, hyfforddiant beicio a pharc antur dŵr.

- Datblygwyd fersiwn pobl ifanc o'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol (sy'n nodi 5 blaenoriaeth allweddol yn seiliedig ar farn bersonol a phrofiadau plant sy'n derbyn gofal) yn dilyn gweithdy dylunio digidol gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid ac aelodau o'r Grŵp Bright Sparks.

- Cyhoeddwyd 2 arolwg oedran-briodol i gael adborth gan bobl ifanc am eu **dyheadau ar gyfer y dyfodol.** Cynlluniwyd yr arolygon i roi cipolwg i Addewid Caerdydd ar ddiddordebau ac ymgysylltiad â gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith i ddarparu cyfleoedd gwaith penodol a thargedig yn seiliedig ar adborth pobl ifanc.

- Ymgysylltodd grŵp o unigolion a oedd yn gadael gofal, a gefnogir gan y Gwasanaeth i Mewn i Waith, â chwmni adeiladu lleol i ddatblygu **gweithdy DIY** i'w helpu i ddysgu sgiliau a fydd yn eu cefnogi i fyw'n annibynnol.

- Cyflwynwyd 2 sesiwn hyfforddi ar-lein i **Aelodau Etholedig** - roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys clywed barn a dymuniadau plant a phobl ifanc am yr hyn yr hoffent ei weld gan Gynghorwyr fel Rhieni Corfforaethol.

- Cynhaliwyd 3 sesiwn hyfforddi ychwanegol gydag aelodau o'r **Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol** - roedd y sesiynau hyn yn cynnwys trafodaeth ynghylch sut y gall plant a phobl ifanc fod yn rhan o waith y Pwyllgor mewn ffordd hwyl a diddorol yn unol â safon Cyfranogiad Cenedlaethol. Archwiliwyd hyn ymhellach mewn sesiwn ymgysylltu a gynhaliwyd gyda phobl ifanc ac aelodau'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol.

- Cymerodd plant a phobl ifanc o'r grŵp Bright Sparks ran yn y gwaith o **recriwtio** rheolwyr cartrefi preswyl a'r Pennaeth Rhithwir newydd. Cefnogodd y Rheolwr Cyfranogiad y bobl ifanc i ddadansoddi'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person, ac i ddatblygu cyfres o gwestiynau iddynt ofyn i ymgeiswyr.

## Gwasanaethau Oedolion

### Ymgynghoriad ar gartref newydd i Dŷ Canna

Cafodd defnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr ac aelodau staff yng nghanolfan ddydd iechyd meddwl Tŷ Canna gyfle i gwrdd â Thîm Datblygu ac Adfywio Cyngor Caerdydd i drafod cynlluniau ar gyfer adeilad newydd Tŷ Canna. Mae'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad ar gam cynnar iawn, ond roedd y cyfarfod yn gyfle i ddefnyddwyr Tŷ Canna ofyn unrhyw gwestiynau neu godi unrhyw bryderon sydd ganddynt, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddatblygu'r adeilad newydd. Roedd hefyd yn gyfle i'r rhai a ddyluniodd yr adeilad ddeall anghenion y rhai a fydd yn ei ddefnyddio.

### Gwasanaethau Byw'n Annibynnol

Mae arolygon boddhad cwsmeriaid a ddarperir gan y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol (GBA) yn rhoi cyfle i ddinasyddion roi adborth am wasanaethau sy'n cael eu derbyn a helpu i lunio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae hyn yn galluogi'r GBA i fonitro ansawdd gwasanaethau a phrofiad dinasyddion sy'n ein galluogi i wella sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a dangos effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ar fywydau dinasyddion. Yn 2022/23:

- o Roedd 96 % o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn gallu byw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi yn dilyn cymorth gan y GBA.
- o Roedd 97 % yn teimlo y bydd gwasanaethau a nodwyd yn gwella ansawdd eu bywyd.
- o Roedd 99 % o gwsmeriaid yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y GBA.
- o Nododd 99 % o bobl fod eu lles wedi gwella ar ôl ymyrraeth gan dîm ymweld o'r GBA.

## Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) (Gofal Cartref)

### Adborth gan Unigolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ac Aelodau o'u Teuluoedd

Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) yn cwblhau arolygon ymadael gyda'r rhai y maent wedi darparu gofal iddynt ac aelodau o'u teulu. Fel arfer, mae'r gwasanaeth TAC yn derbyn adborth rhagorol gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn 2022/23 cafwyd yr adborth canlynol:

| Sgôr y gwasanaeth a ddarperir gan TAC Gofal Cartref, 1 yn wael a 10 yn rhagorol. | Canran y defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn teimlo eu bod wedi'u galluogi i fyw'n fwy annibynnol o ganlyniad i'w cefnogaeth TAC Gofal Cartref. | Canran y defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y gofalwyr a oedd yn eu cefnogi. |
|---|---|---|
| **9.1** | **88.1%** | **98.9%** |

### Ymgynghoriad ar Gynlluniau'r Dyfodol ar gyfer Byw â Chymorth Mewnol

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2022/23 gyda staff a theuluoedd defnyddwyr gwasanaeth ar newidiadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Byw â Chymorth Mewnol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae'r cynigion ar gyfer newid yn cynnwys gwella ac ailffocysu'r Gwasanaeth Byw â Chymorth mewnol, tra byddai 4 cynllun yn symud i ddarparwyr trydydd sector sydd ag arbenigedd arbenigol yn y maes hwn.

Cynhaliwyd sesiynau briffio gydag aelodau'r teulu ac roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol. Er eu bod yn naturiol yn poeni am effaith unrhyw newid, cafodd aelodau'r teulu sicrwydd y byddai eu hanwyliaid yn aros yn eu cartref eu hunain ac y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu datblygu mewn ffordd ac ar gyflymder sydd hefyd yn adlewyrchu angen unigol.

Wrth baratoi ar gyfer trafodaethau gydag unigolion a gefnogir, cafwyd cyngor gan y Tîm Lleferydd ac Iaith a darparwyr Eiriolaeth, ac mae gwaith wedi dechrau i ystyried y ffordd fwyaf priodol y gall unigolion a gefnogir fod yn rhan o drafodaethau ynghylch y newidiadau fel y gellir eu cefnogi i gymryd rhan weithredol yn natblygiad eu cynlluniau pontio.

Mae adborth gan ein staff wedi bod yn galonogol ac mae llawer o aelodau staff wedi mynegi optimistiaeth am y dyfodol a'r datblygiadau arfaethedig.

**Ymgysylltu â Darparwyr Gofal:**
Trwy gydol 2022/23, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi parhau i gynnal fforymau darparwyr chwarterol ar gyfer darparwyr Gofal Cartref a Chartrefi Gofal. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cyfarfod yn fisol gydag aelodau pwyllgor cymdeithasau cartrefi gofal.

Cynhaliwyd ymarfer cost gofal ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn a defnyddiwyd adborth ar gostau cartrefi gofal i lywio'r broses codi ffioedd.

Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu â'r farchnad gyda darparwyr i lywio dyluniad gwasanaethau i gefnogi pwysau'r gaeaf a rhyddhau cleifion o'r ysbyty – gan arwain at fframwaith ymateb cyflym Rhyddhau i Adfer ac Asesu (RhAA) llwyddiannus iawn ar gyfer Gofal Cartref. Gwnaed gwaith partneriaeth rhagorol gyda darparwr cartref gofal i ddylunio a gweithredu uned ailalluogi newydd i gynorthwyo gyda rhyddhau o'r ysbyty.

**Arolwg Gofalu am Ofalwyr**
Cynhaliwyd ymgynghoriad Gofalu am Ofalwyr yn 2022/23. Cafodd yr ymgynghoriad ei dargedu at y gofalwyr di-dâl eu hunain a hefyd sefydliadau sy'n darparu neu'n atgyfeirio at wasanaethau seibiant. Y nod oedd dysgu mwy am fywydau gofalwyr di-dâl a pha opsiynau sydd ar gael yng Nghaerdydd iddynt gymryd seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu, yn ogystal â rhoi mewnwelediad dyfnach i'r rhwystrau a'r heriau y gallent eu hwynebu wrth gymryd seibiant. Ymatebodd 656 o ofalwyr i'r arolwg. Cafwyd adborth defnyddiol iawn gan ofalwyr ac mae canfyddiadau'r arolwg wedi'u bwydo i mewn i Gynllun Gweithredu Gofalwyr Di-dâl Caerdydd. Mae'r canfyddiadau allweddol i'w gweld isod:

**Iechyd (corfforol a meddyliol)**
Dangosodd yr arolwg y problemau iechyd sy'n wynebu gofalwyr di-dâl yng Nghaerdydd. Mae 20.4% yn uniaethu fel person anabl eu hunain. Mae ymgyrchoedd iechyd targedig a gwaith partneriaeth â sefydliadau iechyd a thrydydd sector i gefnogi gofalwyr di-dâl bellach wedi dod yn faes blaenoriaeth allweddol.

**Adeiladu ymddiriedaeth a hyder mewn perthynas â seibiant**
Mewn ymateb i'r cwestiwn, "Os nad ydych wedi defnyddio unrhyw wasanaethau sy'n eich galluogi i gymryd seibiant o'ch trefn arferol o ofalu am eich perthynas neu ffrind, dywedwch wrthym pam", dau o'r rhesymau mwyaf cyffredin oedd:

- 'Nid yw'r person rwy'n gofalu amdano eisiau derbyn gofal gan unrhyw un arall' (44.8%)
- 'Dydw i ddim eisiau gadael fy ffrind neu berthynas gydag unrhyw un arall' (27.3%)

Daeth yn amlwg bod angen gwneud gwaith i fagu hyder gofalwyr yn ogystal â lleddfu pryderon y person y maent yn gofalu amdano. Mae camau gweithredu wedi'u hychwanegu at y Cynllun Gweithredu Gofalwyr Di-dâl gyda'r nod o ddatblygu'r ymddiriedaeth yma ac annog gofalwyr di-dâl i fanteisio ar wasanaethau.

**Cynllunio at Argyfwng**
Dim ond 38% o'r ymatebwyr oedd â chynllun gofal brys / wrth gefn ar waith. Felly mae cynllunio brys wedi cael ei gydnabod fel blaenoriaeth wrth symud ymlaen.

# DYFYNIADAU

**Effaith digwyddiadau teuluol Gofalwyr Ifanc:**

*"Helo. Jyst eisiau dweud diolch yn fawr. Cawsom amser gwych fel teulu ac mae hynny'n anghyffredin i ni. Aeth fy mab R, sy'n awtistig, i lawr y sleid ar ei ben ei hun am y tro cyntaf a oedd yn gam enfawr."*

**Person Ifanc wrth Weithiwr Cymdeithasol:**

*Diolch am fod y gweithiwr cymdeithasol gorau erioed a'r person mwyaf anhygoel. Rwyt ti wedi fy helpu gymaint ac rydw i mor falch 'mod i wedi dy gael di fel gweithiwr cymdeithasol neu fel arall byddwn i ar goll. Pob lwc gyda'r swydd newydd, rwyt ti'n mynd i wneud yn dda iawn wrth gwrs, ond alli di byth cael ffefryn newydd - all neb gymryd fy lle i lol. Rydw i'n mynd i geisio canolbwyntio a chyflawni fy nodau, byddaf i bob amser yn cofio popeth yr oedden ni'n siarad amdano, ac yn edrych yn ôl arno pan fydda i'n teimlo'n isel neu ar goll. Rwy'n mynd i weld dy eisiau di gymaint! Diolch am ddod â phositifrwydd i fy mywyd. Rwy'n gwybod dy fod yn mynd i newid llawer o fywydau, ac mae unrhyw un sy'n cael gweithio gyda ti yn lwcus iawn i gael gweithiwr cymdeithasol mor wych. Rwyt ti mor gymwynasgar a charedig - wir, roeddwn i'n casáu gweithwyr cymdeithasol cyn ti. Rwy'n dymuno'r gorau i ti!!! :))*

**Effaith ar blant a theulu (adborth gan Swyddog Adolygu Cynllun Gofal a Chymorth):**

*Roedd yn bleser cael cadeirio cyfarfod gyda rhiant yn canu clodydd y person a oedd wedi ei helpu i weithio drwy broblemau anodd a phersonol iawn, i'w helpu i gael ei bywyd yn ôl. Roedd y sefyllfa deuluol yn hynod gymhleth ond llwyddodd J i feithrin ymddiriedaeth gyda Mam a wnaeth eu galluogi i gynnal sgyrsiau heriol iawn yr oedd angen gweithio drwyddynt. Oherwydd arferion ac ymagwedd ofalgar J, bu'n bosibl i Mam allu edrych a gweithio drwy'r hyn oedd ei angen er mwyn i'w merch ddychwelyd adref i'w gofal. Heb J yn cydweithio gyda'r gweithiwr cymdeithasol o'r Gwasanaethau Plant, roedd hi'n anodd gweld sut y gallai'r fam a'r ferch fod wedi dod yn ôl at ei gilydd. Roedd yn wych gwrando ar y fam yn siarad am y gwasanaeth a ddarparwyd gan J (gweithiwr cymdeithasol oedolion) a K (gweithiwr cymdeithasol plant) yn y cyfarfod. Mae'r cydweithio yma wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywyd y teulu hwn. Dywedodd Mam yn y cyfarfod...."Rwy'n hynod ddiolchgar i J am y gwaith maen nhw wedi'i gwblhau oherwydd mae'r berthynas hon a pherthynas fy merch gyda J wedi fy helpu i ymddiried mewn Gofal Cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol eto."*

**Rhiant wrth Weithiwr Cymdeithasol Gwasanaethau Plant:**

*'Diolch am bopeth. Fydden ni ddim wedi dod mor bell â hyn hebddoch chi. Rwy'n gwerthfawrogi popeth rydych chi wedi'i wneud.'*

*'Diolch am eich holl help, rydych chi wedi bod yn wych. Mae wir wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i fywyd ein teulu a diolch i chi am wrando arna i, hyd yn oed pan oeddwn i'n colli fy nhymer, ac am fod yn gefn i fi pan oeddwn ni'n delio gyda'r ysgol. O'r diwedd dwi'n teimlo bod rhywun wedi deall fy mhryderon'.*

*'Diolch am eich holl gymorth a chefnogaeth - rwy'n ei werthfawrogi a byddaf i'n gweld eisiau eich cefnogaeth. Diolch.'*

**Asiantaeth Allanol mewn perthynas â Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd yn y Gwasanaethau Plant:**

*Jyst eisiau dweud diolch am eich holl gymorth dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi gweld gwelliant enfawr yn y teulu a'u lles. Rydych chi wedi gwneud gwaith anhygoel yn cefnogi'r teulu hwn ac mae'n gymaint o drueni na allwch chi aros o gwmpas am byth!! Mae'r eiddo wedi cael ei droi'n gartref ers i chi ddod i mewn, mae'r teulu'n ymddangos yn fwy cyfforddus a hapus ac mae'n amlwg iawn eu bod yn eithriadol o hapus gyda'r cymorth y maent i gyd wedi ei gael. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi eto yn y dyfodol a diolch eto am eich holl gefnogaeth. Gobeithio y gallwch anfon yr e-bost hwn ymlaen at eich rheolwr - mae'n braf i chi gael eich cydnabod am yr holl waith gwych rydych chi'n ei wneud a'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud i fywydau pobl.*

**Gofalwr Maeth am Weithiwr Cymdeithasol Maethu yn y Gwasanaethau Plant**

*Mae'r e-bost hwn yn ymwneud ag R, ac rydym am i chi a'r rheolwyr wybod pa mor ddiolchgar ydyn ni i'r Gwasanaethau Maethu am aseinio'r ddynes anhygoel hon i ni drwy gydol gofal S a thu hwnt. Rydym yn edmygu ac yn diolch am y gwaith mae R wedi'i wneud i'n cefnogi gyda chefnogaeth ac anogaeth gyson. Mae hi wedi bod yn graig. Mae R wedi bod yn gwbl ymrwymedig, yn gwbl gyson, yn gwbl gefnogol ac yn gwbl gynhwysfawr yn ei hymagwedd a'i gofal i ni a'r plant sydd wedi bod yn ein gofal, yn enwedig drwy'r pandemig. Mae R wedi bod yn dŵr cadarn o gefnogaeth ac anogaeth. Mae R wir yn Ddynes o Werth. Mae hi'n ofalgar ac yn gryf, yn reddfol, mae ganddi ddealltwriaeth, uniondeb gwych, mae ganddi ehangder o wybodaeth ac mae'n gallu dod ag eglurder i sefyllfaoedd anodd. Roedd ein taith gydag S yn anhygoel a gwnaethom ni fwynhau pob eiliad, ond roedd yn heriol, roedd ei sefyllfa'n gymhleth ac roedd llawer o weithwyr iechyd proffesiynol yn rhan o'i ofal. Roedd y gefnogaeth gref a chyson a gawsom gan R yn gefn i ni ac yn ein cadw ar y trywydd iawn. Mae gan R empathi anhygoel hefyd, ac mae wedi ein cefnogi drwy golli aelod agos o'r teulu. Fyddwn ni byth yn anghofio'r caredigrwydd a'r gefnogaeth a roddodd i ni yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydyn ni wir wedi mwynhau gweithio gydag R, a'r tîm Gwasanaethau Maethu.*

**Aelod o deulu defnyddiwr gwasanaeth wrth Weithiwr Cymdeithasol:**

*"Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy ngwerthfawrogiad mawr am y gofal a'r cymorth eithriadol a roddwyd gan y gweithiwr cymdeithasol. Cafodd fy nhad, sydd wedi bod yn anabl ers cael strôc, ymweliad yn ddiweddar gan y Gweithiwr Cymdeithasol a ddaeth i werthuso ei anghenion gofal. Gwnaeth ei thosturi, ei hempathi a thrylwyredd ei gwerthusiad argraff fawr arnaf."*

**Aelod o deulu defnyddiwr gwasanaeth yn y Gwasanaethau Oedolion:**

*"Aeth y Gweithiwr Cymdeithasol ymhell y tu hwnt i'w dyletswyddau ac roedd hi'n cadw mewn cysylltiad â ni yn aml trwy e-bost a dros y ffôn i roi'r newyddion diweddaraf i ni am y cynnydd. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am ei gofal. Yn ddiweddar yn y cyfryngau, nid yw'r sector gofal cymdeithasol bob amser yn cael ei bortreadu'n gadarnhaol, ond cefais i a fy nhad brofiad cadarnhaol iawn gyda'r gweithiwr cymdeithasol. Credaf ei bod yn ased gwirioneddol i'r cyngor, ac rwy'n gobeithio y caiff ei hymdrechion eu cydnabod a'u gwerthfawrogi."*

**Gofalwr Di-dâl defnyddiwr gwasanaeth mewn Hyb Gofal:**

*"Mae'r caffi dementia yn hyfryd gan fy mod i'n ofalwr ac yn hoffi cwrdd ag eraill mewn sefyllfa debyg. Er bod y niferoedd yn fach, rwy'n dal i deimlo 'mod i wedi cael fy ngweld diolch i'r digwyddiad hwn."*

**Dinesydd i staff yn y Tîm Adnoddau Cymunedol:**

*"I'r holl ofalwyr ddaeth i helpu tra roedd fy ngŵr gartref, hoffwn ddiolch o waelod calon i chi am yr help ymarferol, y cyngor i'n cysuro, a'r gefnogaeth ofalgar a roesoch i ni. Eich gwasanaeth chi oedd yr unig wasanaeth a wnaeth fy helpu ac ymateb i mi pan nad oeddwn i'n gwybod beth i'w wneud a phan roedd angen help arna i. Fe wnaethoch chi ateb y ffôn, ceisio helpu hyd yn oed os oedd yn golygu peidio â chadw'n gaeth at yr amserlen, ac roedd gofalwyr yn cyrraedd gyda'r holl wybodaeth am sefyllfa'r diwrnod hwnnw ac yn barod i helpu. Dylech chi fod yn falch iawn o'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu, diolch i chi i gyd."*

*"Fyddwn i ddim wedi gallu aros gartref heb y tîm hwn. Dydw i ddim fel arfer yn derbyn gofal, ond roedd y tîm hwn mor garedig a phroffesiynol; fe wnaethon nhw wahaniaeth mawr ar adeg anodd."*

**Defnyddiwr gwasanaeth Cyfleoedd Dydd:**

*"Gwasanaeth gwych. Roedd Tracey yn anhygoel. Wnaeth hi ddim gwneud i fi deimlo'n anabl o gwbl ac roeddwn i'n hyderus iawn ac yn gartrefol yn ei chwmni (mewn bywyd arall dwi'n credu y byddai hi'n ffrind!). Fe wnes i fwynhau'r dosbarthiadau a chael coffi, ac rydw i wedi parhau i'w mynychu. Doeddwn i ddim yn gwybod faint oedd mas 'na ac rwy'n teimlo'n llawer llai unig nawr. Mae bywyd wedi bod yn eithaf heriol yn ddiweddar ac mae Tracey wedi fy helpu'n aruthrol."*

*"Rydych chi wedi gwneud i fi deimlo fel plentyn mewn parti; rwy'n llawn llawenydd wrth feddwl am gael fy annibyniaeth a'm hyder yn ôl. Mae gen i obaith ar gyfer y dyfodol."*

**Defnyddwyr gwasanaeth y Gwasanaeth Cymorth Lles:**

*"Pan fu farw fy ngwraig fe ddes i'n feudwy a do'n i ddim yn mynd allan o gwbl, ro'n i'n eistedd yn gwneud dim byd, ddim yn siarad â neb. Fe ddes i o hyd i'r hyb ar fy stryd a dechrau galw draw. Dwi wedi cael fy nghroesawu â breichiau agored a dwi bellach yn helpu gyda'r garddio sy'n dod â hyder i fi gan fy mod i'n gwybod beth dwi'n ei wneud. Dwi hefyd yn mynd i hybiau eraill ac yn gwneud pethau eraill fel Tai Chi. Dwi'n fwy heini, a nawr yn siarad â phobl mwy. Roedd fy merch yn poeni y byddwn i'n mynd ymhellach i'm cragen ond diolch i'r hyn rydych chi'n ei wneud a'r cyngor rydych chi'n ei roi mae hi'n hapus, a fi hefyd."*

## Canmoliaeth, Cwynion a Sylwadau

Mae cwynion yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth sy'n galluogi dealltwriaeth, dysgu a myfyrio mewn perthynas â phrofiad pobl o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ystod 2022/23, cofnodwyd 685 o achosion o adborth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr oedd 334 ohonynt yn ganmoliaeth a 351 yn gwynion. Mae hon yn sefyllfa debyg o gymharu â 2021/22. Aeth 14 cwyn ymlaen i Gam 2 (o 10 yn 2021/22).

| | 2021/22 | 2022/23 | Gwahaniaeth % |
|---|---|---|---|
| **Canmoliaethau** | 339 | 334 | -1.5% |
| **Cwynion** | 363 | 351 | -3.3% |

Mae cwynion bellach yn cael eu rheoli ar wahân gan dimau cwynion penodol o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant a'r Gyfarwyddiaeth Oedolion, Tai a Chymunedau. Mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu cynlluniau gweithredu wedi'u teilwra mewn ymateb i gwynion sy'n berthnasol i bob Cyfarwyddiaeth, ac i fwydo dysgu o gwynion yn ôl yn well i mewn i brosesau Sicrwydd Ansawdd y Gyfarwyddiaeth unigol.

Derbyniodd y Gwasanaethau Plant 236 o gwynion (ynghyd â 52 mater ychwanegol a gafodd eu datrys drwy ein proses llwybr carlam cyn iddynt gael eu huwchgyfeirio i fod yn gwynion) a 176 o ganmoliaethau yn ystod y flwyddyn. Aeth 6 cwyn ymlaen i Gam 2. Mae'r 236 o gwynion yn cynrychioli 6.5% o gyfanswm y plant, pobl ifanc a theuluoedd (3,635) a gefnogwyd, a dim ond 0.5% o gyfanswm y cysylltiadau a dderbyniwyd ar draws y Gwasanaethau Plant (45,264). Y themâu allweddol sy'n codi o gwynion yw penderfyniadau dadleuol (20%), safon gyffredinol y gwasanaeth (19%) a materion cyfathrebu (17%). O'r 39 cwyn a dderbyniwyd am gyfathrebu, dim ond 4 gafodd eu cadarnhau.

Mewn ymateb i'r adborth hwn, rydym yn parhau i ddatblygu a gweithredu ein Fframwaith Sicrwydd Ansawdd gyda ffocws ar ymgorffori proses archwilio achosion gref. Tua diwedd y flwyddyn cynhaliwyd sesiwn ymarfer archwilio safonau gyda Rheolwyr Gweithredol a Thîm. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i reolwyr rannu eu dulliau o gynnal archwiliadau a datblygu cysondeb yn y broses archwilio achosion. Mae cynllun ar waith i barhau â'r dull hwn yn 2023/24.

Mae'r Tîm Sicrwydd Ansawdd yn parhau i gynhyrchu dogfennau canllaw ymarfer ar gyfer y Gyfarwyddiaeth ac yn cynnal archwiliadau thematig i lywio datblygiad dysgu/ymarfer parhaus. Mae gweithdai gyda staff wedi'u trefnu i sicrhau ein bod yn cau'r ddolen ac yn bwydo'r dysgu yn ôl i'r gweithlu.

Lluniwyd cynllun gweithredu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer 2023/24 i ddod â dysgu ac argymhellion o weithgarwch Sicrwydd Ansawdd ynghyd ac i ystyried newidiadau arfaethedig i fodel gweithredu'r Gyfarwyddiaeth. O dan y model gweithredu newydd, rydym yn ystyried cyflwyno Tîm Mewnwelediad – i ddod â Sicrwydd Ansawdd, arweinwyr ymarfer a chwynion / canmoliaethau at ei gilydd. Bydd hyn yn ein galluogi i ymgorffori fframwaith cadarn ar gyfer nodi problemau ac arfer da, dysgu gwersi a bwydo hyn yn ôl i ymarfer a datblygiad gwasanaethau. Er nad ydym o reidrwydd eisiau gweld gostyngiad yn nifer y cwynion a dderbynnir, gan ein bod am sicrhau bod gan bobl lais, rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl ifanc a gostyngiad yn nifer y cwynion sy'n cael eu cadarnhau.

Mae'r Gwasanaethau Plant yn parhau i wella'r cymorth i bobl ifanc gael mynediad at eiriolwyr, gan eu galluogi i fynegi cwynion a phryderon a'u hannog i rannu eu safbwyntiau. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd 33 cwyn yn uniongyrchol gan bobl ifanc (gan gynnwys y rhai a gefnogir gan eiriolwr). Mae hyn yn cymharu â 30 yn 2021/22. Gyda ffocws parhaus ar hawliau plant a chefnogi pobl ifanc i roi adborth i ni, rydym yn gobeithio gweld y ffigur hwn yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Derbyniodd y Gwasanaethau Oedolion 115 o gwynion, gydag 8 yn mynd ymlaen i Gam 2, a 158 o ganmoliaethau yn ystod y flwyddyn. Mae'r 115 cwyn yn cynrychioli 1.6% o gyfanswm nifer y dinasyddion a gefnogwyd ar draws y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol (7,045). O'r rhain cadarnhawyd cyfanswm o 29, sef 23% o'r holl gwynion a dderbyniwyd. Yn ogystal, goruchwyliodd y tîm 26 o 'gwynion annilys'. Themâu allweddol sy'n codi o gwynion yw cyfathrebu a pherthnasoedd (31%), oedi o ran mynediad at wasanaethau (15%) a phroblemau gyda gwasanaethau a gomisiynir (14%). O'r 38 cwyn ynglŷn â chyfathrebu a pherthnasoedd, dim ond 7 o'r rhain a gafodd eu cadarnhau.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cynnydd mewn achosion cymhleth eleni yn ymwneud â'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau am ymchwiliad Cam 2. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau o'r rhain wedi cefnogi canlyniadau Cam 1, gan nodi, er nad yw'r achwynwyr wedi bod yn fodlon â'r canfyddiadau, bod yr ymchwiliadau gwreiddiol wedi nodi'r canlyniad priodol.

Rydym yn dysgu o gwynion i wella ein gwasanaethau. Er bod y pwysau ar dimau gwaith cymdeithasol wedi arwain at rai achosion o oedi, rydym yn adolygu cyfleoedd yn barhaus i leihau amseroedd aros. Rydym wedi cyflwyno capasiti ychwanegol drwy gomisiynu gwasanaeth asesu gwaith cymdeithasol; gwella ein trefniadau recriwtio; a chyflwyno Taliad Atodol ar Sail y Farchnad ar gyfer ein gweithwyr cymdeithasol oedolion i wella recriwtio a chadw. Rydym hefyd wedi adolygu'r cysylltiadau rhwng y timau ysbyty a'r timau cymuned i leihau oedi a chyflwyno llwybrau clir ar gyfer Rhyddhau i Asesu, er mwyn atal oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a rhoi cyfle i unigolion gael eu hasesu mewn amgylchedd mwy priodol. Mae adborth o gwynion yn cael ei ddefnyddio i lywio cynlluniau hyfforddi, gweithgareddau sicrhau ansawdd a datblygiad polisi.

Disgwylir i ddull gweithredu gwasanaeth cyfan o ymgorffori "Cyfathrebu Cydweithredol" ac arfer Seiliedig ar Gryfderau i mewn i'r Gwasanaethau Oedolion, gyda chefnogaeth mentora a chyfleoedd ar gyfer ymarfer myfyriol, gael effaith gadarnhaol ar y ffordd y cynhelir asesiadau a'r perthnasoedd sydd gan weithwyr cymdeithasol ag unigolion sy'n derbyn gwasanaethau. Yn ogystal, mae gwaith wedi'i wneud i gryfhau'r dull gweithredu pan mae materion yn codi gyda pherfformiad ein gwasanaethau gofal a gomisiynir gyda strwythurau ffurfiol clir ar waith i fynd i'r afael â'r rhain yn rhagweithiol mewn modd amserol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adroddiad Adborth Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23 sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad i'r adroddiad hwn.

# 8 HYRWYDDO A GWELLA LLES Y RHEINI YR YDYM YN EU HELPU

## GWEITHIO GYDA PHOBL I DDIFFINIO A CHYD-GYNHYRCHU CANLYNIADAU LLES PERSONOL Y MAE POBL AM EU CYFLAWNI

**Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn**

| | |
|---|---|
| ✓ | Adnodd pwrpasol i yrru cyfranogiad wedi'i sicrhau trwy benodi Gweithiwr Cyfranogiad yn y Gwasanaethau Plant. |
| ✓ | Cyfleoedd parhaus i bob plentyn a pherson ifanc gael llais a rhannu eu profiad byw â ni trwy'r ap Mind of My Own. |
| ✓ | Gwell cyfleoedd i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd fynychu digwyddiadau hwyl gyda'i gilydd – fel cynyrchiadau theatr, sglefrio iâ a diwrnodau hwyl i'r teulu. |
| ✓ | Gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth i sicrhau'r gefnogaeth gywir gan y person cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir gyda gweithrediad parhaus y Ganolfan Ymyriadau yn y Gwasanaethau Plant. |
| ✓ | Gwelliant parhaus o ran cynnwys teuluoedd yn y broses Llys drwy'r cynllun peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol. |
| ✓ | Cyfleoedd parhaus i bobl ifanc â phrofiad o ofal weithio gyda ni i lunio ein gwasanaethau trwy'r Grŵp Bright Sparks (gweler tudalen 47). |
| ✓ | Cyfrannodd y Grŵp Bright Sparks at ddatblygu a chynllunio rhaglen "Haf o Hwyl" a oedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, bwyd a gemau i helpu i greu atgofion gwerthfawr i'n pobl ifanc. |
| ✓ | Gwnaeth y tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf barhau i ddarparu cyngor a gwybodaeth glir - gan ddelio â 36,757 o gysylltiadau cwsmeriaid gan gynnwys bron i 16,000 o alwadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth. |
| ✓ | Cefnogwyd dinasyddion i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain gyda 2,788 o asesiadau'n cael eu cwblhau gan y tîm ymweld Byw'n Annibynnol. |
| ✓ | Roedd 93 % o gleientiaid yn teimlo eu bod yn gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi yn dilyn cefnogaeth y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol. |
| ✓ | Cafodd y tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf hyfforddiant pellach gan eu galluogi i ragnodi offer diogelwch lefel isel. |
| ✓ | Nodwyd a hyrwyddwyd arfer da wrth hyrwyddo canlyniadau lles pobl sy'n byw gyda dementia. |
| ✓ | Gweithredwyd y teclyn hunanasesu ar-lein AskSara. |

## Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r broses Taliadau Uniongyrchol a nodwyd gwelliannau. |
| ✓ | Mae partneriaeth gyda Catalyddion Cymunedol wedi'i sefydlu i helpu i ddatblygu microfentrau i gefnogi mwy o ddefnydd o daliadau uniongyrchol. |
| ✓ | Bellach mae gennym swydd Hyfforddwr Seiliedig ar Gryfderau bwrpasol i ymwreiddio gwaith Seiliedig ar Gryfderau a chyfathrebu cydweithredol yn llawn gyda'n defnyddwyr gwasanaeth. |

| Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23 |
|---|
| Ymsefydlu **gwaith cymdeithasol Seiliedig ar Gryfderau** sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau |
| **Grymuso ein gweithwyr cymdeithasol a'n timau Byw'n Annibynnol** i ragnodi addasiadau ac offer lefel isel |

| Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi |
|---|
| **Fframwaith Cyfranogiad** ar gyfer Gwasanaethau Plant |
| Ymgysylltiad pobl ifanc wrth **bontio i fod yn oedolion** |
| Gwella **Gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol** |
| **Cynllun** peilot **Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol** |
| Adeiladu ar ein **Gwasanaeth Pwynt Cyswllt Cyntaf i'w wneud y llwybr sengl at wasanaethau** |
| Adolygiad o'r broses **Asesu Gofalwyr** |
| Comisiynu **contractau eiriolaeth newydd** |

### Astudiaeth Achos – Cymorth Cynnar / Canolfan Adolygu

*Mae B yn blentyn ifanc a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ddiweddar. Mae ei mam yn ei harddegau ac roedd hi'n ei chael hi'n anodd gofalu am B, ac nid oedd yn llwyddo i reoli ei phroblemau iechyd difrifol ei hun nac yn mynd i'r afael â hanes o bryderon iechyd meddwl. Roedd gan asiantaethau proffesiynol bryderon sylweddol mai ychydig iawn o ffiniau oedd gan B, os o gwbl, nad oedd hi'n cael ei goruchwylio'n iawn ac nad oedd hi'n derbyn gofal digonol, ac roedd B yn ymateb i hyn gydag ymddygiad hynod heriol. Fel rhan o'r prosesau amddiffyn plant, symudodd y plentyn a'i mam i mewn gyda mam-gu a thad-cu B. Mewn Adolygiad Amddiffyn Plant cynnar, cytunwyd y gallai B gael ei chamu i lawr i Gynllun Gofal a Chymorth (CGCh), gyda chyfranogwyr yn croesawu'r ffaith y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu'n ofalus gan Swyddog Adolygu profiadol.*

*Cynullwyd Cyfarfodydd Cynllunio Gofal a Chymorth yn fuan ar ôl y gynhadledd, a wnaeth adolygu a gwneud argymhellion cadarn mewn perthynas â'r cynllun. Roedd mam B wedi gallu dangos tystiolaeth ei bod yn cydymffurfio â'i meddyginiaeth, yn cael cymorth drwy'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac yn gweithio gyda'r gwasanaeth Allgymorth Dechrau'n Deg. Roedd yr Ymwelydd Iechyd hefyd wedi gallu cefnogi'r teulu i gael mynediad at becyn amrywiol o gefnogaeth gyda grwpiau a Rhaglen Magu Plant.*

*Yn y cyfarfodydd adolygu, bu'n bosibl i mam B ofyn am - a chael cefnogaeth i - symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Er mwyn cyflawni hyn yn ddiogel, lluniwyd Cynllun Teulu, gyda'i rhieni'n darparu cefnogaeth allgymorth helaeth. Mae mam B wedi gallu rhannu yn yr adolygiadau ei bod wedi croesawu'r gefnogaeth a oedd ar gael i'w helpu i ddeall sut roedd angen iddi flaenoriaethu B.*

*Mae mam B yn dymuno parhau i dderbyn cefnogaeth gan Dechrau'n Deg a gwasanaethau allgymorth Cymorth Cynnar eraill. Cytunwyd mewn adolygiad diweddar y gall B cael ei chamu i lawr i wasanaethau cymorth Cymorth Cynnar ac nad oedd angen cefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant mwyach. Bydd Cymorth Cynnar yn parhau i ddarparu cefnogaeth gyda chymorth iechyd meddwl a chynllun diogelwch dilynol.*

## Gwaith Seiliedig ar Gryfderau - stori T.

*Mae T yn unigolyn 21 oed egnïol a fagwyd mewn gofal. Mae T wrth ei fodd yn gwneud fideos ac yn angerddol am feicio mynydd. Mae ganddo hefyd anabledd dysgu, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), a gwendidau cymdeithasol. Newidiodd amgylchiadau T yn sylweddol pan fu'n rhaid i'r oedolion a oedd yn ofalwyr iddo roi'r gorau i ddarparu'r cymorth yr oedd ei angen arno. Dyna pryd y camodd y gwasanaeth Anableddau Dysgu i mewn i'w gynorthwyo i drosglwyddo i gartref byw â chymorth lled-annibynnol, rhywbeth yr oedd T bob amser wedi breuddwydio amdano.*

*Daeth y foment fawr yn nhaith T pan arwyddodd ei gytundeb tenantiaeth a symud i mewn, gan symboleiddio annibyniaeth newydd. Byddai'n dweud, "Rwy'n caru'r staff, rydw i wrth fy modd gyda fy ystafell; mae gen i fy mhopty fy hun, oergell a microdon, popeth", sy'n dangos cymaint yr oedd yn gwerthfawrogi'r amgylchedd cefnogol o'i gwmpas a'r cyfle i gael ei gartref ei hun.*

*Roedd y dull o helpu T yn Seiliedig ar Gryfderau. Gosodwyd T yng nghanol yr holl gynllunio. Gan weithio'n agos gydag ef cyn y symudiad, gwnaeth gweithwyr cymdeithasol T archwilio gwahanol drefniadau byw, trafod darpar ffrindiau, a hyd yn oed feddwl am weithgareddau y byddai'n eu mwynhau.*

*Anogwyd T i leisio ei bryderon, a gyda'i gilydd, canfuwyd atebion i'w lleddfu, boed yn alwad braf gan ffrind neu daith feic i'r parc lleol – roedd gan T adnoddau i reoli ei les.*


*Gyda chefnogaeth, datblygodd T sgiliau bywyd defnyddiol. Mae bellach yn rheoli ei arian ei hun, yn gofalu am ei fflat, a hyd yn oed yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Y tu hwnt i'w annibyniaeth, mae hyder T mewn sefyllfaoedd cymdeithasol wedi blodeuo. Mae wrth ei fodd yn cael nosweithiau tecawê a ffilm gyda'i gyd-denantiaid, ac mae'n gwneud yn dda yn y coleg - cyflawniad gwych arall.*

*Mae taith T yn dangos gwir bŵer dull Seiliedig ar Gryfderau a gwaith amlddisgyblaethol effeithiol, gan osod T yng nghanol y daith o gynllunio gofal a chymorth a'i alluogi i ddarganfod atebion ar gyfer ei heriau ei hun. Mae'r gefnogaeth wedi helpu gwytnwch T, gan arwain at fwy o bositifrwydd ac annibyniaeth.*

| Nifer yr asesiadau lles plant a gwblhawyd | % y bobl na wnaethant gysylltu â gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Oedolion eto o fewn 6 mis | Nifer y plant ac oedolion sy'n defnyddio'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol | % y cleientiaid oedd yn teimlo eu bod yn gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi gyda chymorth y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol |
|---|---|---|---|
| **2,353** ▼ o 2,509 yn 2021/22 | **90.2%** ▼ o 91.7% yn 2021/22 | **869 (gan gynnwys 159 plentyn)** ▲ o 825 yn 2021/22 | **96%** ▲ o 95% yn 2021/22 |

| Tystiolaeth o gynnig rhagweithiol o'r Gymraeg ar gyfer: | Tystiolaeth o gynnig rhagweithiol o'r Gymraeg ar gyfer: | Tystiolaeth o gynnig rhagweithiol o eiriolaeth ar gyfer: |
|---|---|---|
| **648** o asesiadau yn y Gwasanaethau Plant (derbyniwyd **35**) ▼ o 713 (▲ a dderbyniwyd) yn 2021/22 | **1,057** o asesiadau yn y Gwasanaethau Oedolion (derbyniwyd **26**) ▲ o 997 (derbyniwyd 5) yn 2021/22 | **377** plentyn (derbyniwyd **166**) ▲ o 328 (derbyniwyd 141) yn 2021/22 |

**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**





## GWEITHIO GYDA PHOBL A PHARTNERIAID I DDIOGELU A HYRWYDDO IECHYD CORFFOROL A MEDDYLIOL POBL A'U LLES EMOSIYNOL

### Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Gwell cefnogaeth i bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol drwy gyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol. |
| ✓ | Mewn sefyllfa dda i wella amseroldeb y broses o ryddhau pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol o'r ysbyty gan ddod o hyd i eiddo fel ateb llety. |
| ✓ | Ymgysylltu'n well â phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau wrth gynllunio ar gyfer eu hoedolaeth ar ôl gweithredu'r Protocol Pontio Cynllunio ar gyfer Fy Nyfodol a chefnogi adnoddau hyfforddi. |
| ✓ | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi'n well drwy gyflwyno "blychau croeso" lles wrth iddynt ddechrau derbyn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys dyddiadur lles a grëwyd gan MIND, eitemau maldod fel ewyn bath, danteithion melys, peli straen / teganau ffidlan, gwybodaeth am eiriolaeth, hawliau plant, cyfranogiad, a gwybodaeth berthnasol arall. Maent hefyd yn cynnwys llythyr a ysgrifennwyd gan bobl ifanc eraill o'u persbectif nhw ynghylch sut mae'n teimlo i ddechrau derbyn gofal ac yn rhoi gwybod iddynt nad ydyn nhw "ar eu pen eu hunain" ac yn awgrymu y gallent fynychu'r Grŵp Bright Sparks. |
| ✓ | Gwella'r profiad o symud lleoliad i blant a phobl ifanc trwy lofnodi'r addewidion yn yr Ymgyrch Mae Fy Mhethau i'n Bwysig a phrynu bagiau i sicrhau bod gan blant ffordd briodol o gludo eu heiddo. |
| ✓ | Gwell cyfleoedd i wella lles pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda nifer o fentrau drwy gydol y flwyddyn – gan gynnwys taith i Lundain fel rhan o Gaeaf Llawn Lles (a ariennir gan Lywodraeth Cymru). |
| ✓ | Cafodd y rhai sy'n gadael gofal eu cefnogi'n well i gynnal ffordd iach o fyw drwy ddosbarthiadau "Rhoi Cynnig ar Goginio" gan ddysgu iddynt y sgiliau sydd eu hangen i wneud prydau bwyd syml ac iach a'u haddysgu am faeth. |
| ✓ | Datblygu'r Ganolfan Ryddhau Integredig (CRI) fel un pwynt mynediad i gefnogi'r newid o'r ysbyty i'r cartref, gydag ystod o lwybrau rhyddhau bellach ar waith. |
| ✓ | Cefnogwyd 2,118 o bobl trwy'r broses ryddhau gan y Tîm Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf (Byddin Binc). |
| ✓ | Gweithredu System Monitro Galwadau Electronig newydd o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol a datblygu rotas staff newydd i wella effeithlonrwydd a pharhad gofal. |
| ✓ | Ail-lansio Hybiau Gofal (gwasanaethau dydd pobl hŷn) i atal ynysu cymdeithasol ymhlith defnyddwyr gwasanaeth ac i gefnogi gofalwyr di-dâl. |
| ✓ | Ystod ehangach o weithgareddau a digwyddiadau wedi'u trefnu trwy ein hybiau cymunedol i helpu pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltiedig. |
| ✓ | Gwaith parhaus gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i gyflawni gweithgarwch wedi'i dargedu er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled y ddinas. |

### Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Datblygu Strategaeth Toiledau Lleol Caerdydd i sicrhau y gall pobl fod yn hyderus wrth fod yn weithgar yn y gymuned. |
| ✓ | Parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Cymorth Lles i gefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl lefel isel. |
| ✓ | Gwell gwasanaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl gyda Thŷ Canna yn cynnig ystod ehangach o wasanaethau a grwpiau. |

| Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23 |
|---|
| **Moderneiddio gwasanaethau gofal cartref** |
| Gweithio i gynyddu **ymwybyddiaeth o argaeledd toiledau yn y ddinas** ac ehangu'r rhwydwaith drwy annog sefydliadau allanol i gymryd rhan yn y cynllun cymunedol |
| Cyflwyno rhaglen ddigwyddiadau wedi'i thargedu i **hyrwyddo sgriniadau iechyd, fel canser y coluddyn** |

| Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi |
|---|
| **Strategaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau** |
| Llwybrau a darpariaeth gwasanaethau i blant sydd â **phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol difrifol** |
| Gweithredu **Ymarfer sy'n Seiliedig ar Drawma** |
| Datblygu **Peilot Gweithio Lleol** |

### Astudiaeth Achos – Lab7

*Mae dau berson ifanc yr oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio gyda nhw wedi llwyddo i sicrhau dirymiadau cynnar o'u Gorchmynion Atgyfeirio 12 mis oherwydd eu gwaith caled, eu hymgysylltiad a'r cynnydd a wnaethant. Gweithiodd staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid mor dda gyda'r ddau ohonynt nes i'r ddau riant ganmol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am eu gwaith a'u hymrwymiad. Rhannodd y rhieni eu bod yn gallu gweld newidiadau yn eu plant ar ôl sesiynau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'u bod yn ystyried ac yn myfyrio ar eu gweithredoedd. Nododd mam un o'r bobl ifanc fod Lab7 wedi bod yn gyfle gwych i'w mab a'i fod wedi parhau i ymgysylltu â'r gwasanaeth ar ôl i ymgysylltiad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid*
*ddod i ben. Mae mam y person ifanc arall wedi rhannu yr hoffai ddod yn wirfoddolwr gyda'r gwasanaeth a chefnogi'r rhieni oherwydd ei phrofiadau byw ei hun.*
*(Mae Lab7 yn cynnig gweithdai creadigol a chefnogaeth wedi'i theilwra i bobl ifanc ag iechyd meddwl gwael neu sydd mewn perygl o ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.)*

| Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Oedran cyfartalog yr oedolion sy'n mynd i leoliadau gofal preswyl | Hyd cyfartalog arosiadau mewn lleoliadau preswyl |
|---|---|---|
| **326** ▼ o 444 ar 31 Mawrth 2022 | **81** ▼ o 85 yn 2021/22 | **902** ▼ o 957 2021/22 |
| **Canran y bobl a alluogwyd i fyw'n fwy annibynnol o ganlyniad i'w cymorth cartref gofal TAC** | **Canran y bobl a oedd yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan TAC** | **Nifer gyfartalog y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty gyda gofal yn wythnosol (data ar gael rhwng Ionawr a Mawrth 2023 yn unig)** |
| **88.1%** Data 2021/22 ddim ar gael | **98.9%** Data 2021/22 ddim ar gael | **45** |

**Nifer gyfartalog y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty (gyda gofal) yn wythnosol Ionawr - Mawrth 2023**



## Astudiaeth Achos ar gyfer Tŷ Canna

**Defnyddiwr Tŷ Canna sy'n mynychu'r Grŵp Menywod y Byd sy'n cael ei redeg gan wasanaethau dydd iechyd meddwl Tŷ Canna**

*"Rydw i wedi bod yn mynychu Grŵp Adfer Tŷ Canna yn Hyb Rhiwbeina ers wythnosau lawer bellach ac mae'n grŵp gwych i fod yn rhan ohono.*

*Mae llawer o'r drafodaeth ynghylch - ond heb fod yn gyfyngedig i'r - menopos. Dros yr wythnosau rydw i wedi dysgu am y cysylltiad rhwng y peri-menopos / menopos ac iechyd meddwl mewn lleoliad sy'n teimlo'n agored a diogel i fenywod siarad am bwnc nad oes digon o ymchwil wedi'i wneud iddo.*

*Mae'r grŵp wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol pan roedden ni'n gwylio fideos gan arbenigwyr ar y pwnc.*

*Rwy'n teimlo fy mod wedi dysgu llawer gan y gwirfoddolwr sydd wedi cwblhau hyfforddiant i gefnogi unigolion drwy'r cyfnod heriol hwn. Mae gan y gwirfoddolwr hefyd brofiad o iechyd meddwl. Mae'r gwirfoddolwr wedi gwneud i mi feddwl efallai 'mod i wedi bod yn dioddef o lawer o'r symptomau hyn heb eu cysylltu â'r menopos gan yn lle hynny roi'r bai ar 'iechyd meddwl gwael'.*

*Doedd gen i ddim syniad bod gorbryder yn rhywbeth y mae llawer iawn o fenywod yn ei adrodd fel symptom. Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r grŵp a rhannu straeon am fywyd yn gyffredinol gydag eraill. Rwy'n teimlo 'mod i wedi magu hyder dros yr wythnosau ac yn mwynhau'r ochr gymdeithasol."*

**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**



## CYMRYD CAMAU I AMDDIFFYN A DIOGELU POBL RHAG CAMDRINIAETH, ESGEULUSTOD NEU NIWED

### Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Mae pobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio, neu sydd wedi profi camfanteisio, yn cael eu diogelu'n well trwy weithrediad parhaus SAFE (Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio) yn ystod y flwyddyn. |
| ✓ | Mae Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC) yn cael eu diogelu trwy weithredu'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol yn barhaus – mae 29 UASC wedi cael eu rhoi o dan y cynllun hwn gan Gaerdydd yn ystod y flwyddyn (yn ogystal â 12 o gyraeddiadau dirybudd). Roedd cyfanswm o 45 UASC yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2023. |
| ✓ | Trefniadau gwell i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu gan ddefnyddio'r lefel ddiogel isaf o ymyrraeth wrth weithredu'r Ganolfan Adolygu. Mae dros 200 o blant a phobl ifanc wedi'u camu-i-lawr gan gau achosion neu ddarparu gwasanaethau Cymorth Cynnar ers lansio'r Ganolfan Adolygu. |
| ✓ | Trefniadau gwell ar gyfer diogelu pobl ifanc 16-25 oed ag anghenion cymhleth ac wrth iddynt drosglwyddo i'r Gwasanaethau Oedolion drwy sefydlu Panel Diogelu Pontio amlddisgyblaethol ar gyfer pobl ifanc sy'n cyfarfod yn wythnosol i ystyried atgyfeiriadau ac adolygu pa wasanaethau y gellir eu cynnig. |
| ✓ | Cwblhawyd 93% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn 7 diwrnod (cyfartaledd Cymru 84%). |
| ✓ | Mae 85% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu. |
| ✓ | Codi proffil y gwasanaeth Diogelu Oedolion fel y dangosir gan y cynnydd mewn atgyfeiriadau gan asiantaethau gofal. |
| ✓ | Cydlyniant rhwng Diogelu Oedolion a'r Uned Cynhwysiant Cymdeithasol Tai i alluogi ymatebion cydlynol a threfniadau rhannu gwybodaeth gwell rhwng Gwasanaethau Oedolion a Thai. |
| ✓ | Mae 84% o staff y cyngor wedi cwblhau modiwl ar-lein Lefel 1 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) i sicrhau bod modd nodi'r rhai sydd mewn perygl a'u cefnogi'n well. |
| ✓ | Datblygwyd Strategaeth VAWDASV ddiwygiedig. |
| ✓ | Datblygwyd cyfres o ymyriadau cyflawnwyr cam-drin domestig yn llawn. Mae'r rhain yn ymateb i lefel y risg y mae'r cyflawnwyr yn ei hachosi i'w dioddefwyr. |
| ✓ | Cefnogwyd 338 o gyflawnwyr niwed difrifol / ailadroddus drwy'r rhaglen Drive gyda'r gwasanaeth integredig cymorth i oroeswyr yn cynorthwyo 388 o ddioddefwyr a 231 o blant. Cwblhaodd 21 o gyflawnwyr eraill y rhaglen cyflawnwyr triniaeth therapiwtig Driving Change. |

| **Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23** | **Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi** |
|---|---|
| **Gweithredu Canolfan Adolygu** | Ymsefydlu'r **Strategaeth Gamfanteisio** |
| **Parhau i rannu gwybodaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth a hygyrchedd y gwasanaeth Diogelu Oedolion ar draws y gyfarwyddiaeth.** | Ymsefydlu'r **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** |

### Astudiaeth Achos – Diogelu Oedolion


*Mae H yn weithiwr rhyw benywaidd 26 oed sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau risg uchel. Mae hi wedi cael diagnosis o salwch iechyd meddwl ac mae'n defnyddio amryw o gyffuriau gan gynnwys cyffuriau mewnwythiennol. Dywedodd wrth ei gweithiwr cymorth tai ei bod yn cael ei thargedu am gamdriniaeth y tu allan i'w llety a'i bod wedi dioddefodd anafiadau yn ystod ymrwymiadau diweddar gan fod ei chleientiaid yn anwybyddu geiriau diogel y cytunwyd arnynt. Roedd hyn yn cynnwys ei herwgipio a'i charcharu am dros 24 awr.*

*Trwy Grŵp Strategaeth Oedolion amlasiantaethol, cefnogwyd H i wneud adroddiad i'r Heddlu yn nodi un unigolyn a oedd wedi ymosod arni. Cafodd hefyd eiddo newydd a llety diogel tra bod trefniadau'n cael eu gwneud. Cynigiwyd cymorth i H i wneud y mwyaf o'i hincwm drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau i leihau'r angen am - ac amlder - ei gwaith rhyw risg uchel. Gwnaeth gwasanaethau trydydd sector sy'n gweithio gyda gweithwyr rhyw gysylltu â hi hefyd, a chafodd wybodaeth am Weithwyr Allgymorth Cymru Ddiogelach a allai ei chefnogi pe bai risg uchel o herwgipio neu niwed mewn galwad. Rhoddodd hyn yr opsiwn i H ddweud wrth rywun pa amser yr oedd hi'n disgwyl bod 'nôl - gallai'r person hwnnw wedyn seinio larwm pe na bai'n dychwelyd o'i galwad.*

*Cynigiwyd cyngor a gwybodaeth i H hefyd am gadw ei hun yn ddiogel oherwydd natur y risg yr oedd yn ymwneud â hi, ond gwrthododd roi'r gorau i weithio.*


*Cadwodd H mewn cysylltiad â Diogelu Oedolion i adolygu'r trefniadau ar ôl iddi adsefydlu yn y llety amgen.*


64

| % yr ailgofrestriadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis | % yr ymweliadau amddiffyn plant a gynhaliwyd ar amser | Nifer y plant sydd wedi bod yn destun camfanteisio |
|---|---|---|
| **9.6% (51)** ▲ 0 4.2% (25) yn 2021/22 | **64.0%** ▼ o 66.1% yn 2021/22 |   |

| % yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod | Cyfanswm yr atgyfeiriadau diogelu a ddechreuwyd | % yr ymholiadau Diogelu Oedolion a gwblhawyd lle nad oedd angen unrhyw gamau pellach | Nifer yr Ymchwiliadau Diogelu Oedolion a ddechreuwyd |
|---|---|---|---|
| **93%** ▼ o 99.1% yn 2021/22 | **1,686** ▼ o 1,693 yn 2021/22 | **76%** ▲ o 68% yn 2021/22 | **400** ▲ o 383 yn 2021/22 |

**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**





## ANNOG A CHEFNOGI POBL I DDYSGU, DATBLYGU A CHYMRYD RHAN MEWN CYMDEITHAS

### Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Gwella cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol drwy weithio'n agos gyda chydweithwyr Addysg i drosglwyddo plant i'r Cynlluniau Datblygu Unigol newydd. |
| ✓ | Mewn sefyllfa dda i gynnig cefnogaeth well i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal mewn addysg drwy benodi Pennaeth Rhithwir. |
| ✓ | Gwella cefnogaeth i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal - hyd at 25 oed - trwy weithrediad parhaus Hawl Estynedig. |
| ✓ | Mae pobl ifanc sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu cefnogi i gyfrannu at gymdeithas drwy gynnal rhandir. Maent yn trin y llain, yn cynaeafu'r cnwd ac yn gwerthu'r cynnyrch i godi arian i elusen. Yn fwyaf diweddar, gwnaethant benderfynu prynu hetiau a menig ar gyfer pobl ddigartref cyn y gaeaf. |
| ✓ | Derbyniwyd Caerdydd i Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn. Mewn ymgynghoriad ag aelodau hŷn o'r gymuned, datblygwyd cynllun gweithredu gydag uchelgais gyffredinol o Gaerdydd yn dod yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn. |
| ✓ | Gwnaethom atal unigedd cymdeithasol trwy gefnogi pobl hŷn i gadw'n actif a chysylltiedig. |
| ✓ | Cynyddu argaeledd gweithgareddau rhithwir a wyneb-yn-wyneb oed-gyfeillgar mewn Hybiau Cymunedol. |
| ✓ | Wedi cynnig cymorth cynhwysiant digidol oed-gyfeillgar. |
| ✓ | Annog gwirfoddoli i gefnogi pobl hŷn drwy recriwtio Cydlynydd Gwirfoddoli Cymunedol. |
| ✓ | Creu mannau Croeso Cynnes yn ein Hybiau Cymunedol. |
| ✓ | Wedi gwella'r cynnig cymunedol i Ofalwyr Di-dâl, a datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant pellach. |
| ✓ | Cynhaliwyd 2,616 o ddigwyddiadau Deall Dementia digidol ledled y ddinas i hyrwyddo cymorth a chynhwysiant i bobl sy'n byw gyda dementia. |
| ✓ | Lansiwyd y Rhaglen Gwirfoddolwyr sy'n Deall Dementia. |
| ✓ | Gwaith peilot rhwng y Gwasanaethau Oedolion a Choleg Caerdydd a'r Fro i gynnig addysg bellach i bobl ag anableddau dysgu cymhleth yn lleol. |
| ✓ | Datblygwyd y Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymhleth ymhellach, gan ehangu'r gwasanaethau i ddarparu seibiant priodol i ofalwyr a sicrhau y gall unigolion ag anableddau lluosog a difrifol gael mynediad i'r gymuned. |
| ✓ | Gweithiodd y Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymhleth gyda disgyblion ag anghenion cymorth cymhleth yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol, gan gyd-gynhyrchu cynlluniau cymorth i gefnogi pontio esmwyth o'r ysgol i fywyd fel oedolyn. |

| Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23 |
| --- |
| **Strategaeth Rhianta Corfforaethol** a chynllun gweithredu |
| Datblygwyd cronfa o **Gydlynwyr Gwirfoddoli Cymunedol** |
| Ail-lansiwyd Canolfannau Dydd fel **Hybiau Gofal,** gydag ystod ehangach o weithgareddau a digwyddiadau |
| Datblygwyd **Cynllun Gweithredu Gofalwyr Di-dâl** |

| Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi |
| --- |
| **Gwella a chynyddu** seibiant dros nos i'r rhai ag anableddau dysgu |

## Astudiaeth Achos – Gwasanaethau Oedolion


*Mae gan T Anableddau Dysgu a chafodd ei atgyfeirio at y Tîm Anableddau Dysgu Oedolion gan ei fod wedi bod adref drwy gydol COVID-19 ac nid oedd yn siŵr o'i gamau nesaf. Ar ôl sawl cyfarfod ac wedi adeiladu perthynas gyda T, dysgwyd ei fod am wneud rhyw fath o wirfoddoli.*

*Cafwyd trafodaeth bellach gyda T am y math o waith yr hoffai ei wneud yn y dyfodol, a soniodd am waith mewn amgylchedd warws. Cysylltodd y gwasanaeth â Sefydliad Prydeinig y Galon gan eu bod yn hysbysebu am Gynorthwywyr Warws Gwirfoddol.*

*Gwnaeth y gwasanaeth helpu T gyda ffurflen gais gan ei fod yn ei chael hi'n anodd darllen ac ysgrifennu. Trefnwyd diwrnod blasu i T, a nodwyd y llwybrau bws i'w alluogi i gyrraedd y lleoliad.*

*Er mwyn i T wirfoddoli yn y warws roedd gofyn iddo gwblhau cwrs iechyd a diogelwch a chodi a chario mewnol ar-lein. Gyda rhywfaint o gefnogaeth, llwyddodd T i basio'r ddau gwrs.*


*I ddechrau, roedd T yn mynychu warws Sefydliad Prydeinig y Galon un diwrnod yr wythnos. Roedd T wir yn mwynhau ei amser yn y warws a gwelwyd gwahaniaeth enfawr yn ei hyder a'i gyfathrebu - roedd wedi datblygu perthynas dda gyda'r staff. Mae T bellach yn gwirfoddoli 3 diwrnod yr wythnos ac mae'n hapus iawn yno.*

| Plant sy’n derbyn gofal trwy leoliad 31/03/22 (1,040) | % y plant sy‘n derbyn gofal a symudodd ysgol | % y bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
|---|---|---|
|   | **17.4%** ▲ o 13.0 yn 2021/22  | **34.8%** ▼ o 36.7 yn 2021/22  |

| Canran staff y Cyngor sy’n cwblhau hyfforddiant Cyfeillion Dementia | Digwyddiadau digidol Cyfeillion Dementia | Nifer y digwyddiadau digidol a phresenoldeb a gefnogir gan Dîm Iechyd Meddwl Tŷ Canna | Nifer y busnesau sydd wedi ymrwymo i weithio i Ddeall Dementia |
|---|---|---|---|
| **54.4%** ▲ o 49.8% yn 2021/22 | **2,616** ▲ o 1,128 yn 2021/22 | **930 o bobl yn ymgysylltu â digwyddiadau bob mis** ▲ o 906 yn 2021/22 | **79** ▲ o 16 yn 2021/22 |

| Gwasanaethau Cymunedol i Bobl Hŷn | | | |
|---|---|---|---|
| **463** o ddigwyddiadau wedi’u cynnal i gefnogi pobl i gadw’n heini ac i symud | **1,247** o ddigwyddiadau wedi’u cynnal i gefnogi pobl i barhau i fod yn gysylltiedig a chymdeithasol | **7,483** o gyfranogwyr yn y digwyddiadau a gynhaliwyd i gefnogi pobl i gadw’n heini ac i symud | **13,459** o gyfranogwyr yn y digwyddiadau a gynhaliwyd i gefnogi pobl i barhau i fod yn gysylltiedig a chymdeithasol |

**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**






## CEFNOGI POBL I DDATBLYGU A CHYNNAL PERTHNASOEDD DOMESTIG, TEULUOL A PHERSONOL IACH YN DDIOGEL

**Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn**

| | |
|---|---|
| ✓ | Gwella mynediad at seibiant i ofalwyr ifanc drwy ein gwaith gyda'r YMCA (ein darparwr gwasanaeth ar gyfer gofalwyr ifanc). Dywedodd un gofalwr ifanc, "Mae'r gefnogaeth wedi bod yn anhygoel ac rwy'n teimlo cymaint gwell ar ôl dod i'r prosiect gofalwyr ifanc." |
| ✓ | Gwella trefniadau i deuluoedd gyfrannu at ddatblygu cynlluniau drwy ddatblygu llwybrau clir i'r Gynhadledd Grŵp Teulu. Cafodd 140 o deuluoedd Gynadleddau Grŵp Teulu yn ystod y flwyddyn. |
| ✓ | Mae nifer sylweddol o blant yn parhau i gael eu cefnogi i aros gyda'u teuluoedd drwy drefniadau gofal gan berthnasau – 204 ar 31 Mawrth 2023. |
| ✓ | Gwella cefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal sy'n dod yn rhieni drwy ddarparu Bwndeli Babanod. |
| ✓ | Mewn sefyllfa dda i wella cefnogaeth ymhellach i rieni ifanc sy'n gadael gofal trwy weithio gyda Project Unity y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). |
| ✓ | Sicrhau sefydlogrwydd i blant gyda 32 yn cael eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn. |
| ✓ | Gwella cefnogaeth i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd drwy Hybiau Cymunedol, Swyddogion Lles a Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol. |
| ✓ | Cynyddu nifer yr asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd. |
| ✓ | Cynhaliwyd ymgynghoriad â gofalwyr di-dâl i lywio Cynllun Gweithredu Gofalwyr newydd cynhwysfawr. |
| ✓ | Cefnogwyd 280 o unigolion i ailgysylltu â'u cymuned drwy'r Gwasanaeth Cyfleoedd Dydd. |
| ✓ | Ymgysylltodd 299 o wirfoddolwyr â'r prosiect Gyda'n Gilydd dros Gaerdydd \| Caerdydd yn Gofalu, gan ddarparu dros 2,000 awr o gymorth i bobl hŷn yn y ddinas. |

| Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23 | Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi |
|---|---|
| **Amseroldeb prosesau mabwysiadu** | **Fframwaith Ailuno** |
| Cynorthwyo grwpiau cymunedol i **ddarparu gweithgareddau i bobl hŷn** drwy hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael drwy ein tîm cynhwysiant cymunedol a mentoriaid lles | Ymsefydlu **Cynadleddau Grwpiau Teulu**<br>Ailffurfio **darpariaeth seibiant** i blant ag anableddau<br>Cynllun Gwella Gwaith Llysoedd |
| Annog **gwirfoddoli** | Gorchmynion Gofal Rhyddhau i blant sy'n cael eu gosod gyda'u rhieni |
| Integreiddio Hybiau Cymunedol a Chanolfannau Dydd Pobl Hŷn i ddod yn Hybiau Gofal | Gwasanaeth Ffiniau Gofal Integredig (model Y Lle Cywir)<br>Gweithredu Canolfan Ymyriadau |

## Astudiaeth Achos – Gweithgareddau Cynhwysiant Cymunedol

*Mae G yn 72 oed. Bu farw ei gŵr tua blwyddyn yn ôl a byth ers hynny mae wedi profi teimladau o unigrwydd ac allgáu cymdeithasol. Roedd G a'i gŵr bob amser yn weithgar iawn ac yn mwynhau crwydro eu hardal leol ac roedd hyn ar goll o fywyd G ers i'w gŵr farw, gan nad oedd hi'n teimlo'n gyfforddus yn cerdded ar ei phen ei hun.*

*Wrth ymweld â'i hyb lleol i fenthyg llyfr, gwelodd G boster yn hysbysebu Grŵp Cerdded Radur dan arweiniad Swyddog Cynhwysiant Cymunedol drwy Wasanaeth Cymorth Lles Caerdydd. I ddechrau, roedd G yn bryderus am ymuno â'r grŵp ond penderfynodd roi cynnig arni.*


*Ers hynny, mae G wedi cymryd rhan yn y grŵp cerdded yn wythnosol. Mae G wedi bod yn mwynhau teimlo'n weithgar unwaith eto ac mae'n mwynhau archwilio'r gymuned leol a gwneud ffrindiau newydd.*

*Mae'r grŵp wedi parhau i ehangu gyda dros 40 o aelodau a 4 ci hefyd! Maent yn cyfarfod bob dydd Mercher i fynd am dro (sydd bob amser yn cynnwys saib am goffi).*

*Dywedodd G: "Rydw i wedi mwynhau'r teithiau cerdded yn fawr iawn. Cwrdd â phobl leol newydd, dod o hyd i rywun i helpu gyda'r ardd, darganfod llecynnau coffi newydd a dod i allu teimlo'n gartrefol yn fy ardal leol eto ar ôl marwolaeth fy ngŵr ychydig dros flwyddyn yn ôl."*




Mae Grwpiau Cerdded Cynhwysiant Cymunedol yn caniatáu i bobl gadw'n heini a chadw mewn cysylltiad â'u cymuned.

| Nifer y plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2022 | Plant yn dychwelyd adref ar ddiwedd derbyn gofal | % y plant sy'n derbyn gofal gyda 3+ o leoliadau |
|---|---|---|
|   | **45.9%** ▲ o 43.4% yn 2021/22  | **9.0%** ▲ o 7.7% yn 2021/22  |

| | | |
|---|---|---|
| **610**<br>o asesiadau lles gofalwyr wedi'u cwblhau<br>▲<br>o 503<br>yn 2021/22 | **98%**<br>o bobl yn dweud eu bod yn fwy actif a bod eu ffordd o fyw yn iachach ar ôl ymgysylltu â gweithgareddau'r Swyddog Cynhwysiant Cymunedol<br>▲<br>o 87%<br>yn 2021/22 | **127**<br>o bobl yn defnyddio Gwasanaethau Dydd Pobl Hŷn Bob wythnos<br>▲<br>o 124<br>yn 2021/22 |
| **1,569**<br>o sesiynau defnyddwyr gwasanaeth wedi'u cyflwyno o fewn gwasanaethau dydd Hybiau Gofal | **9,424**<br>o oriau gofal wedi'u darparu gan wasanaethau Hybiau Gofal | **89%**<br>o bobl yn teimlo eu bod wedi ailgysylltu â'u cymuned drwy ymyriadau uniongyrchol a digidol gan y tîm Cyfleoedd Dydd |

**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**





## GWEITHIO GYDA PHOBL, A'U CEFNOGI I WELLA EU LLES ECONOMAIDD, CYMDEITHASU'N RHEOLAIDD A BYW MEWN LLETY ADDAS SY'N BODLONI EU HANGHENION

### Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Gwella cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal yn barhaus drwy waith partneriaeth agos rhwng y Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol a'r Gwasanaeth i Mewn i Waith. Roedd mwy o bobl ifanc sy'n gymwys i gael cymorth Dyfodol Disglair mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant - 441/658 (67%) ym mis Mawrth 2023 o gymharu â 418/624 (67%) ym mis Mawrth 2022. |
| ✓ | Cefnogwyd pobl sy'n gadael gofal i ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer byw'n annibynnol mewn gweithdy DIY gyda chwmni adeiladu lleol a dosbarthiadau coginio. |
| ✓ | Gwella cefnogaeth i bobl ifanc ddod o hyd i waith gyda chyflwyniad Cynllun Gwarantu Cyfweliad sy'n rhoi sicrwydd o gyfweliad ar gyfer swyddi Cyngor Caerdydd i bobl sy'n gadael gofal yng Nghaerdydd os ydynt yn bodloni'r meini prawf hanfodol. |
| ✓ | Gwella lles economaidd i bobl sy'n gadael gofal drwy gyfranogiad Caerdydd yn y Peilot Incwm Sylfaenol – i ddarparu cymorth ariannol i bobl sy'n gadael gofal wrth iddynt symud i fyw'n annibynnol. |
| ✓ | Gwella cymorth cymdeithasol i bobl sy'n gadael gofal drwy gyflwyno peilot mentora i bobl ifanc mewn llety â chymorth – bydd mentor ieuenctid yn helpu pobl ifanc i fagu hyder a lleihau unigedd cymdeithasol. |
| ✓ | Cynyddwyd opsiynau llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal trwy gydweithio â chydweithwyr Tai – sicrhawyd 16 uned lety ychwanegol yn y Porth Pobl Ifanc gan alluogi pobl ifanc i bontio o leoliadau maethu/preswyl i fyw'n annibynnol. Bwriedir i 24 uned arall ddod ar gael yn ystod 2023/24. |
| ✓ | Mae'r prawf modd ar gyfer addasiadau anabledd cymwys wedi'i ddileu, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn yr amser cyfartalog y mae'n rhaid i ymgeiswyr aros am gymeradwyaeth. |
| ✓ | Cwblhawyd 989 o addasiadau anabledd, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol gartref. |
| ✓ | Cynhaliwyd adolygiad llawn o'n Gwasanaeth Byw â Chymorth Mewnol a datblygwyd cynigion ar gyfer y dyfodol. |
| ✓ | Cwblhawyd 481 o ddanfoniadau yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf gan y Cyd-Wasanaeth Offer i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi derbyniadau, cefnogi gofalwyr yn eu gwaith a chynorthwyo gyda gofal diwedd oes. |
| ✓ | Roedd 53% o'r bobl a oedd yn derbyn pryd ar glud yn cael prydau bwyd wedi'u dosbarthu 7 diwrnod yr wythnos, gan gynnal iechyd a lles gwell yn y gymuned. |
| ✓ | Sicrhaodd y tîm ymweliadau Byw'n Annibynnol fod unigolion yn gallu hawlio'r budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt, gan nodi £1.2 miliwn mewn budd-daliadau heb eu hawlio. |
| ✓ | Cefnogodd y Tîm Cyngor Ariannol dros 2,500 o bobl hŷn. Mae'r Tîm i Mewn i Waith yn cefnogi pobl hŷn i ddod o hyd i gyflogaeth. |

## Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Datblygwyd cynllun llety pobl hŷn arbenigol ar gyfer y rhai ag anghenion mwy cymhleth. |
| ✓ | Datblygwyd cynllun byw â chymorth newydd a ganiataodd i 11 o bobl â phroblemau iechyd meddwl gamu-i-lawr o ofal preswyl. |
| ✓ | Datblygwyd dau lwybr newydd ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty – modelau cymorth Rhyddhau i Adfer ac Asesu a Rhyddhau i Asesu, gan ganiatáu gofal cartref neu breswyl tra bod asesiadau'n cael eu cynnal. |

| **Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23** |
|---|
| Sefydlwyd y Gwasanaeth Atebion Ailgartrefu yn llawn |
| Cwblhawyd adolygiad o lety Pobl Hŷn a ddyrennir drwy'r rhestr aros a gweithredwyd trefniadau newydd |

| **Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi** |
|---|
| **Digonolrwydd llety** |
| **Gweithio'n lleol** |
| Datblygu **tai pobl hŷn sy'n cefnogi byw'n annibynnol** |


### Astudiaeth Achos – Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol

*Daeth y Gwasanaethau Plant i wybod am A ar ôl iddo gyrraedd y Deyrnas Unedig fel Plentyn Digwmni yn Ceisio Lloches (UASC). Dioddefodd drawma helaeth yn ystod ei daith i'r DU. O ganlyniad, yn y pen draw, roedd iechyd meddwl A yn ddifrifol wael (seicosis) a arweiniodd at gael ei dderbyn i uned iechyd meddwl arbenigol. Tybiwyd ar un adeg na fyddai A yn gallu byw'n annibynnol na dychwelyd i'r coleg am beth amser. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth ei Ymgynghorydd Personol a Chymorth Tai Llamau fe wellodd iechyd meddwl A yn sylweddol - i'r pwynt lle dychwelodd i'r coleg. Mae bellach yn byw'n annibynnol mewn fflat o dan ei denantiaeth ei hun.*

*Llwyddodd A i sicrhau'r denantiaeth hon gyda chefnogaeth ei Ymgynghorydd Personol a Llamau ac erbyn hyn mae ganddo gartref hyfryd lle mae'n teimlo'n ddiogel a chartrefol. Mae A yn parhau i gael cefnogaeth gan y tîm iechyd meddwl rhagorol yn Headroom, ac mae'n llwyddo i gynnal ei denantiaeth yn dda, gan dalu biliau a choginio. Mae A nawr yn bwriadu symud ymlaen gyda'i astudiaethau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) i ddilyn cwrs gydag achrediad masnach, fel mecaneg.*

| Pobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | Nifer y bobl ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Plant sydd mewn llety Porth Pobl Ifanc ar 31 Mawrth 2023 | Nifer y lleoliadau Pan Fydda i'n Barod sy'n dechrau |
|---|---|---|
| 12 mis ar ôl gadael gofal<br>**68.1%**<br>▲ 63.9% yn 2021/22<br><br>13-24 mis ar ôl gadael gofal<br>**56.6%**<br>▼ o 58.4% yn 2021/22 | **41**<br>▲ o 36 yn 2021/22 | **10**<br>▼<br>o 21<br>yn 2021/22 |
| **Cyfanswm nifer y danfoniadau offer drwy'r Storfa Offer ar y Cyd** | **Nifer y cwsmeriaid sy'n cael pryd ar glud** | **Hunanatgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan ffrindiau ac aelodau o'r teulu i Teleofal** |
| **31,521**<br>▼<br>o 32,474<br>2021/22 | **617**<br>▲<br>o 475<br>2021/22 | **52%**<br>▲<br>o 46%<br>2021/22 |
| **Unedau newydd o Lety Pobl Hŷn Arbenigol a ddarparwyd** | **Nifer y bobl a gefnogwyd gan y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol i Uchafu Incwm** | **Nifer gyfartalog y diwrnodau calendr cyn cyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl** |
| **49** | **648**<br>▼<br>o 927<br>2021/22 | **141 diwrnod**<br>▲<br>o 136<br>2021/22 |

**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**



# 9 EIN DULLIAU

**“Mwy na Geiriau” / “More than Just Words”**

> **Amcanion Safonau’r Gymraeg ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol:**
>
> Cynyddu cyfleoedd i bobl dderbyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg trwy:
>
> • Sicrhau bod pob aelod o staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mewn gwasanaethau a gomisiynir yn cael cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg.
>
> • Cynnwys gwasanaethau Cymraeg o fewn manylebau contractau, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau cyllid grant trydydd sector ac annibynnol.
>
> • Datblygu cynlluniau i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau yn Gymraeg gyda staff cyfredol sy’n siarad yr iaith; dylid adlewyrchu bylchau a nodir yng ngallu’r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y sefydliad.

Rydym yn gweithio tuag at wneud gwelliannau yn erbyn yr amcanion a nodir isod:

- **Amcan 1: Arweinyddiaeth Genedlaethol a Lleol, a Pholisi Cenedlaethol**
  Mae Rheolwr Gweithredol Systemau a Thrawsnewid Busnes yn ymgymryd â rôl Pencampwr Cymraeg ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Penodwyd cydlynydd iaith Gymraeg ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac rydym yn chwilio am rywun i lenwi’r rôl ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion gan fod deiliad blaenorol y swydd wedi gadael y sefydliad.

- **Amcan 2: Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwilio**
  Mae manylion sgiliau Cymraeg y gweithlu a phroffil cymuned y Gymraeg yn dal i gael eu monitro. Mae cwestiynau’n parhau i gael eu gofyn yn system cofnodion cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi dewis iaith defnyddwyr.
  Mae’r data diweddaraf am y Gymraeg o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth yn dangos bod 94,200 o bobl 3 oed a hŷn yng Nghaerdydd yn gallu siarad Cymraeg (yn ail yn unig i Sir Gaerfyrddin).

- **Amcan 3: Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio’r Gweithlu**
  Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg ar draws y Cyfarwyddiaethau i sicrhau bod recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg yn parhau’n flaenoriaeth allweddol. Mae recriwtio wedi dod yn fwyfwy anodd ar draws y sector cyfan o ran swyddi Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac mae’r sefyllfa hon yn debygol o barhau am beth amser. Mae prosesau ar gyfer neilltuo staff sy’n siarad Cymraeg wedi’u treialu yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth sydd angen asesiadau Cymraeg yn gallu eu cael.

- **Amcan 4: Hyrwyddo ac Ymgysylltu**
  Rydym yn parhau i weithio tuag at ddenu a datblygu'r gweithlu Cymraeg eu hiaith, a chryfhau cysylltiadau â sefydliadau. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn parhau i gael ei hyrwyddo'n rheolaidd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Amcan 5: Addysg ac Amcan 6: Cymraeg yn y Gweithle**
  Mae cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg yn parhau i gael eu hyrwyddo'n rheolaidd ar draws y Cyngor a'r Cyfarwyddiaethau, o hyfforddiant i ddechreuwyr i hyfforddiant hyfedredd yn y Gymraeg gan roi amser i ffwrdd i staff sydd am fynychu. Yn ychwanegol, mae Hyfforddiant Ymwybyddiaeth yn elfen hanfodol o'r hyfforddiant sefydlu gofal cymdeithasol, yn rhan o raglen sefydlu lleoliadau myfyrwyr gwaith cymdeithasol ac yn elfen orfodol o'r rhaglen hyfforddi Tair Blynedd Gyntaf mewn Ymarfer i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Mae Academi Cyngor Caerdydd bellach yn cyflogi hyfforddwr Cymraeg yn uniongyrchol ac mae potensial i wasanaethau hyfforddiant Cymraeg gael eu teilwra i grwpiau penodol o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol e.e. staff



# EIN GWEITHLU A SUT RYDYM YN CEFNOGI EU ROLAU PROFFESIYNOL

## Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Gwella cefnogaeth i ddatblygu gwasanaethau yn y Gwasanaethau Plant drwy Swyddogion Prosiect pwrpasol. |
| ✓ | Mewn sefyllfa dda i ddatblygu model ymarfer newydd yn y Gwasanaethau Plant yn dilyn sesiynau ymgysylltu gyda rheolwyr a staff. |
| ✓ | Mewn sefyllfa dda i wella ansawdd ymarfer gyda chytundeb am adnoddau ychwanegol yn y tîm Sicrwydd Ansawdd. |
| ✓ | Gwella trefniadau ar gyfer gweithio unigol drwy gyflwyno'r ddyfais PeopleSafe. |
| ✓ | Cefnogaeth barhaus i weithwyr cymdeithasol a chysondeb gwell i deuluoedd drwy'r rôl Arweinydd Ymarfer. |
| ✓ | Darparu gwasanaethau'n well drwy gefnogi staff i allu cyflawni eu rolau'n well: |
| ✓ | Aeth 18 aelod o staff ar secondiad ar y cwrs gradd Gwaith Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. |
| ✓ | Cafodd 5 aelod o staff Galluogi Dysgu Ymarfer (GDY) eu cefnogi i ddilyn y llwybr Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (ADPP) yn ystod y flwyddyn. |
| ✓ | Cofrestrodd 28 o weithwyr cymdeithasol newydd-gymhwyso ar y rhaglen Tair Blynedd Cyntaf mewn Ymarfer gyda 18 o staff profiadol wedi'u hyfforddi fel mentoriaid i'w cefnogi. |
| ✓ | Cynhaliwyd Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant cynhwysfawr a fydd yn llywio'r gwaith o ddarparu cyfleoedd datblygu a hyfforddi proffesiynol. |
| ✓ | Ailstrwythurwyd ein Tîm Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol i gryfhau'r cynnig Hyfforddiant Gwasanaethau Oedolion gan gynnwys cyflwyno swydd benodol i ddarparu hyfforddiant Seiliedig ar Gryfderau. |
| ✓ | Lansiwyd brand Gwaith Cymdeithasol Caerdydd newydd. |
| ✓ | Sefydlwyd Swyddog Cymorth Cofrestru a Chymhwyso pwrpasol i gefnogi gweithwyr gofal i gofrestru. |
| ✓ | Gweithredwyd y Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal. |
| ✓ | Parhau i ddatblygu Academi Gofalwyr Caerdydd i gynorthwyo darparwyr i recriwtio staff newydd i rolau gofal yng Nghaerdydd. Cofrestrodd 753 o bobl gyda'r gwasanaeth yn 2022/23. |
| ✓ | Cefnogwyd gweithwyr gofal gyda mentrau fel y cynllun Beics Trydan. |
| ✓ | Datblygwyd siarter gweithlu rhanbarthol sy'n nodi ein hymrwymiad i'r gweithlu ehangach. |
| ✓ | Treialu'r defnydd o Gynorthwywyr Adnoddau Gwaith Cymdeithasol i osgoi tasgau gweinyddol i weithwyr cymdeithasol. |

## Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Cyflwynwyd Taliad Atodol ar Sail y Farchnad ar gyfer ein staff cymwys a chafodd recriwtio / swyddi gwag eu monitro'n well. |
| ✓ | Lleihawyd % y swyddi gwag gwaith cymdeithasol oedolion o 12.9% i 9.94%. |
| ✓ | Datblygwyd cynllun gweithredu Asesydd Dibynadwy a dechreuwyd ei weithredu drwy ganiatáu i therapyddion galwedigaethol ragnodi gofal. |
| ✓ | Ymgymerwyd â gwaith ar strategaeth a chynllun gweithredu newydd mewn perthynas â Gweithlu Gwasanaethau Oedolion Caerdydd. |

| Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23 |
|---|
| **Iechyd a Diogelwch** yn y Gwasanaethau Plant |
| **Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid** |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r **Cyflog Byw Gwirioneddol** yn llawn i weithwyr gofal yng Nghaerdydd. |
| Rhoi cymorth rhagweithiol i helpu **gweithwyr gofal i gofrestru.** |
| Cwblhawyd adolygiad o **Academi Gofalwyr Caerdydd.** |
| Hyrwyddo **Caerdydd fel Lle Gwych i Weithio** |

| Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi |
|---|
| Lleihau **swyddi gwag parhaol yn y Gwasanaethau Plant** |
| Gweithredu **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb** |

| Swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant | Swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Oedolion | Salwch Cyfwerth ag Amser Llawn yn y Gwasanaethau Plant | Salwch Cyfwerth ag Amser Llawn yn y Gwasanaethau Oedolion | Cyfanswm y mynychwyr mewn cyrsiau hyfforddi yn 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **27.3%** ▲ o 23.9% yn 2021/22 | **9.9%** ▼ o 12.9% yn 2021/22 | **12.9** ▼ o 15.01 yn 2021/22 | **20.8** 20.8 yn 2021/22 | **1,195** (staff Gwasanaethau Oedolion) **755** (gweithwyr gofal allanol) |








*Deunydd recriwtio Gwaith Cymdeithasol Caerdydd yn defnyddio brandio newydd*

Mae'r graff isod yn dangos y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud o ran lleihau swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol ers dechrau'r pandemig COVID-19. Mae hyn wedi bod yn gryn her ac mae recriwtio yn parhau ochr yn ochr â gweithredu ein Strategaeth Gweithlu a'n cynllun gweithredu i wella cyfraddau cadw – mae hyn yn cynnwys ein gwaith tuag at gyflwyno model gweithredu newydd (gweler tudalen 15 am ragor o wybodaeth).



**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**




# EIN HADNODDAU ARIANNOL A SUT RYDYM YN CYNLLUNIO AR GYFER Y DYFODOL


## Canlyniadau rydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

| | |
|---|---|
| ✓ | Cyfeiriad clir i staff a dinasyddion gyda'r Strategaeth Gwasanaethau Plant ddiwygiedig a datblygiad pellach Strategaeth Heneiddio'n Dda'r Gwasanaethau Oedolion. |
| ✓ | Gwella gwasanaethau gan arwain at ffyrdd newydd o weithio a gwell canlyniadau i bobl o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. |
| ✓ | Cynhaliwyd ymarfer Cost Gofal gyda darparwyr. |
| ✓ | Cyflawnwyd arbedion cyllideb a gwell canlyniadau drwy ddarparu opsiynau llety / byw â chymorth amgen i bobl hŷn a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gwnaeth un cynllun o'r fath ganiatáu i 11 unigolyn gamu-i-lawr o ofal preswyl iechyd meddwl / ysbyty i fflatiau cymdeithas dai newydd sbon o fewn cyd-destun byw â chymorth, gan gyflawni arbedion blwyddyn lawn o £230k a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. |

| Beth aeth yn dda o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23 |
|---|
| Adolygu a diwygio'r **Strategaeth Gwasanaethau Plant** |
| **Llety ac asedau** ar draws y Gwasanaethau Plant |
| Ymarfer **Cost Gofal** gyda darparwyr |

| Beth sy'n mynd rhagddo o Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2022/23, gyda rhywfaint o oedi |
|---|
| **Gweithio'n lleol** ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a Phlant |
| Gweithredu'r system cofnodion cleientiaid **Eclipse** |
| Adolygiad o **wasanaethau a gomisiynir** |
| **Rhannu data** |
| **Modelu ariannol** |
| Adnewyddu'r **Strategaeth Gosod Ffioedd** ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn |



Mae cydnabyddiaeth gorfforaethol o lefel y cymorth ariannol sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd - tystiolaethir hyn gan y ffaith bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022/23 yn cyfrif am oddeutu 30% o gyllideb y Cyngor. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr corfforaethol yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau i sicrhau bod gwariant yn dryloyw ac yn cael ei fonitro'n agos gyda thargedau cyllideb ac arbedion mewn golwg.

Mae'r galw am wasanaethau wedi parhau'n uchel, yn rhannol o ganlyniad i effaith tymor hwy niweidiau COVID-19. Mae diwallu anghenion o fewn y gyllideb wedi bod yn heriol ac, o ganlyniad, yn 2022/23, gorwariwyd ar gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol gan £5.065 miliwn.

Gan gydnabod yr heriau sydd o'n blaenau, mae cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu 13% o
£208,807,000 yn 2022/23 i £235,142,000 yn 2023/24 a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid grant ychwanegol i ddatblygu a gweithredu atebion arloesol i'n cefnogi i ddiwallu anghenion y bobl fwyaf agored i niwed yn ein dinas. Cyfeirir at y camau yr ydym yn eu cymryd drwy gydol yr adroddiad hwn a nodir cerrig milltir manwl yng Nghynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2023/24.

**Dyma'r camau y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn 2023/24:**

